# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **Teitl y cynnig:** | Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Dirymu a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2026 ('y Gorchymyn Eithriadau Drafft')<br><br>a'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau |
| **Adran:** | Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar |
| **Yr Ysgrifennydd Cabinet/y Gweinidog sy'n gyfrifol:** | Dawn Bowden AS, y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol |

# ADRAN 1. BETH MAE LLYWODRAETH CYMRU YN YSTYRIED EI WNEUD A PHAM?

**Y cefndir**

Mae Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 Llywodraeth Cymru ('Gorchymyn Eithriadau 2010) yn nodi'r amgylchiadau lle nad oes angen cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd. Hynny yw, mae'r darparwyr hynny yn cael eu heithrio rhag cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru ac nid oes angen iddynt gydymffurfio â'r Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a reoleiddir. Mae'n gwahaniaethu rhwng darparwyr y mae angen iddynt gofrestru a'r rhai nad oes angen iddynt wneud hynny.

**Y mater dan sylw**

Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r eithriadau yn dilyn argymhellion yn yr adroddiadau hyn:

- Cais am Dystiolaeth ynglŷn â Gorchymyn Eithriadau 2010 (2019)
- Yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae (2023)
- Gwarchod y dyfodol: Y rhwystr gofal plant sy’n wynebu rhieni sy’n gweithio (2022)

Nodau'r adolygiad o'r eithriadau oedd:

- Sicrhau bod opsiynau gofal plant yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn meithrin hawliau plant i chwarae, ymlacio, dysgu ac ymuno â grwpiau a sefydliadau sy'n diwallu eu hanghenion a'u diddordebau.
- Sicrhau bod yr eithriadau sydd ar waith yn gymesur ac yn eithrio'r rhai nad oes angen iddynt gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru.
- Hyrwyddo mesurau diogelwch cadarn i blant ym mhob lleoliad gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau a fydd yn cyfrannu at gadw plant yn ddiogel ac at sicrhau eu bod yn cael gofal priodol.
- Cefnogi gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau fforddiadwy, hygyrch a hyblyg i deuluoedd er mwyn diwallu anghenion, diddordebau a gofynion amrywiol ledled Cymru. Ni ddylai unrhyw newidiadau i'r eithriadau leihau'r gofal plant, y cyfleoedd chwarae na'r gweithgareddau sydd ar gael neu sy'n fforddiadwy.
- Symleiddio Gorchymyn Eithriadau 2010 er mwyn gallu ei ddehongli'n eglur ac yn gyson.

**Camau gweithredu a gynigir**

Ar ddechrau'r prosiect adolygwyd pob erthygl o Orchymyn Eithriadau 2010 a nodwyd yr eithriadau hynny yr oedd angen eu hystyried ymhellach. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus llawn am gyfnod o 12 wythnos ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig ynghylch pwy na ddylai fod yn ofynnol i gofrestru fel y nodir yn y Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2026 Drafft, 'Gorchymyn Eithriadau 2026 Drafft', a fyddai yn disodli Gorchymyn Eithriadau 2010. Yn dilyn yr ymgynghoriad, adolygwyd y Gorchymyn drafft a bydd yn cael ei osod fel Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Dirymu a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2026 ("Gorchymyn 2026"), a fydd yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn 2010.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a bydd yn gwneud y newidiadau canlynol i'r eithriadau:

- Caniatáu i berthnasau weithredu fel gwarchodwyr plant o dan rai amgylchiadau.
- Cysoni rheolau ar gyfer nanis, au pairs a charcwyr.
- Caniatáu i wasanaethau ieuenctid ddarparu gwaith ieuenctid pontio i blant 10 oed heb iddynt orfod cofrestru.
- Addasu gweithgareddau coetsio i blant 4 oed neu'n iau i hyd at 2 awr.
- Peidio â chynnwys yr eithriad coetsio/dysgu ar gyfer plant 2 oed neu'n iau.
- Dileu eithriadau 2 awr a 5 diwrnod ar gyfer plant 2 oed neu'n iau ac eithrio lle mae rhiant yn bresennol neu ar y safle ac y gellir ei alw.
- Diweddaru'r categorïau coetsio a dysgu.
- Ei gwneud yn ofynnol i ysgolion sydd â phlant 2 oed neu'n iau gofrestru fel darparwr gofal dydd.
- Peidio â chaniatáu i ddarparwyr sydd wedi'u hatal dros dro weithredu o dan yr eithriadau sy'n ymwneud â darpariaeth â chyfyngiad amser (2 awr neu lai y dydd).

Gofynnodd yr ymgynghoriad hefyd a ddylai darparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn mwy nag un math o weithgaredd yn hytrach na'r ddau a ganiateir o dan yr eithriad presennol. Er bod llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig hwn, cododd sylwadau a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad bryderon ynglŷn â'r effeithiau negyddol ar blant, teuluoedd a chymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i grwpiau cyfrwng Cymraeg, cymunedol a rhai sy'n seiliedig ar ffydd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod effeithiau negyddol y cynnig hwn ar blant a theuluoedd yn gorbwyso manteision gwneud y newid hwn. Felly ni fydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn mwy nag un math o weithgaredd. Mae hyn yn golygu cadw'r status quo presennol fel na fydd angen i ddarparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn dim mwy na dau fath o weithgaredd o'r rhestr benodedig.

Rhagwelir y caiff Gorchymyn Eithriadau 2026 ei wneud ym mis Ebrill 2026, y bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2027 ac y caiff ei orfodi'n llawn erbyn mis Ebrill 2028 yn dilyn cyfnod trosiannol o flwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau ar Orchymyn Eithriadau 2026 er mwyn helpu pobl i'w ddeall a'i gymhwyso.

Ochr yn ochr â'r adolygiad hwn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar y bwriad i gyflwyno Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd. Gallai'r darparwyr cymwys o dan y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol gofrestru â CThEF a'r Adran Gwaith a Phensiynau, fel y gall rhieni cymwys fanteisio ar Ofal Plant Di-dreth neu Ofal plant Credyd Cynhwysol. I ddod o dan y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, bydd angen i ddarparwyr ddangos bod ganddynt wiriadau diogelwch sylfaenol ar waith a allai roi rhywfaint o sicrwydd i rieni.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a bydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, gan sicrhau bod ei nodau a'i gyfyngiadau yn dryloyw, egluro nad yw'n disodli'r gofyniad i gofrestru, a chefnogi'r broses weithredu drwy ddarparu canllawiau clir a dulliau gwerthuso cadarn.

Cam nesaf y gwaith fydd mireinio manylion y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. Y dyddiad targed disgwyliedig ar gyfer rhoi'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar waith yw mis Ebrill 2027.

## Pum Ffordd o Weithio

Mae'r cynigion wedi'u gwneud yn unol â Phum Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 . Mae'r cynigion yn bwriadu cefnogi'r sector gofal plant, chwarae a gweithgareddau a dod â buddion i ddarparwyr, plant a theuluoedd yn **y tymor hir**, gan gynnwys ceisio **atal** gwasanaethau rhag cau, boed yn rhai sydd wedi'u cofrestru neu heb eu cofrestru. Dangosodd adroddiad Tlodi Incwm Cymharol Llywodraeth Cymru fod 29% o blant yng Nghymru yn byw mewn tlodi cymharol ym mis Mawrth 2023. Mae pob cynnig wedi'i ystyried i atal unrhyw effaith negyddol ar dlodi plant.

Mae'r adolygiad o'r eithriadau wedi'i gynnal ar y cyd â'r adolygiadau o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant a'r Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant i sicrhau eu bod yn cydymffurfio ac yn **integreiddio** â'i gilydd. Mae gweithio yn y modd hwn yn ein galluogi i ystyried y materion yn systemig a deall effeithiau amrywiol. Mae'r polisïau cyfredol wedi'u hystyried yn fanwl, gan gynnwys y weledigaeth hirdymor ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar a sut mae'r cynigion yn anelu at gyflawni'r weledigaeth honno. Bydd y cynigion yn cyfrannu yn

benodol at wireddu'r nodau Llesiant sy'n ymwneud â Chymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru lewyrchus a Chymru â diwylliant bywiog.

Trwy gydol y broses adolygu, rydym wedi annog dull sy'n seiliedig ar **gydweithio a chyfranogiad**. Rhwng Mawrth a Rhagfyr 2024, ymgymerodd Llywodraeth Cymru â gwaith ymgysylltu helaeth i ddeall yn well y cyfleoedd a ddarperir ar draws y sector, sef y darparwyr cofrestredig a'r rheini heb eu cofrestru. Amcangyfrifir bod Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â thua 400 o gyfranogwyr gan gynnwys plant, rhieni a gofalwyr, a darparwyr cofrestredig a rhai heb eu cofrestru y sector. Ym mis Mehefin 2024, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Cynghori traws-sector i gynrychioli anghenion amrywiol defnyddwyr terfynol i lywio'r gwaith o ddatblygu'r polisi. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio ag Arolygiaeth Gofal Cymru i ganfod sut y byddai'r newidiadau arfaethedig i'r polisi yn gweithio'n ymarferol. Bu hefyd yn cwrdd ag arweinwyr gofal plant a chwarae Awdurdodau Lleol i archwilio materion lleol. Cafodd Strategaeth Tlodi Plant Llywodraeth Cymru a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn eu hystyried drwy gydol y broses adolygu ac mae egwyddorion Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar wedi llywio'r ystyriaeth o'r effaith ar blant 0-5 oed.

## Yr Effaith

### Effeithiau cadarnhaol

- Bydd aileiriad arfaethedig yr eithriad sy'n ymwneud â rhieni, gofalwyr maeth, perthnasau ac aelodau o'r aelwyd yn sicrhau cysondeb ag arferion Arolygiaeth Gofal Cymru a chanllawiau Cynnig Gofal Plant Cymru. Mae'n cefnogi dewis a llesiant rhieni, yn enwedig i deuluoedd â phlant anabl, dewisiadau diwylliannol neu iaith, neu oriau gwaith annodweddiadol. Tynnodd rhanddeiliaid sylw at yr angen am eiriad clir ynghylch y lleoliad. Mae'r newid hwn yn hyrwyddo tegwch a chydraddoldeb ar draws lleoliadau gofal plant, yn gwella'r mynediad mewn ardaloedd gwledig lle mae'r opsiynau yn gyfyngedig, ac yn helpu i gynnal y sector gwarchod plant. . Y cyngor a ddaeth i law yn sgil yr ymgynghoriad ac adborth y grwpiau ffocws oedd y byddai canllawiau clir yn hanfodol i osgoi canlyniadau anfwriadol.
- Bydd y cynnig i gynnal yr eithriad ar gyfer darpariaethau sy'n gweithredu o dan ddwy awr neu ar bum diwrnod neu lai yn caniatáu i ddarparwyr sy'n defnyddio'r hyblygrwydd hwnnw weithredu heb fod angen iddynt gofrestru, gan gynnwys y rhai sy'n cynnig darpariaeth am gyfnod byr i brofi hyfywedd y farchnad cyn sefydlu gwasanaeth cofrestredig. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr adborth i'r ymgynghoriad fod angen terfynau a mesurau diogelu cliriach – yn enwedig ar gyfer plant ifanc iawn – fel na ellir defnyddio'r eithriadau ar gyfer gwasanaethau a ddarperir am gyfnod byr fel ffordd o osgoi rheoleiddio gwasanaethau pan fo'r anghenion gofal yn sylweddol. Mae cryfhau'r gofynion ar gyfer plant 2 oed ac iau, atal darparwyr sydd wedi'u

hatal dros dro rhag defnyddio’r eithriadau, a gosod disgwyliadau cliriach ynghylch presenoldeb rhieni i gyd yn helpu i sicrhau bod yr hyblygrwydd hwn yn parhau i fod yn gymesur, ac ar yr un pryd yn cynnal hyder y cyhoedd ac yn cefnogi ystod ddiogel a phriodol o wasanaethau.

- Bydd y cynnig i gysoni'r eithriadau mewn perthynas â nanis, au pairs a charcwyr yn symleiddio'r dewis ac yn rhoi mwy o hyblygrwydd i deuluoedd. Bydd yr eithriad newydd arfaethedig yn caniatáu i blant gael gofal mewn lleoliad ac amgylchedd sy'n briodol iddynt ac sy'n diwallu anghenion eu hunain a'u teulu.
- Bydd y gwelliant arfaethedig i ostwng y cafeat o ran oedran o 11 i 10 oed ar gyfer gwasanaethau ieuenctid wrth bontio yn galluogi plant Blwyddyn 6 i gael mynediad at ddarpariaeth ieuenctid sy'n cefnogi eu hanghenion personol, cymdeithasol ac addysgol yn ystod cyfnod pontio pwysig. Mae'n sicrhau bod plant yn gallu elwa ar weithgareddau sy'n briodol i'w hoedran heb gamddosbarthu gwaith ieuenctid fel gofal plant, gan hyrwyddo parhad y cymorth ac annog ymgysylltu â gwasanaethau ieuenctid wrth i blant symud i gyfnod y glasoed. Roedd y sawl a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws yn cefnogi'n gryf pwysigrwydd cydnabod bod angen cymorth ar blant 10 oed wrth bontio, gan bwysleisio ei bod yn bwysig i hwyluso'r cyfnod pontio i addysg uwchradd. Tynnodd gweithwyr ieuenctid sylw hefyd at y ffaith bod gwaith ieuenctid yn ddisgyblaeth addysgol a datblygiadol sy'n wahanol i ofal plant, gan fod gofal plant yn gweithredu o dan ei fframweithiau statudol a phroffesiynol ei hun. Pwysleisiodd yr adborth fod angen sicrhau nad yw gweithgareddau gwaith ieuenctid yn cael eu rhoi o dan yr un fframwaith rheoleiddio â gofal plant, yn enwedig pan fo'r gweithgareddau'n cael eu defnyddio fel ffordd o ymgysylltu yn hytrach na fel darpariaeth gofal.
- Gall y diwygiadau arfaethedig sy'n ymwneud â gofal plant 2 oed ac iau ddarparu mwy o sicrwydd ansawdd trwy gryfhau mesurau diogelu ar gyfer y grŵp oedran hwn sy'n fwy agored i niwed, sicrhau cymwysterau a chymarebau priodol, a goruchwyliaeth briodol pan nad yw'r rhieni yn bresennol.. Roedd adborth y grwpiau ffocws yn cefnogi'n gryf y dylai cofrestru fod yn ofynnol i bob darparwr sy'n gofalu am blant 2 oed ac iau lle nad yw rhiant yn bresennol, waeth beth fo hyd neu amlder y gofal. Pwysleisiodd rhieni a darparwyr cofrestredig fod anghenion gofal y grŵp oedran hwn yn fawr, a'i bod yn hollbwysig sicrhau mesurau diogelu cyson ar draws lleoliadau. Mynegodd darparwyr cofrestredig yn arbennig eu bod yn pryderu y byddai gofal heb ei gofrestru ar gyfer y grŵp oedran hwn yn tanseilio safonau proffesiynol ac yn creu annhegwch ymddangosiadol, yn enwedig pan ddefnyddir yr eithriadau i "brofi'r farchnad".
- Cafwyd safbwyntiau gwahanol mewn perthynas â sefyllfaoedd lle mae rhiant yn aros ar y safle ond nid yw yn yr un ystafell. . Roedd rhai darparwyr heb eu cofrestru yn gwerthfawrogi'r hyblygrwydd hwn ar gyfer cyrsiau, grwpiau rhianta a chymorth i gymunedau sy'n ceisio lloches. Bydd y diwygiad arfaethedig i'w gwneud yn ofynnol i'r rhan o'r ysgol sy'n cynnig addysg i blant 2 oed ac iau gofrestru fel darparwr gofal dydd yn rhoi mwy o sicrwydd bod anghenion gofal y plant iau hyn yn cael eu bodloni i'r un safonau â lleoliadau gofal plant ac addysgol eraill. Mae angen arferion gofal o natur bersonol ar blant 2 oed ac iau, cymarebau staff-i-blant uwch, a hyfforddiant arbenigol – ac nid yw'n rhesymol ystyried bod y rhain yn gysylltiedig ag addysg.

Bydd cofrestru yn sicrhau cysondeb, mesurau diogelu a gofal o safon ym mhob lleoliad, gan roi hyder i rieni bod anghenion lles a datblygiad eu plentyn yn cael eu blaenoriaethu.

- Byddai cynnal yr eithriad i ddarparwr gynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn dau fath o weithgaredd yn cynnal cyfleoedd i blant ddilyn eu diddordebau a datblygu eu sgiliau mewn meysydd penodol. Cododd grwpiau ffocws bryderon penodol ynghylch grwpiau ffydd, grwpiau sy’n gwisgo lifrai, a grwpiau cymunedol y mae eu modelau yn dibynnu ar fathau o weithgareddau cyfunol fel rhan o’u hymgysylltiad cyfannol. Rhybuddiodd y grwpiau hyn y gallai cyfyngu i un math o weithgaredd danseilio rhaglenni cymunedol neu sy'n rhai diwylliannol arwyddocaol.
- Y newid arfaethedig yw dileu'r eithriad coetsio a dysgu ar gyfer plant 2 oed ac iau a nodi y gall plant 3 a 4 oed gael eu coetsio neu eu tiwtora am uchafswm o 2 awr y dydd o dan yr eithriad. Roedd adborth yr ymgynghoriad yn cydnabod bod gan blant iau rychwant sylw gyfyngedig a mwy o anghenion gofal penodol, a bod unrhyw weithgaredd y tu hwnt i hyd y cyfnod hwnnw o amser yn annhebygol o aros yn achlysurol, a byddai angen mesurau diogelu ar lefel gofal plant. Tynnodd ymatebwyr sylw hefyd at bwysigrwydd diffiniadau clir i roi coetsio a dysgu ar wahân i ddarpariaeth seiliedig ar chwarae, gan bwysleisio bod yn rhaid cefnogi teuluoedd i ddeall y gwahaniaethau rhwng gweithgareddau cofrestredig a rhai heb eu cofrestru, er mwyn sicrhau bod y trefniadau hyn yn parhau i fod yn ddiogel ac yn briodol i ddatblygiad y plentyn. Cafwyd safbwyntiau cymysg gan y grwpiau ffocws: roedd rhieni yn cefnogi'r cap dwy awr, ond cafodd pryderon diogelu eu codi ganddynt, ac o ganlyniad i'r pryderon hynny byddent yn osgoi gwasanaethau heb eu cofrestru. Roedd darparwyr heb eu cofrestru yn derbyn y terfyn, ond yn cwestiynu'r cymwysterau a'r oruchwyliaeth,. Mae'r adborth yn tynnu sylw at yr angen am ddiffiniadau cliriach, mesurau diogelu cryfach, a gwell cyfathrebu â rhieni wrth gofrestru.
- Cynigir, os bydd darparwr cofrestredig yn cael ei atal dros dro yn sgil gorfodi gweithdrefnau, ni fydd yr eithriadau sy'n ymwneud â gofal am ddwy awr neu lai y dydd yn berthnasol. Roedd adborth yr ymgynghoriad yn cefnogi'r dull hwn yn gryf, gan nodi mai dim ond pan fo pryderon diogelu neu reoleiddio sylweddol y bydd darparwr yn cael ei atal dros dro. Mae atal darparwyr rhag gweithredu o dan yr eithriadau yn ystod y cyfnod hwn yn osgoi'r cyfle i fynd o'r tu arall i'r rheolau, yn cynnal uniondeb camau gorfodi ac yn sicrhau nad yw plant yn agored i ofal a allai fod yn anniogel tra bo ymchwiliadau neu gamau unioni ar y gweill. Os yw Arolygiaeth Gofal Cymru wedi atal dros dro gofrestriad gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd, ni fyddent yn gallu parhau i weithredu o dan yr eithriadau ac felly gynnig gofal a allai fod yn anniogel i blant. Nod hyn yw diogelu plant.
- Gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig alluogi ystod ehangach o ddarparwyr gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau sydd wedi'u heithrio i gofrestru â CThEM a'r Adran Gwaith a Phensiynau, gan ganiatáu i deuluoedd fanteisio ar Ofal Plant Di-dreth neu Ofal Plant Credyd Cynhwysol.

  Byddai hyn yn ehangu dewis rhieni ac yn gwella fforddiadwyedd darpariaeth. Gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol hefyd gyflwyno lefel sylfaenol o wiriadau diogelwch, gan gynnig mwy o sicrwydd i rieni. Yn ogystal, byddai'n helpu Llywodraeth Cymru i oruchwylio darpariaeth heb

ei chofrestru, gan gryfhau Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac o Gyfleoedd Chwarae lleol a helpu darparwyr i ddangos hygrededd ac ymrwymiad i arferion diogel. Gallai'r cynllun fod o gymorth i ddarparwyr heb eu cofrestru trwy gynnig cefnogaeth, monitro, mwy o wybodaeth a goruchwylio darpariaeth.

**Effeithiau negyddol**

- Gall y newidiadau arfaethedig sy'n effeithio ar yr eithriadau sy'n ymwneud â dwy awr, pum diwrnod a choetsio/dysgu ar gyfer plant iau leihau nifer y darparwyr sy'n barod i gynnig gofal os yw cofrestru'n ofynnol, yn enwedig i'r rhai sy'n gofalu am blant 2 oed ac iau neu sy'n cynnig gweithgareddau am gyfnodau byr heb rieni yn bresennol. Mae rhai darparwyr ar hyn o bryd yn defnyddio'r eithriadau hyn i brofi hyfywedd y farchnad cyn ymrwymo i gofrestru. Gallai dileu'r hyblygrwydd hwn i'r plant ieuengaf atal darpariaeth newydd neu arwain darparwyr presennol i gyfyngu eu gwasanaethau i grwpiau oedran hŷn. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad wedi tynnu sylw hefyd at y ffaith y bydd angen mwy o eglurder ynghylch pryd y mae presenoldeb rhieni yn berthnasol, er mwyn osgoi ansicrwydd ar gyfer sesiynau anffurfiol crèches a sesiynau cymorth i rieni.
- Cafwyd safbwyntiau gwahanol mewn perthynas â sefyllfaoedd lle mae rhiant yn aros ar y safle ond nid yw yn yr un ystafell. Roedd rhieni yn gyffredinol yn teimlo y dylai cofrestru fod yn angenrheidiol o hyd, tra bo. Roedd darparwyr cofrestredig o'r farn nad yw presenoldeb rhieni mewn mannau eraill yn yr adeilad yn lliniaru'r risgiau diogelu i blant 2 oed ac iau yn ddigonol.
- Roedd adborth gan ymatebwyr, gan gynnwys awdurdodau lleol, sefydliadau gofal plant a grwpiau ffydd wedi tynnu sylw at risgiau ychwanegol nad oeddent yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn yr asesiad gwreiddiol. Pwysleisiodd rhanddeiliaid y gallai dileu neu gyfyngu eithriadau sy'n ymwneud â chyfnodau byr ar gyfer plant 2 oed ac iau gael effaith anghymesur ar ddarparwyr sy'n codi cost isel, fel darparwyr a arweinir gan gwirfoddolwyr a darparwyr ffydd sydd ar hyn o bryd yn gweithredu crèches, sesiynau cymorth i rieni a gweithgareddau cymunedol. Mae'r lleoliadau hyn yn aml yn gwasanaethu teuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig ac efallai mai dyna'r unig ddarpariaeth leol sy'n hygyrch.
- Codwyd pryderon hefyd y gallai gofynion rheoleiddio ychwanegol arwain at gostau uwch i rieni neu achosi i ddarparwyr llai neu rai gwledig dynnu gwasanaethau yn ôl oherwydd y baich gweinyddol neu'r capasiti staffio cyfyngedig.
- Y newid arfaethedig yw dileu'r eithriad coetsio a dysgu ar gyfer plant 2 oed ac iau a nodi y gall plant 3 a 4 oed gael eu coetsio neu eu tiwtora am uchafswm o 2 awr y dydd o dan yr eithriad.Amlygodd adborth yr ymgynghoriad fod gweithgareddau ar gyfer plant iau yn aml yn gofyn am lefelau uwch o ofal, parodrwydd ar gyfer anghenion datblygiadol amrywiol a gwahaniaethau cliriach rhwng coetsio, dysgu a darpariaeth seiliedig ar chwarae. O ganlyniad, gall rhai darparwyr gyfyngu neu addasu eu cynnig, gan leihau'r gweithgareddau sydd ar gael neu'r ystod o weithgareddau sydd ar gael ar gyfer y grŵp oedran hwn. Mae risg hefyd y gall

darparwyr sy'n cynnig sesiynau hirach o weithgareddau cymysg sy'n seiliedig ar chwarae roi'r gorau i'w darpariaeth neu newid eu gwasanaethau os ydynt yn dod o fewn meini prawf cofrestru. Rhybuddiodd grwpiau ffocws y gallai terfyn clir ar gyfer gweithgareddau ysgogi rhai darparwyr sy'n cynnig gweithgareddau cymysg neu sy'n seiliedig ar chwarae roi'r gorau i gynnig sesiynau i blant 4 oed ac iau er mwyn osgoi cofrestru. Cododd rhieni a darparwyr cofrestredig bryderon diogelu hefyd am leoliadau heb eu cofrestru, a allai atal teuluoedd rhag eu defnyddio. Roedd darparwyr cofrestredig yn gwrthwynebu unrhyw ddarpariaeth heb ei chofrestru ar gyfer y grŵp oedran hwn.

- Gall cynnal yr eithriad ar gyfer dau fath o weithgaredd coetsio a dysgu olygu ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng gofal plant a gweithgareddau coetsio a dysgu.
- Gall y cynnig i gynnal yr eithriadau ar gyfer darpariaethau sy'n gweithredu o dan ddwy awr neu ar bum diwrnod neu lai atal darparwyr rhag ymestyn eu darpariaeth, yn enwedig pan fyddai gwneud hynny yn dod â nhw o fewn meini prawf cofrestru. Amlygodd adborth ymgynghori y gallai mesurau diogelu cliriach ar gyfer plant ifanc iawn a disgwyliadau cryfach ynghylch presenoldeb rhieni arwain darparwyr i gyfyngu ar yr ystodau oedran neu'r mathau o weithgareddau y maent yn eu darparu i barhau i fod wedi'u heithrio. Gall rhai darparwyr coetsio, dysgu a gweithgareddau cymysg hefyd addasu neu leihau eu gwasanaethau ar gyfer plant 4 oed ac iau os yw'r terfyn dwy awr yn berthnasol, gan leihau'r ystod o wasanaethau sydd ar gael ymhellach.
- Gallai'r diwygiad arfaethedig i'w gwneud yn ofynnol i'r rhan o'r ysgol sy'n cynnig lle i blant 2 oed ac iau gofrestru fel darparwr gofal dydd, arwain at rai ysgolion yn penderfynu peidio â chynnig darpariaeth i'r grŵp oedran hwnnw oherwydd y baich gweinyddol a rheoleiddiol ychwanegol. Gallai hyn leihau dewis rhieni ac effeithio ar ddigonolrwydd gofal plant yn lleol, yn enwedig mewn ardaloedd lle mae ysgolion ar hyn o bryd yn darparu gofal cofleidiol. Mae risg hefyd y gall ysgolion addasu gwasanaethau i ddarparu ar gyfer plant hŷn yn unig, gan gyfyngu ar opsiynau cymorth cynnar i deuluoedd. Bydd canllawiau a chymorth clir yn hanfodol i liniaru'r risgiau hyn.
- Cynigir, os bydd darparwr cofrestredig yn cael ei atal dros dro yn sgil gorfodi gweithdrefnau, ni fydd yr eithriadau sy'n ymwneud â gofal am ddwy awr neu lai y dydd yn berthnasol. Roedd adborth yr ymgynghoriad yn cefnogi'n gryf y dull hwn fel mesur diogelu angenrheidiol, ond nodwyd y gallai atal dros dro arwain at rywfaint o aflonyddwch i staff a theuluoedd am y byddai'n rhaid iddynt sicrhau trefniadau amgen ar fyr rybudd.
- Gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig ysgogi rhai darparwyr cofrestredig presennol Arolygiaeth Gofal Cymru i leihau elfennau o'u darpariaeth er mwyn medru dadgofrestru a gweithredu o dan fodel cymeradwyo. Mynegwyd pryder mewn ymatebion i'r ymgynghoriad y gallai Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol gyda gofynion is, llai o wiriadau, a'r gallu i gynnig mynediad at Ofal Plant Di-dreth greu system ddwy haen a allai danseilio gwerth gofal cofrestredig llawn. Gallai hyn effeithio ar gynaliadwyedd lleoliadau cofrestredig, lleihau argaeledd darpariaeth o ansawdd uchel a chreu dryswch i rieni ynghylch y gwahaniaethau rhwng gwasanaethau cofrestredig, cymeradwy a gwasanaethau anghofrestredig.

- Roedd ymatebion ychwanegol i'r ymgynghoriad yn codi pryder am yr effaith ar blant anabl a'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Nododd sawl darparwr a sefydliad cynrychioliadol efallai na fyddai gan leoliadau yr hyfforddiant na'r adnoddau i ddiwallu anghenion plant iau neu anabl o dan fodel newydd, ac oherwydd hynny mynd i'r berygl o achosi gwaharddiad anfwriadol oni bai bod cymorth pwrpasol yn cael ei ddarparu.

**Costau ac arbedion**

Cynigir bod Arolygiaeth Gofal Cymru yn gweinyddu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig. Amcangyfrifir mai'r gost ar gyfer sefydlu'r cynllun ym mlwyddyn 1 yw oddeutu £105,000, a chostau rhedeg blynyddol parhaus a amcangyfrifir sydd rhwng £14,000 a £23,000, yn dibynnu ar nifer y darparwyr sy'n gwneud cais i ymuno â'r cynllun. Cynigir y bydd tâl i ddarparwyr ymuno ac adnewyddu eu cymeradwyaeth o dan y cynllun, gyda'r bwriad o dalu costau rhedeg blynyddol maes o law. Codwyd pryderon, drwy'r ymgynghoriad, y gallai ffi ymuno fod yn rhwystr, yn enwedig i elusennau bach, darparwyr dan arweiniad gwirfoddolwyr a sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau ar fwy nag un lleoliad. Roedd ymatebwyr yn teimlo y dylai'r ffioedd fod yn gymesur, heb fod yn fwy na chynlluniau tebyg, ac ni ddylent eithrio darparwyr sy'n gwasanaethu teuluoedd difreintiedig.

O ran costau ychwanegol oherwydd bod darparwyr yn cael eu tynnu i gwmpas cofrestru, mae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi amcangyfrif y bydd gwerth £108,000 o gostau ychwanegol yn 2026-27, £300,500 yn 2027-28 a £365,400 yn 2028-29. Mae hyn yn seiliedig ar amcan-gynnydd o 5% yn nifer y darparwyr gwarchod plant a gofal dydd y byddai angen iddynt gofrestru bob blwyddyn (oddeutu 163 o ddarparwyr ychwanegol).

**Y drefn ar gyfer newid**

Gwneir y Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Dirymu a Darpariaeth Drosiannol) (Cymru) 2026 o dan bŵer Gweinidogion Cymru yn adran 19 o'r Mesur ac mae'n ddarostyngedig i weithdrefn gymeradwyo'r Senedd.

Gellir gweithredu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig o dan Adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## ADRAN 8. CASGLIAD

**8.1 Sut mae'r bobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi helpu i'w ddatblygu?**

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 , ymgysylltwyd yn helaeth â rhanddeiliaid drwy gydol y broses. Rhwng Mawrth a Rhagfyr 2024, ymgymerodd Llywodraeth Cymru â gwaith ymgysylltu i ddeall yn well y cyfleoedd a ddarperir ar draws y sector, sef darparwyr cofrestredig a rhai heb eu cofrestru y sector. Amcangyfrifir bod Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â thua 400 o gyfranogwyr gan gynnwys plant, rhieni/gofalwyr, darparwyr cofrestredig ac anghofrestredig y sector.

Ym mis Mehefin 2024, sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Cynghori i lywio'r gwaith o ddatblygu polisi. Mae aelodaeth y Grŵp Cynghori Gorchymyn Eithriadau yn cynnwys: Plant yng Nghymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn, Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Cytûn, CWVYS, Ysgolion Bro, Cwlwm, Awdurdodau Lleol, CLlLC, Chwarae Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru, CGGC a Swyddfa'r Comisiynydd Plant. Cynhaliwyd ymarferion ymgysylltu ychwanegol gyda grwpiau crefyddol, rhieni, grwpiau ieuenctid a grwpiau sy’n gwisgo lifrai, ac arweinwyr Gofal Plant Awdurdodau Lleol. Ym mhob un o'r grwpiau hyn, rhannodd cynrychiolwyr eu barn am yr eithriadau a thrafodwyd effaith y newidiadau posibl neu arfaethedig ar eu sector. Rhoddwyd cyfle i ddarparwyr heb eu cofrestru rannu eu barn trwy lenwi holiadur ymgysylltu a thrwy gymryd rhan mewn grwpiau ffocws. Roedd adborth o'r sesiynau hyn yn tynnu sylw at amrywiaeth sylweddol yn y dealltwriaeth o'r eithriadau presennol, gyda llawer o gyfranwyr yn mynegi dryswch – yn enwedig ynghylch cynigion sy'n ymwneud â pherthnasau sy'n gweithredu fel gwarchodwyr plant, maes coetsio a dysgu, a gwahaniaethau rhwng gwaith ieuenctid a gofal plant. Mae cael gwybod hynny'n pwysleisio pwysigrwydd sicrhau cyfathrebu clir, a chynnwys enghreifftiau ymarferol yn y canllawiau terfynol.

Yng Ngwanwyn 2024, comisiynwyd Plant yng Nghymru i gynnal ymchwil i ymgysylltu â phlant a rhieni i lywio'r adolygiad. Drwy hynny, canfuwyd barn rhieni a phlant ynglŷn â'r hyn yr oeddent yn ei ystyried yn bwysig o ran y gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau y maent yn manteisio arnynt neu yr hoffent allu manteisio arnynt. Bu gwaith ymgysylltu ychwanegol gyda phlant a phobl ifanc trwy grŵp ffocws wrth i’r broses ymgynghori fynd rhagddo. Roedd fersiynau hawdd eu deall o'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb ar gael i bobl ifanc.

Gwahoddwyd safbwyntiau am y newidiadau arfaethedig i'r rheolau ynglŷn ag eithriadau o ran cofrestru gwasanaethau gwarchod plant a gofal dydd, ynghyd â datblygu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, yn ystod cyfnod ymgynghori o 12 wythnos rhwng 11 Awst 2025 a 3 Tachwedd 2025. Cyhoeddwyd y brif ddogfen ymgynghori ar dudalennau ymgynghori Llywodraeth Cymru, ynghyd â fersiynau addas i blant a hawdd eu deall. Gallai ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau drwy e-bost neu ar-lein, yn Gymraeg neu'n Saesneg, gan ddefnyddio naill ai'r prif ffurflenni

ymateb, y fersiynau hawdd eu deall neu addas i blant neu drwy gyflwyno adroddiadau neu lythyrau. Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo'n helaeth ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid. Cafwyd cyfanswm o 97 o ymatebion i'r ymgynghoriad, a oedd yn cynnwys ymatebion llawn ac ymatebion a gwblhawyd yn rhannol.

**8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?**

Blaenoriaeth allweddol y gwaith hwn yw sicrhau bod plant yng Nghymru yn gallu cael mynediad at ofal plant, cyfleoedd chwarae a gweithgareddau sy'n diwallu eu hanghenion, a hefyd anghenion eu teuluoedd. Mae'r adolygiad wedi'i gynnal mewn ffordd sydd wedi sicrhau bod buddiannau gorau plant yn cael eu blaenoriaethu ac wedi bod yn ganolog i'r broses o ystyried a gwneud penderfyniadau. Bydd y cynigion yn cyfrannu yn benodol at wireddu'r nodau Llesiant sy'n ymwneud â Chymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru lewyrchus a Chymru â diwylliant bywiog.

**Effeithiau cadarnhaol**

Trwy'r broses adolygu, ystyriwyd pwysigrwydd cysoni a symleiddio'r eithriadau. Mae cyd-ddibyniaeth yr eithriadau wedi'i harchwilio ac mae'r diwygiadau wedi'u gwneud gyda'r gyd-ddibyniaeth honno mewn golwg fel ffordd o wneud yr eithriadau'n haws i'w deall.

Rydym yn ymwybodol bod gan blant iau fwy o anghenion gofal a'u bod yn fwy agored i niwed. Ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar gynigion i gyfyngu ar y defnydd o eithriadau penodol pan fo'r darparwr yn gofalu am blant 2 oed ac iau, ac a ddylid defnyddio dull gwahanol os yw eu rhiant yn aros ar y safle. Amlygodd yr adborth i'r ymgynghoriad fod angen lefelau uwch o oruchwyliaeth, gofal o natur bersonol a safonau diogelu ar blant yn y grŵp oedran hwn, a bod angen disgwyliadau cliriach ynghylch pryd mae presenoldeb rhieni yn ddigonol i sicrhau diogelwch. Er bod yr adborth hwn yn cyd-fynd yn agos iawn â darpariaethau ar gyfer plant 2 oed ac iau, mynegwyd pryderon tebyg yn gryf mewn perthynas â phlant 4 oed ac iau sy'n mynychu gweithgareddau coetsio neu ddysgu, gyda rhieni a darparwyr cofrestredig yn nodi bod anghenion datblygiadol a gofynion diogelu yn gwneud darpariaeth sydd heb ei chofrestru yn amhriodol ar gyfer sesiynau hir. Gall y newidiadau hyn felly gefnogi sicrhau ansawdd gwell wrth gydnabod y bydd canllawiau cliriach yn hanfodol er mwyn osgoi dryswch i ddarparwyr a rhieni. Bydd diwygio'r trothwy oedran ar gyfer gwasanaethau ieuenctid yn darparu manteision sylweddol i blant hŷn trwy ganiatáu i blant 10 oed gael mynediad at weithgareddau sy'n canolbwyntio ar bontio ac sy'n cyd-fynd â'u cyfnod datblygiadol . Mae'r dull hwn yn cefnogi lles, hyder a gwytnwch, a gall weithredu fel sbardun ar gyfer ymrwymiad parhaus i waith ieuenctid am gyfnod hir. Mae'n adlewyrchu pwrpas addysgol penodol gwasanaethau ieuenctid ac yn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i fod yn hygyrch ac yn gynhwysol heb osod mesurau rheoleiddio anghymesur.

Cytunodd sawl ymatebydd y byddai cryfhau mesurau diogelu i blant 2 oed ac iau, a gwella mynediad at gymorth ariannol drwy Gynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn cael effeithiau cadarnhaol. Fodd bynnag, pwysleisiwyd y byddai'r manteision hyn yn cael eu gwireddu dim ond os yw'r disgwyliadau ar ddarparwyr bach dan arweiniad gwirfoddolwyr neu ddarparwyr gwledig yn gymesur ac yn cael eu cefnogi trwy ganllawiau clir a phrosesau gweinyddol hygyrch.

Bydd diwygiadau arfaethedig i eithriadau sy'n ymwneud â gwarchod plant, yn rhoi mwy o ddewis a hyblygrwydd i rieni wrth drefnu gofal, gan sicrhau y gellir gofalu am blant mewn amgylchedd sy'n diwallu eu hanghenion nhw a'u teuluoedd. Pwysleisiodd y rhai a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws fod yn rhaid esbonio'r cynnig yn glir er mwyn osgoi dryswch, gan fod sawl un yn credu ar y dechrau y byddai'n ofynnol i berthnasau gofrestru hyd yn oed ar gyfer trefniadau anffurfiol. Roeddent hefyd wedi pwysleisio bod yn rhaid i berthnasau sy'n dewis cofrestru fodloni'r un safonau ag unrhyw warchodwr plant arall, a bod angen mesurau diogelu cryf i atal camddefnyddio cynlluniau gofal plant a ariennir.

Gall hyn fod yn arbennig o arwyddocaol i rieni plant anabl, i rai sydd â gofynion diwylliannol, crefyddol neu iaith, ac i rieni sydd angen mwy o hyblygrwydd oherwydd eu bod yn gweithio oriau annodweddiadol. Mae'r newidiadau hefyd yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn unol ag ymarfer Arolygiaeth Gofal Cymru a chanllawiau Cynnig Gofal Plant Cymru, er mwyn eglurder ac i hyrwyddo cysondeb. Pwysleisiodd yr adborth fod angen eglurder ar yr amodau, yn enwedig ynghylch lleoliad gofal, er mwyn osgoi anghysondebau a sicrhau tegwch i rieni sydd hefyd yn gwarchodwyr plant. Trwy alluogi perthnasau neu aelodau o'r aelwyd i gofrestru o dan amodau clir, mae'r cynnig yn cefnogi digonolrwydd gofal plant mewn ardaloedd gwledig, yn helpu i gynnal y sector gwarchod plant, ac yn cynnal safonau diogelu trwy gofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gwaith arolygu.

Cynigir, os bydd darparwr cofrestredig yn cael ei atal dros dro yn sgil gorfodi gweithdrefnau, ni fydd yr eithriadau sy'n ymwneud â gofal am ddwy awr neu lai y dydd yn berthnasol. Gan mai dim ond pan fo pryderon diogelu neu risgiau sylweddol y defnyddir ataliad dros dro, gallai caniatáu i ddarparwr barhau i weithredu o dan yr eithriadau danseilio camau gorfodi a rhoi plant mewn perygl parhaus. Mae dileu'r gallu i ddefnyddio'r eithriadau yn ystod ataliad dros dro yn cryfhau'r mesurau diogelu ac yn helpu i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu.

Bydd y newidiadau a gynigir i'r eithriad coetsio a dysgu yn sicrhau y gall darparwyr barhau i gynnig gweithgareddau strwythuredig heb yr angen i gofrestru, gan roi mwy o eglurder ynghylch y mathau o ddarpariaeth sy'n dod o dan yr eithriad. Yn gyffredinol, croesawyd y categorïau diwygiedig – chwaraeon, y celfyddydau mynegiannol a chreadigol, cymorth addysgol, ac astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol – am eu bod yn darparu diffiniadau cliriach, er bod ymatebwyr hefyd yn pwysleisio'r angen am gyfarwyddyd gofalus i osgoi eu camddehongli. Cafwyd safbwyntiau gwahanol gan y grwpiau ffocws: roedd rhieni a darparwyr cofrestredig wedi codi pryderon diogelu sylweddol am unrhyw ddarpariaeth anghofrestredig ar gyfer plant 4 oed ac iau, tra bo darparwyr anghofrestredig yn gyffredinol yn cytuno â'r terfyn dwy awr, ond yn rhybuddio am y risg sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau heb gymwysterau neu heb oruchwyliaeth.

Gofynnodd yr ymgynghoriad a ddylai darparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn mwy nag un math o weithgaredd yn hytrach na'r ddau a ganiateir o dan yr eithriad presennol.

Byddai cynnal yr eithriad i ddarparwr gynnig dau fath o weithgaredd yn cynnal cyfleoedd i blant ddilyn eu diddordebau a datblygu eu sgiliau mewn meysydd penodol. Cododd grwpiau ffocws bryderon penodol gan grwpiau ffydd, grwpiau sy'n gwisgo lifrai, a grwpiau cymunedol y mae eu modelau yn dibynnu ar fathau o weithgareddau cyfunol fel rhan o'u hymgysylltiad cyfannol. Rhybuddiodd y grwpiau hyn y gallai cyfyngu i un math o weithgaredd danseilio rhaglenni cymunedol neu sy'n rhai diwylliannol arwyddocaol, gan effeithio yn enwedig ar y rhai a ddarperir drwy'r Gymraeg, mewn ardaloedd gwledig, neu grwpiau sy'n seiliedig ar ffydd. Drwy gynnal yr eithriad hwn, gall y grwpiau hyn barhau i ddarparu gweithgareddau coetsio a dysgu sy'n diwallu anghenion plant ac yn caniatáu iddynt ddilyn eu diddordebau a datblygu eu sgiliau.

Mae'r newid arfaethedig i ddileu'r eithriad coetsio a dysgu ar gyfer plant 2 oed ac iau a nodi y gall plant 3 a 4 oed gael eu coetsio neu eu tiwtora am uchafswm o 2 awr y dydd o dan yr eithriad yn adlewyrchu pryderon am anghenion datblygiadol a diogelu plant iau. Bwriad cyfyngu ar hyd y sesiwn ar gyfer y grŵp oedran hwn yw sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i fod yn weithgarwch coetsio neu ddysgu gwirioneddol, a bod unrhyw ofal sydd ei angen yn gysylltiedig â gofal plant cofrestredig, yn hytrach na gofal plant anghofrestredig .

Gall y diwygiad arfaethedig i'w gwneud yn ofynnol i bob ysgol sy'n cynnig addysg i blant 2 oed ac iau gofrestru fel darparwr gofal dydd, yn rhoi mwy o sicrwydd bod anghenion gofal penodol y plant iau hyn yn cael eu bodloni i'r un safonau â lleoliadau gofal plant rheoleiddiedig eraill. Mae angen arferion gofal o natur bersonol ar blant 2 oed ac iau, cymarebau staff-i-blant uwch, a hyfforddiant arbenigol – ac nid yw'n rhesymol ystyried bod y rhain yn gysylltiedig ag addysg. Bydd cofrestru yn sicrhau cysondeb, mesurau diogelu a gofal o safon ym mhob lleoliad, gan roi hyder i rieni bod anghenion lles a datblygiad eu plentyn yn cael eu blaenoriaethu.

Gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau gael effeithiau ariannol cadarnhaol sylweddol i deuluoedd drwy alluogi ystod ehangach o ddarparwyr gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau sydd wedi'u heithrio i gofrestru â CThEM a'r Adran Gwaith a Phensiynau fel y gall teuluoedd cymwys ddefnyddio cynlluniau Gofal Plant Di-dreth neu Ofal Plant Credyd Cynhwysol. Byddai hyn yn ehangu dewis rhieni ac yn gwella fforddiadwyedd darpariaeth. Gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig hefyd gyflwyno llinell sylfaen gyson o wiriadau diogelwch, gan gynnig mwy o sicrwydd i rieni am ddarparwyr sydd heb eu cofrestru ar hyn o bryd. Roedd gwahaniaeth barn ynghylch datblygu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. Yn gyffredinol, roedd rhieni a darparwyr heb eu cofrestru yn cefnogi Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol i wella'r cysondeb a'r sicrwydd, tra bo darparwyr cofrestredig yn ei wrthwynebu, gan nodi pryderon diogelu, dryswch posibl i rieni, a'r risg o greu system ddwy haen. Roedd llawer yn teimlo y dylai goruchwylio plant iau aros o dan ofyniad mandadol cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru.

Roedd yr adborth ar nodau'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn gymysg. Roedd rhai rhieni a darparwyr yn teimlo y byddai ehangu mynediad at gymorth ariannol o fudd i deuluoedd, tra bo eraill – yn enwedig darparwyr cofrestredig – yn pryderu y gallai blaenoriaethu mynediad ariannol gymylu'r gwahaniaeth rhwng gofal cofrestredig a gofal heb ei gofrestru a thanseilio safonau'r sector. Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod angen cyfathrebu'n glir am yr hyn y mae'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn ei sicrhau ac nad yw'n ei sicrhau.

Yn dilyn adborth gan yr ymgynghoriad a'r grwpiau ffocws, mae nodau gwreiddiol y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol wedi'u hadolygu a'u mireinio i adlewyrchu'r adborth hwnnw. Mae'r nodau bellach wedi'u geirio fel a ganlyn:

- Galluogi teuluoedd i ddefnyddio Gofal Plant Di-dreth a Gofal Plant Credyd Cynhwysol ag ystod ehangach o ddarparwyr cymwys, gan gefnogi cyflogaeth rhieni, lleihau costau gofal plant a hyrwyddo llesiant cymdeithasol ac economaidd.
- Gwella mynediad plant at gyfleoedd cyfoethogi gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau trwy ehangu'r gronfa o ddarparwyr cymeradwy i ddiwallu anghenion teuluoedd yn well a gwneud y gwasanaethau'n fwy fforddiadwy.
- Cefnogi rhieni i ddewis gofal plant addas trwy wirio bod darparwyr yn bodloni meini prawf gofynnol, gan gynnwys gwiriadau diogelwch sylfaenol.
- Cefnogi'r sector anghofrestredig, ac ymgysylltu â nhw, drwy gynnig cyngor, hyrwyddo arferion gorau, a chynyddu ymwybyddiaeth o opsiynau gofal plant lleol i deuluoedd.

Dylai'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol sicrhau'r canlynol:

- eglurder am ei nodau a'r prif sbardun yw budd ariannol i deuluoedd
- tryloywder ynghylch y cyfyngiadau sy'n amlinellu nad yw'n system ddiogelu na sicrhau ansawdd gadarn
- ystyried gwaith diogelu ochr yn ochr â'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, yn hytrach nag ystyried mai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yw'r ateb i faterion diogelu yn y sector anghofrestredig
- cyfathrebu a chanllawiau clir a thryloyw fel nad oes unrhyw amwysedd o ran deall a defnyddio'r wybodaeth
- dulliau gwerthuso cadarn i fonitro'r effaith.

Yn ogystal, byddai'r Cynllun yn caniatáu i Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol oruchwylio'r ddarpariaeth sy'n gweithredu o dan y Gorchymyn Eithriadau yn bwyllog, gan gryfhau'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant a Chyfloeedd Chwarae. Gall darparwyr hefyd elwa ar fwy o amlygrwydd, hygrededd, a chyfle i ddangos eu hymrwymiad i arferion diogel a chyfrifol.

**Effeithiau negyddol**

Ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar eu barn ynglŷn â'r eithriad sy'n ymwneud â dwy awr o ofal am bum diwrnod neu lai ac ynglŷn â dirymu'r eithriad ar gyfer gweithgareddau coetsio a dysgu os yw'r darparwr yn gofalu am blant 2 oed ac iau. Ymgynghorwyd â nhw hefyd ar eu barn am sefyllfaoedd lle nad yw rhiant yn aros ar y safle.

Gallai'r newidiadau hyn leihau nifer y darparwyr sy'n cynnig y gofal hwn gan na fyddent efallai am ymgymryd â'r baich cofrestru, ac felly yn dewis cau eu darpariaeth. Roedd adborth y grwpiau ffocws wedi cadarnhau'r risg hon, yn enwedig ar gyfer coetsio/dysgu ar gyfer plant 4 oed ac iau,. Mae rhieni a darparwyr cofrestredig hefyd wedi mynegi pryderon y gallai gwahaniaethau aneglur rhwng coetsio, dysgu a gofal plant arwain at ddarpariaeth amhriodol neu anniogel oni bai eu bod yn mynd i'r afael â'r rhain trwy ganllawiau cryf. Mae risg hefyd y bydd darparwyr yn parhau i fod ar agor ond yn diwygio eu gwasanaeth i ddarparu ar gyfer plant hŷn yn unig, gan fod llawer o ymatebwyr yn tynnu sylw at y ffaith bod angen mwy o ofal personol a goruchwyliaeth ar blant 2 oed ac iau – ac, i rai, plant 4 oed ac iau. Roedd rhanddeiliaid yn adrodd bod rhai darparwyr yn defnyddio'r eithriadau dwy awr a/neu bum diwrnod neu lai i dreialu eu gwasanaeth cyn mynd ati i sefydlu darpariaeth gofrestredig. Byddai cyflwyno amodau sy'n gysylltiedig ag oedran yn dileu'r opsiwn hwn, sy'n golygu y gall darparwyr sydd am gynnig gwasanaethau i blant 2 oed ac iau benderfynu peidio â bwrw ymlaen os na allant asesu yn gyntaf a yw eu gwasanaeth yn gynaliadwy yn y farchnad.

Gallai'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i bob ysgol sy'n cynnig addysg i blant 2 oed ac iau gofrestru arwain at rai ysgolion yn penderfynu peidio â chynnig addysg i blant 2 oed ac iau. Ac mae hynny oherwydd cynnydd posibl mewn llwyth gwaith (a gofynion staffio) a'r baich rheoleiddiol ar gyfer ysgolion. Amlygodd rhai ymatebwyr hefyd yr angen am ddiffiniadau cliriach ynghylch statws a gofal "disgybl" sy'n gysylltiedig ag addysg, er mwyn osgoi dryswch neu ddefnydd anghyson.

Gofynnodd yr ymgynghoriad a ddylai darparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn mwy nag un math o weithgaredd yn hytrach na'r ddau a ganiateir o dan yr eithriad presennol. Gall cynnal yr eithriad ar gyfer dau fath o weithgaredd olygu ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng gofal plant a gweithgareddau coetsio a dysgu.

Y newid arfaethedig yw dileu'r eithriad coetsio a dysgu ar gyfer plant 2 oed ac iau a nodi y gall plant 3 a 4 oed gael eu coetsio neu eu tiwtora am uchafswm o 2 awr y dydd o dan yr eithriad. , Gall hyn arwain at rai darparwyr yn penderfynu lleihau eu darpariaeth. O ganlyniad i hynny bydd nifer y gweithgareddau sydd ar gael i blant o'r oedran hwnnw yn llai. Tynnodd adborth yr ymgynghoriad sylw hefyd at y ffaith bod gan lawer o blant 4 oed ac iau anghenion datblygiadol a gofal uwch, ac efallai na fyddai rhai mathau o goetsio neu ddysgu yn briodol ar gyfer sesiynau hir heb bresenoldeb rhiant, a allai ddylanwadu ymhellach ar benderfyniadau darparwyr am yr hyn y maen nhw'n ei gynnig. Roedd adborth y grwpiau ffocws gyda rhieni yn nodi efallai y byddent yn osgoi lleoliadau heb eu cofrestru waeth beth fo hyd y sesiynau oherwydd pryderon diogelu.

Cynigir, os bydd darparwr cofrestredig yn cael ei atal dros dro yn sgil gorfodi gweithdrefnau, ni fydd yr eithriadau sy'n ymwneud â gofal am ddwy awr neu lai y dydd yn berthnasol. Cytunodd ymatebwyr yn gryf mai dim ond mewn achosion o bryderon diogelu neu risgiau sylweddol y defnyddir ataliad dros dro, ac felly ni ddylai unrhyw fath o ddarpariaeth barhau yn ystod y cyfnod hwnnw. Er y gall atal dros dro greu rhywfaint o aflonyddwch i staff a theuluoedd, mae hyn yn cael ei orbwyso gan yr angen i gadarnhau penderfyniadau ar gamau gorfodi, osgoi'r cyfle i fynd o'r tu arall i'r rheolau, a sicrhau diogelwch a lles plant.

Gall creu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig annog, yn anfwriadol, rai darparwyr sydd wedi'u cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru i leihau eu darpariaeth er mwyn gallu datgofrestru'n gyfan gwbl, er mwyn gweithredu o dan system gymeradwyo. Amlygodd adborth yr ymgynghoriad y byddai gwneud hynny yn tynnu'r darparwyr hyn o'r lefel uwch o graffu, y gofynion staffio a'r safonau amgylcheddol a arferir trwy gofrestru'n llawn ag Arolygiaeth Gofal Cymru. Gallai hyn arwain at ostyngiad mewn lleoedd gofal plant o ansawdd uchel sydd wedi'u rheoleiddio, creu cystadleuaeth annheg o fewn y sector, a chreu dryswch i rieni ynghylch y gwahaniaethau rhwng darpariaeth gofrestredig, darpariaeth a gymeradwyir, a darpariaeth anghofrestredig.

Mynegwyd pryder gan grwpiau ffydd, diwylliannol a chymunedol y gallai newidiadau arfaethedig leihau eu gallu i gynnig gweithgareddau am ddim neu am gost isel, yn enwedig pan fo gwasanaethau coetsio, dysgu neu crèche yn cael eu darparu fel rhan o ddefodau crefyddol. I rai teuluoedd, mae'r lleoliadau hyn yn ffynhonnell sylfaenol i feithrin cysylltiadau cymdeithasol a diwylliannol a manteisio ar ofal plant anffurfiol.

Gall cynnal yr eithriad ar gyfer dau fath o weithgaredd olygu ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng gofal plant a gweithgareddau coetsio a dysgu.Rhybuddiodd sawl rhanddeiliad y gallai mwy o ddisgwyliadau gweinyddol neu ariannol effeithio'n anghymesur ar ddarparwyr bach, yn enwedig y rhai mewn ardaloedd gwledig, a gallai ansefydlogi lleoliadau cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar lawr gwlad os nad ydynt yn gallu cyrraedd y trothwyon rheoleiddio.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau, neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Bydd y newidiadau arfaethedig a gyflwynir yn Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2026, sy'n fersiwn Drafft, a'r bwriad i greu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi egwyddor gyffredinol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ymwneud â gwneud ymyriadau cadarnhaol nawr, er budd pobl sy'n byw eu bywydau yng Nghymru yn y dyfodol.

**Cymru lewyrchus**

Gallai'r cynigion gael effaith gadarnhaol ar lesiant economaidd i deuluoedd oherwydd y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig a fydd yn caniatáu i fwy o ddarparwyr gofrestru â CThEF a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Bydd teuluoedd cymwys wedyn yn gallu defnyddio Gofal Plant Di-dreth neu Gofal Plant Credyd Cynhwysol i leihau costau gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau. Bydd hyn yn rhoi mynediad i deuluoedd i ystod ehangach o gyfleoedd a allai eu galluogi i gael gofal plant mwy hyblyg er mwyn iddynt allu gweithio. Gall y cyfleoedd hyn hefyd ganiatáu i blant ddatblygu mwy o sgiliau a chael mwy o gyfleoedd cymdeithasol.

**Cymru gydnerth**

Bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar Gymru gydnerth. Bydd y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig yn caniatáu i deuluoedd gael mwy o fynediad at gymorth ariannol a fydd yn cryfhau sefyllfa ariannol cartrefi. Bydd plant yn cael cyfleoedd i feithrin eu gwydnwch trwy gyfleoedd cymdeithasol a thrwy ddatblygu eu cryfderau a'u diddordebau os yw'r argymhelliad i gadw'r eithriad ar gyfer darparwyr sy'n cynnig gweithgareddau coetsio a dysgu yn cael ei dderbyn.

**Cymru iachach**

Gallai'r cynigion gael effaith gadarnhaol ar iechyd plant yng Nghymru. Trwy sicrhau bod digon o gyfleoedd gofal plant a chwarae i blant, bydd ganddynt fynediad at gyfleoedd i ddysgu, tyfu a ffynnu. Trwy gadw'r eithriad ar gyfer gweithgareddau coetsio a dysgu, bydd y darparwyr hyn yn parhau i gynnig cyfleoedd i blant fod yn egnïol ac yn iach.

**Cymru sy'n fwy cyfartal; Cymru o gymunedau cydlynus; Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

Bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar gydraddoldeb yng Nghymru. Trwy'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig , bydd modd ymdrin ag annhegwch ariannol oherwydd bydd teuluoedd yn gallu manteisio ar fwy o gymorth ar gyfer costau. Bydd cadw'r eithriad ar gyfer gweithgareddau coetsio a dysgu mewn perthynas ag iaith, crefydd a diwylliant yn parhau i gynnig cyfleoedd i blant gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'u diwylliant a'u treftadaeth. Bydd eglurhad y dylai perthnasau neu bersonau sy'n byw yn yr un cartref â'r plentyn allu gweithredu fel gwarchodwyr plant cofrestredig ar gyfer plant sy'n perthyn iddynt neu blant sy'n byw gyda nhw, ar yr amod bod pob un o'r amodau canlynol yn cael eu bodloni: nid nhw yw rhieni'r plentyn ac nid oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, nid ydynt yn ofalwr maeth i'r plentyn, nid yw'r gofal yn digwydd yng nghartref y plentyn, ac mae'r gofal ar gael ac yn cael ei gynnig i blant nad ydynt yn perthyn iddynt.  Byddai hyn yn caniatáu i rieni ddefnyddio gwasanaethau'r gwarchodwr plant a fyddai, yn eu barn nhw, yn diwallu orau anghenion gofal eu plentyn anabl, neu anghenion cyfathrebu plentyn nad Cymraeg neu Saesneg yw ei iaith gyntaf, neu sy'n rhannu ffydd grefyddol, er enghraifft.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

Bydd y cynigion yn cael effaith niwtral.

**Lliniaru effeithiau negyddol**

Bydd y newidiadau'n cael eu cyfathrebu'n glir trwy ymgyrch gyfathrebu. Bydd canllawiau clir ac enghreifftiau o astudiaethau achos yn cael eu cyhoeddi i sicrhau bod gan ddarparwyr ddealltwriaeth glir o Orchymyn 2026 a'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig. Bydd hyn yn rhoi hyder i ddarparwyr weithredu mewn ffordd sydd o fudd iddyn nhw a'r teuluoedd y maen nhw'n eu gwasanaethu.

Drwy weithio gyda sefydliadau ymbarél drwy Cwlwm, caiff manteision ehangu'r ddarpariaeth a chofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru eu hyrwyddo i annog twf y sector ledled Cymru. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Cwlwm i gefnogi gwell dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng darparwyr cofrestredig, rhai sydd heb eu cofrestru a rhai sydd wedi'u cymeradwyo, yn enwedig ymhlith rhieni.

Bydd monitro a gwerthuso'r effeithiau wrth i unrhyw newidiadau ddod i rym yn caniatáu i waith lliniaru ychwanegol gael ei wneud pe bai angen.

O ystyried adborth yr ymgynghoriad, bydd mesurau lliniaru ychwanegol yn cael eu hystyried i atal effeithiau anghymesur ar deuluoedd difreintiedig, sefydliadau ffydd, darparwyr bach gwledig a phlant anabl. Wrth greu mesurau lliniaru, dylid rhoi sylw i'r pryderon a godwyd o ran yr angen am eglurder ynghylch newidiadau i'r eithriadau a datblygu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol.

Er mwyn sicrhau bod y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn gweithredu o fewn gofynion statudol Adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r nodau wedi'u mireinio mewn cydweithrediad â chydweithwyr cyfreithiol. Prif sbardun y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yw hyrwyddo llesiant economaidd a chymdeithasol teuluoedd trwy sicrhau bod mwy o bobl gymwys yn manteisio ar gymorth ariannol ar gyfer gofal plant. Bydd y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn cael ei ddatblygu a'i weithredu mewn modd tryloyw mewn perthynas â'i ddiben a'i gyfyngiadau, gan gydnabod nad yw hwn yn creu system ddiogelu na sicrhau ansawdd.

Bydd cyfathrebu a chanllawiau clir, a mecanweithiau gwerthuso cadarn yn rhan annatod o'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol i gefnogi ei weithrediad effeithiol.

**8.4 Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Ar ôl ymgynghori ac unrhyw newidiadau sy'n deillio o hynny, bydd nifer y darparwyr sydd wedi'u cofrestru i ddarparu gwasanaethau i blant a theuluoedd yn cael ei fonitro gan Arolygiaeth Gofal

Cymru. Bydd y nifer sy'n manteisio ar y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn cael ei fonitro. Bydd hyn yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag unrhyw wybodaeth a rennir ag Arolygiaeth Gofal Cymru sy'n ymwneud â'r darparwyr sy'n dewis diwygio eu darpariaeth a chanslo eu cofrestriad fel darparwr gofal plant rheoleiddiedig, er mwyn symud i'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol.

Bydd nifer y plant sy'n defnyddio'r darparwyr cofrestredig yn cael ei gofnodi drwy'r data Hunanasesu Gwasanaeth blynyddol a gyflwynir gan ddarparwyr cofrestredig. Gellir cael gwybodaeth ychwanegol drwy'r data a gesglir gan awdurdodau lleol fel rhan o waith monitro targedau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, a'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a gyflwynir ganddynt.

Bydd monitro hefyd yn olrhain yn benodol yr effeithiau ar ddarpariaeth ffydd, lleoliadau cymunedol cyfrwng Cymraeg, sefydliadau dan arweiniad gwirfoddolwyr, ac argaeledd gofal plant mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, fel sydd wedi codi trwy'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae adborth y grwpiau ffocws yn tynnu sylw at yr angen ychwanegol i fonitro:

- effaith y terfyn dwy awr ar gyfer coetsio/dysgu ar argaeledd darpariaeth ar gyfer plant 4 oed ac iau;
- camddefnyddio posibl neu gymhellion amhriodol o ran perthnasau sy'n cofrestru fel gwarchodwyr plant;
- effeithiau ar fodelau gweithgareddau integredig yr effeithir arnynt drwy leihau nifer y mathau o weithgareddau; ac
- unrhyw bwysau rheoleiddiol anfwriadol ar wasanaethau ieuenctid sy'n darparu cymorth pontio i blant 10 oed.

# A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

## 1. Amcanion polisi

**Cefndir**

Mae Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 Llywodraeth Cymru yn pennu'r amgylchiadau pan nad yw'n ofynnol i warchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd gofrestru. Mae cael eu heithrio yn golygu nad oes angen i'r darparwyr hyn gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru na chydymffurfio â'r Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'n gwahaniaethu rhwng darparwyr y mae angen iddynt gofrestru a'r rhai nad oes angen iddynt wneud hynny.

Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r eithriadau yn dilyn argymhellion yn yr adroddiadau hyn:

- Cais am Dystiolaeth nododd y Gorchymyn Eithriadau (2019) fod gofyn adolygu sawl eithriad yn unol â datblygiadau polisi, i ddarparu eglurder diffiniadau, i gryfhau diogelu a sicrhau bod yr eithriadau yn deg i wahanol fathau o ddarparwyr.

- Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae (2023) a argymhellodd, fel rhan o Argymhelliad Allweddol 11, y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ac ymgynghori ar yr eithriadau sy'n ymwneud â pha mor aml y darperir gwasanaethau. Argymhellwyd hefyd y dylid adolygu eithriadau yn ymwneud â gweithgareddau coestsio a dysgu a gwahardd cofrestru gwirfoddol lleoliadau o'r fath.

- Gwarchod y dyfodol: y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio (2022) , a wnaeth i Lywodraeth Cymru bennu ei chynlluniau i gynnal yr ymgynghoriad llawn ar Orchymyn Gwarchod Plant ac Eithriadau Gofal Dydd (Cymru) 2010 a ymrwymodd iddo yn 2019. Roedd hyn er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch yr effaith negyddol y mae'n ei chael ar ddarparwyr cofrestredig ac ar ddiogelu plant.

Yng ngoleuni'r adroddiadau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad o'r eithriadau. Y nodau oedd:

- Sicrhau bod opsiynau gofal plant yn canolbwyntio ar blant ac yn meithrin hawliau plant i chwarae, ymlacio, dysgu ac ymuno â grwpiau a sefydliadau sy'n diwallu eu hanghenion a'u diddordebau.
- Sicrhau bod yr eithriadau sydd ar waith yn gymesur ac yn eithrio'r rhai nad oes angen iddynt gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.

- Hyrwyddo mesurau diogelwch cadarn i blant ym mhob lleoliad gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau a fydd yn cefnogi plant i fod yn ddiogel ac i gael gofal priodol.
- Cefnogi gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau fforddiadwy, hygyrch a hyblyg i deuluoedd i ddiwallu amrywiaeth o anghenion, diddordebau a gofynion ledled Cymru. Ni ddylai unrhyw newidiadau i'r eithriadau leihau faint o ofal plant, chwarae neu weithgareddau sydd ar gael neu'n fforddiadwy.
- Symleiddio Gorchymyn Eithriadau 2010 er mwyn eglurder a chysondeb wrth ei ddehongli.

Blaenoriaeth allweddol y gwaith hwn yw sicrhau bod plant yng Nghymru yn gallu cael mynediad at ofal plant, cyfleoedd chwarae a gweithgareddau o ansawdd da sy'n diwallu eu hanghenion ac anghenion eu teuluoedd. Mae'r adolygiad wedi'i gynnal mewn ffordd sydd wedi sicrhau bod buddiannau gorau plant yn cael eu blaenoriaethu ac wedi bod wrth galon y broses o ystyried a gwneud penderfyniadau.

**<u>Newidiadau arfaethedig i'r Eithriadau</u>**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad cyhoeddus llawn ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig sy'n ymwneud â pha ddarparwyr nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru fel gwarchodwyr plant neu ddarparwyr gofal dydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a bydd yn gwneud y newidiadau canlynol i'r eithriadau:

- Caniatáu i berthnasau weithredu fel gwarchodwyr plant o dan rai amgylchiadau.
- Cysoni rheolau ar gyfer nanis, au pairs a charcwyr.
- Caniatáu i wasanaethau ieuenctid ddarparu gwaith ieuenctid pontio i blant 10 oed heb iddynt orfod cofrestru.
- Addasu gweithgareddau coetsio i blant 4 oed neu'n iau i hyd at 2 awr.
- Peidio â chynnwys yr eithriad coetsio/dysgu ar gyfer plant 2 oed neu'n iau.
- Dileu eithriadau 2 awr a 5 diwrnod ar gyfer plant 2 oed neu'n iau ac eithrio lle mae rhiant yn bresennol neu ar y safle ac y gellir ei alw.
- Diweddaru'r categorïau coetsio a dysgu.
- Ei gwneud yn ofynnol i ysgolion sydd â phlant 2 oed neu'n iau gofrestru fel darparwr gofal dydd.
- Peidio â chaniatáu i ddarparwyr sydd wedi'u hatal dros dro weithredu o dan yr eithriadau sy'n ymwneud â darpariaeth â chyfyngiad amser (2 awr neu lai y dydd).

Gofynnodd yr ymgynghoriad a ddylai darparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn mwy nag un math o weithgaredd yn hytrach na'r ddau a ganiateir o dan yr eithriad presennol . Er bod llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig hwn, cododd sylwadau a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad bryderon ynglŷn â'r effeithiau negyddol ar blant, teuluoedd a chymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i grwpiau cyfrwng Cymraeg, cymunedol a rhai sy'n seiliedig ar ffydd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod effeithiau negyddol y cynnig hwn yn gorbwyso manteision gwneud y newid hwn. Felly ni fydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn mwy nag un math o weithgaredd. Mae hyn yn golygu cadw'r status quo presennol fel na fydd angen i ddarparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn dim mwy na dau fath o weithgaredd o'r rhestr benodedig.

Rhagwelir y caiff Gorchymyn Eithriadau 2026 ei wneud ym mis Ebrill 2026, y bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2027 ac y caiff ei orfodi'n llawn erbyn mis Ebrill 2028 yn dilyn cyfnod trosiannol o flwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau ar Orchymyn Eithriadau 2026 er mwyn helpu pobl i'w ddeall a'i gymhwyso.

**<u>Bwriad i gyflwyno Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau</u>**

- Ochr yn ochr â'r adolygiad hwn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar y bwriad i gyflwyno Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau sydd wedi'u heithrio rhag cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd. Gallai'r darparwyr cymwys o dan y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig gofrestru â CThEF a'r Adran Gwaith a Phensiynau, fel y gall rhieni cymwys fanteisio ar Ofal Plant Di-dreth neu Ofal plant Credyd Cynhwysol. I ddod o dan y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, bydd angen i ddarparwyr ddangos bod ganddynt wiriadau diogelwch sylfaenol ar waith a allai roi rhywfaint o sicrwydd i rieni.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a bydd yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, gan sicrhau bod ei nodau a'i gyfyngiadau yn dryloyw, egluro nad yw'n disodli'r gofyniad i gofrestru, a chefnogi'r broses weithredu drwy ddarparu canllawiau clir a dulliau gwerthuso cadarn.
- Cam nesaf y gwaith fydd mireinio manylion y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. Y dyddiad targed disgwyliedig ar gyfer rhoi'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar waith yw mis Ebrill 2027.Rhaid i Gynllun Cymeradwyo Gwirfoddol a gyflwynir o dan Adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fodloni'r prawf amcanion statudol drwy hyrwyddo neu wella lles

economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol Cymru. Felly, mae nodau'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol wedi'u mireinio i sicrhau bod y cynllun yn cyd-fynd â'r gofyniad hwn. Bwriedir i'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol wneud y canlynol:

- galluogi teuluoedd i ddefnyddio Gofal Plant Di-dreth a Gofal Plant Credyd Cynhwysol gydag ystod ehangach o ddarparwyr cymwys, gan gefnogi cyflogaeth rhieni, lleihau costau gofal plant a hyrwyddo lles cymdeithasol ac economaidd;
- gwella mynediad plant at gyfleoedd cyfoethogi gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau trwy ehangu'r gronfa o ddarparwyr cymeradwy a gwneud y ddarpariaeth yn fwy fforddiadwy;
- cefnogi rhieni i ddewis gofal plant addas trwy wirio bod darparwyr cymeradwy yn bodloni meini prawf gofynnol, gan gynnwys gwiriadau diogelwch sylfaenol; a
- cefnogi ac ymgysylltu â'r sector heb eu cofrestru trwy ganllawiau, hyrwyddo arfer gorau a mwy o weledaedd i deuluoedd.

Bydd datblygiad y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol felly yn cynnwys:

- eglurder mai'r prif bwrpas yw'r budd ariannol i deuluoedd;
- tryloywder ynghylch cyfyngiadau'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, gan gynnwys nad yw'n gyfundrefn ddiogelu neu sicrhau ansawdd yn llawn;
- ystyried gwaith diogelu ochr yn ochr â'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn hytrach na dibynnu arno i ddatrys materion diogelu mewn darpariaeth heb ei rheoleiddio;
- cyfathrebu ac arweiniad clir, hygyrch i ddarparwyr a theuluoedd; a
- trefniadau gwerthuso cadarn i fonitro ei effaith

## 2. Casglu tystiolaeth ac ymgysylltu â phlant a phobl ifanc

Nododd y Cais am Dystiolaeth (2019) ynglŷn â Gorchymyn Gwarchod Plant ac Eithriadau Gofal Dydd (Cymru) 2010 faterion allweddol. Cytunodd mwyafrif yr ymatebwyr y dylai fod yn bosibl i berthynas gael ei ystyried fel gwarchodwr plant ac y dylai darparwyr o'r fath gadw at y rheoliadau a pholisïau cyfredol ynghylch cymarebau cyffredinol. Cytunodd ymatebwyr yn gyffredinol y dylai personau sydd ddim ond yn darparu gwasanaethau gwarchod plant gyda'r nos/yn y nos yn eu cartrefi eu hunain allu cofrestru fel gwarchodwyr plant a fyddai'n helpu i sicrhau bod diogelu yn cael ei wneud yn flaenoriaeth. O ran darparu gweithgareddau o dan yr eithriad ar gyfer coetsio a dysgu, roedd llawer o ymatebwyr yn pryderu bod problemau ynghylch diogelu gan ei fod yn caniatáu i blant 4 oed ac iau gael gofal heb ei reoleiddio am hyd at 4 awr y dydd. Fodd bynnag, cadarnhaodd ychydig o ymatebwyr eu bod yn credu bod gan

sefydliadau darparwyr o'r fath weithdrefnau wedi'u rheoleiddio'n dda ar gyfer rhedeg fel gweithgareddau arbenigol er mwyn sicrhau diogelwch.

Fel rhan o Argymhelliad Allweddol 11, nododd yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae (2023), y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ac ymgynghori ar yr eithriadau sy'n ymwneud â pha mor aml y darperir gwasanaethau a'r ddarpariaeth o weithgareddau coetsio a dysgu. Mynegodd yr adroddiad yr angen am system drylwyr sy'n sicrhau bod trefniadau diogelu ac addasrwydd staff yn cael eu cynnal ym mhob lleoliad gwaith chwarae.

Yn Gwarchod y Dyfodol: y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio (2022), clywodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol dystiolaeth a oedd yn gwrthdaro â'i gilydd gan randdeiliaid ar effaith y Gorchymyn Eithriadau ar y gweithlu, ar ddiogelu plant ac ar ansawdd y ddarpariaeth.

Ar 13 Ionawr 2025, roedd data Hunanasesu Gwasanaeth a gedwir gan Arolygiaeth Gofal Cymru yn dangos bod tua 124,500 o blant yn defnyddio gwasanaethau gofal plant a chwarae mewn 2,827 o leoliadau gofal plant a gymeradwywyd ledled Cymru. Ceir gafael ar rywfaint o ddata ynghylch lleoliadau nad ydynt wedi'u cofrestru trwy Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant ac Asesiadau Digonolrwydd Chwarae yr Awdurdodau Lleol, ond nid yw hyn yn cynnwys pawb gan nad yw pob darparwr nad yw wedi'i gofrestru yn rhannu ei wybodaeth gyda'i awdurdod lleol.

Dangosodd Arolwg Gofal Plant Coram 2025, o ran gofal plant i blant a phobl ifanc oedran ysgol, fod 67% o awdurdodau lleol yng Nghymru yn datgan 'nad oeddent yn cadw'r data neu na allant ddweud' . O ganlyniad, nid oes darlun llawn ynglŷn â faint o ddarparwyr heb eu cofrestru sy'n gweithredu yng Nghymru na nifer y plant sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn. Wrth adolygu'r eithriadau, casglwyd gwybodaeth gan 81 o ddarparwyr heb eu cofrestru ynglŷn â sut y maent yn gweithredu a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i'r plant sy'n mynychu'r lleoliad. Roedd llai na hanner y darparwyr yn cynnig gweithgareddau i blant dan 4 oed, gyda ffocws sylweddol ar blant 5-11 oed. Roedd 86.1% o'r ymatebwyr yn gweithredu o dan eithriadau sy'n eithrio darparwyr sy'n gweithredu am lai na dwyawr y dydd.

Mae argaeledd gofal plant, chwarae a gweithgareddau o safon yn cynnig buddion cymdeithasol, economaidd ac addysgol hanfodol i blant a theuluoedd. Dangosodd ymchwil a gomisiynwyd gan Adran Addysg y DU yn 2022 mai'r prif reswm dros rieni'n defnyddio gofal plant oedd i'w galluogi i weithio, ond bod datblygiad y plentyn a'i gymdeithasoli hefyd yn fanteision allweddol. Roedd rhieni yn ystyried bod gallu cael gofal hyblyg o ansawdd da yn hanfodol i ddiwallu anghenion plant a'u teuluoedd.

Yn adroddiad materion misol gwyliau'r haf Comisiynydd Plant Cymru Gorffennaf/Awst (2024) dywedodd 29% o'r plant a ymatebodd eu bod yn hoffi mynd i glybiau a gweithgareddau haf.

Dywedodd 13% eu bod yn mwynhau mynd i glybiau ieuenctid a nododd 11% eu bod yn ffafrio cynlluniau chwarae fel gweithgaredd. Dywedodd 41% o'r plant a ymatebodd fod rhwystrau'n eu hatal rhag gwneud y pethau maen nhw'n eu mwynhau ac o'r grŵp hwn, nododd 44% mai cost y gweithgaredd oedd i gyfrif am hyn. Dangosodd Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024: Adroddiad Ymgysylltu fod plant a phobl ifanc yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol ar eu rhieni. Roedd llawer hefyd yn ymwybodol bod angen mynediad at ofal plant fforddiadwy ar eu rhieni i'w galluogi i hyfforddi neu weithio. Fe wnaethon nhw hefyd siarad am beidio â chael mynediad at weithgareddau gan gynnwys celf a cherddoriaeth, chwarae a chwaraeon oherwydd costau.

Ystyriwyd ymchwil a gynhaliwyd gan Lywodraeth yr Alban (2022) gydol y broses o lunio polisi. Nododd fod plant yn credu mai elfennau sylfaenol pob math o ofal a gweithgareddau yw caredigrwydd, cymuned, tegwch, hapusrwydd, hwyl a dewis. Roeddent hefyd yn cydnabod bod cymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath o fudd iddynt yn gymdeithasol a hefyd ei fod yn galluogi eu rhieni/gwarcheidwaid i weithio neu astudio. Daeth ymgynghoriad tebyg â phlant oedran ysgol yn Iwerddon yn 2016 i'r un casgliadau. Dywedodd plant a holwyd yn glir fod perthnasoedd â theulu, teulu estynedig, ffrindiau, gwarchodwyr plant a gofalwyr yn bwysig iawn. Nodwyd hefyd nad oedd plant yn ffafrio amgylcheddau strwythuredig, lle mae'n bosibl rhagweld popeth, anhyblygrwydd, diffyg dewis a chael eu trin mewn ffordd amhriodol i'w hoedran. Ystyriwyd y ddwy astudiaeth wrth drafod gwelliannau arfaethedig a phwysleisiodd hygrededd nod ein hadolygiad i sicrhau bod opsiynau gofal plant ar gael i deuluoedd sy'n canolbwyntio ar blant ac yn darparu cyfleoedd i blant gael hwyl, dysgu a datblygu yn unol â'u hanghenion a'u diddordebau.

Mae anghenion diogelu plant yn amrywio'n fawr yn ôl eu hoedran a'u cam datblygu. Mae'r NSPCC yn nodi bod babanod mewn mwy o berygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso na phlant hŷn ac maent yn dibynnu ar eu rhieni a'u gofalwyr i ddiwallu eu hanghenion. Roedd plant pedair oed ac iau yn cynrychioli 40 y cant o blant ar y gofrestr amddiffyn plant yng Nghymru yn 2023-24, a 45 y cant o'r plant a gynhwyswyd yn y gofrestr oherwydd esgeulustod (gweler Plant a roddwyd ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn, yn ôl awdurdod lleol, categori cam-drin ac oedran). Canfu astudiaeth (Davies *et al.,* 2015) fod 76.3 y cant o'r achosion yr adroddwyd amdanynt lle'r oedd amheuaeth o gam-drin plant mewn ysbytai yng Nghymru a Lloegr yn ymwneud â phlant o dan 1 oed. Mae dadansoddiad o ddata o System Adrodd Mabwysiadu a Gofal yr Unol Daleithiau (Williams & Sepulveda, 2019) yn awgrymu bod babanod a phlant bach ddwywaith yn fwy tebygol na phlant hŷn o fynd i ofal maeth oherwydd eu bod mewn mwy o berygl pan fo sgiliau gofalu rhieni'n wannach. Mae cysyniad ynghylch bregusrwydd plant ifanc bod iddo ddwy elfen, sef bregusrwydd cynhenid (h.y. sy'n deillio o ddibyniaeth sylfaenol plant ifanc ar oedolion ar gyfer eu hanghenion creiddiol) a sefyllfaol (h.y. sy'n deillio o gyd-destunau penodol lle gall plant gael eu rhoi mewn perygl oherwydd eu bregusrwydd) (gweler Bagattini, 2019; Giesinger, 2019). Mae'r cysyniad o elfennau cynhenid ym mregusrwydd plant ifanc yn cael eu hategu gan waith arsylwi empirig o fregusrwydd cynyddol

babanod i haint trwy anaeddfedrwydd imiwnedd newyddenedigol (Borghesi *et al.,* 2020) a thrwy dystiolaeth o ddibyniaeth plant ar oedolion i ddarparu bwyd a maeth mewn ymateb i ymddygiadau di-eiriau (Black & Aboud, 2011). Mae'r cysyniad hwn yn awgrymu bod yr angen i gael eu diogelu rhag risg yn debygol o fod yn uwch lle mae dibyniaeth plant ar oedolion ar ei uchaf, sef pan fônt yn fabanod a phlant bach. Mae hyn wedi'i ystyried yn fanwl drwy'r adolygiad ac o ganlyniad allweddol i hyn, cynhaliwyd ymgynghoriad â'r cyhoedd ar eu barn ynghylch rhai eithriadau yn peidio â bod yn berthnasol pan fo'r darparwr yn gofalu am blant 2 oed ac iau ac nad yw eu rhiant yn aros ar y safle.

Ar ben arall y sbectrwm oedran, gall darparu gwasanaethau ieuenctid fod yn ddull effeithiol o gefnogi a rhoi arweiniad i bobl ifanc. Mewn dadansoddiad anghenion a gynhaliwyd gan fwrdeistref yn Llundain yn 2018, nododd 74% o'r ymatebwyr fod angen clybiau ieuenctid i gefnogi pobl ifanc. Gyda'r gwaith ymchwil hwn mewn golwg, ystyriwyd yr angen i sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau yng Nghymru a chynigir ymestyn yr eithriad ar gyfer gwasanaethau ieuenctid i ddarparu cyfleoedd i blant 10 oed er mwyn cefnogi pontio o oedran ysgol gynradd i oedran ysgol uwchradd ynghyd â chefnogi eu hanghenion personol, cymdeithasol ac addysgol.

Ochr yn ochr â'r ffynonellau tystiolaeth bresennol, cynhaliwyd ymgysylltiad manwl ychwanegol â 41 o blant a phobl ifanc ar draws Aberdaugleddau, Abertawe a Phowys drwy weithdai wedi'u hwyluso a gyflwynwyd gan Cymru Ifanc. Darparodd y sesiynau hyn gipolwg ar brofiadau bywyd plant a phobl ifanc o goetsio, dysgu, gofal plant, a darpariaeth heb ei chofrestru. Ar draws pob lleoliad, roedd plant yn dangos ymwybyddiaeth gref o ddiogelwch, ymddiriedaeth a goruchwyliaeth, gan ddisgrifio cofrestru fel rhywbeth sy'n rhoi sicrwydd iddynt oherwydd bod oedolion cofrestredig "wedi pasio gwiriadau", "wedi cael hyfforddiant" ac yn cael eu "cydnabod gan y llywodraeth". Mewn cyferbyniad, roedd darpariaeth heb ei chofrestru yn aml yn cael ei hystyried yn llai diogel neu'n llai atebol, yn enwedig pan fydd gofal yn digwydd heb rieni yn bresennol.

Roedd grwpiau ffocws gyda rhieni, darparwyr gofal plant cofrestredig a darparwyr gweithgareddau heb eu cofrestru yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar sut y gallai'r diwygiadau arfaethedig weithio yn ymarferol, yn enwedig o ran diogelu, hyder rhieni a phrofiadau plant.

Tynnodd rhieni sylw at bwysigrwydd ymddiriedaeth, adnabyddiaeth a diogelu mewn gofal plant gan berthnasau, gwarchodwyr plant a thiwtoriaid. Roeddent yn cefnogi galluogi perthnasau i gofrestru fel gwarchodwyr plant o dan amodau clir ond pwysleisiwyd fod cofrestru a goruchwylio yn hanfodol ar gyfer diogelwch. Mynegodd llawer bryder y gallai unrhyw ofal heb ei gofrestru adael plant ifanc yn agored i niwed.

Roedd safbwyntiau cymysg o ran y newidiadau arfaethedig ar gyfer carcwyr, nanis ac au pairs: roedd teuluoedd yn gwerthfawrogi hyblygrwydd ond yn codi pryderon bod plant yn gallu bod yn agored i niwed dros nos, a bod llai o atebolrwydd gan ofalwyr heb eu cofrestru.

Roedd darparwyr gwasanaethau ieuenctid yn croesawu'r cynnig i ymestyn yr eithriad i gynnwys disgyblion Blwyddyn 6, gan gydnabod bod hynny yn adlewyrchu arferion presennol cymorth wrth bontio.

Ar draws pob grŵp, roedd y thema fwyaf cyson yn ymwneud â'r eithriad coetsio a dysgu. Cododd rhieni, darparwyr cofrestredig a darparwyr heb eu cofrestru fel ei gilydd bryderon ynghylch diogelu i blant 4 oed ac iau. Roedd rhieni yn ystyried dwy awr fel terfyn uchaf priodol, tra bod llawer yn dweud y byddent yn osgoi darpariaeth heb ei gofrestru yn gyfan gwbl. Roedd darparwyr cofrestredig yn gwrthwynebu gofal heb ei gofrestru i blant 4 oed ac iau, gan nodi risgiau gofal a goruchwylio, tra bod darparwyr heb eu cofrestru yn derbyn y terfyn dwy awr ond eisiau safonau clir ar gymwysterau, cymarebau a diogelu.

Yn gyffredinol, cytunodd cyfranogwyr bod yn rhaid i unrhyw newidiadau i eithriadau gael eu cefnogi gan ganllawiau clir, mesurau diogelu cadarn a therfynau sy'n adlewyrchu anghenion y plant ieuengaf.

Pwysleisiodd cyfranogwyr iau bwysigrwydd ymddiriedaeth, gan ddweud eu bod yn aml yn teimlo'n fwyaf diogel gyda theulu neu aelodau o'r gymuned hysbys. Fodd bynnag, maent hefyd yn amlwg yn gwerthfawrogi cofrestru fel amddiffyniad pan nad yw rhieni gerllaw, ac yn disgrifio gwiriadau diogelu (e.e., DBS, camerâu, mwy nag un oedolyn yn bresennol) fel mater hanfodol.

Tynnodd plant sylw at y ffaith bod angen lefel uwch o amddiffyniad ar blant 2 oed ac iau, gyda'r mwyafrif yn teimlo na ddylid gadael plant ifanc iawn heb eu rhieni oni bai bod y darparwr wedi'i gofrestru. Roedden nhw'n teimlo bod presenoldeb rhieni yn lleihau'r risg, ond bod y pellter yn ystyriaeth bwysig — roedd bod yn yr ystafell drws nesaf yn dderbyniol, ond nid bod mewn ystafell ymhell i lawr y coridor.

Nododd plant hefyd bwysigrwydd cydbwyso'r math o weithgaredd, y risg, yr oedran a hyd y cyfnod. Roedd llawer yn teimlo bod chwaraeon egnïol neu chwaraeon cyswllt angen mesurau diogelu cryfach na gweithgareddau celf neu grefft. Dywedwyd hefyd nad oedd sesiynau hir yn briodol i blant iau heb egwyl.

O ran y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, gwelodd plant a phobl ifanc fanteision posibl — gan gynnwys mwy o ymddiriedaeth, gwell gwiriadau diogelwch a chydnabyddiaeth gliriach o ddarparwyr — ond pwysleisiwyd hefyd fod yn rhaid i ddiogelwch ddod yn gyntaf, gan rybuddio nad yw Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn ddefnyddiol os nad oes dilyniant.

Pwysleisiodd plant hefyd effaith costau, gan dynnu sylw at y ffaith y gallai ffioedd neu gostau gweithgareddau cynyddol leihau eu cyfleoedd i gymryd rhan a rhoi pwysau ar deuluoedd.

Mae'r sylwadau hyn wedi cryfhau asesiad y ddogfen hon o ddisgwyliadau ynghylch diogelu, ymddiriedaeth rhieni, fforddiadwyedd, ac anghenion datblygiadol y plant ieuengaf.

**Newidiadau i warchod plant**

Bydd y newid arfaethedig i'r geiriad yn egluro'r eithriad ar gyfer rhieni, y rhai sydd â chyfrifoldeb rhieni, rhieni maeth a pherthnasau sy'n byw yn yr un cyfeiriad. Bydd hyn yn cadarnhau y gellir gofalu am blant mewn trefniadau teuluol anffurfiol heb fod yn ofynnol iddynt gofrestru'n ffurfiol. Bydd yr ail-eirio hefyd yn cadarnhau y dylai perthnasau neu bersonau sy'n byw yn yr un cartref â'r plentyn allu gweithredu fel gwarchodwyr plant cofrestredig ar gyfer plant sy'n perthyn iddynt neu blant y maent yn byw gyda nhw, ar yr amod bod pob un o'r amodau canlynol yn cael eu bodloni: nid nhw yw rhieni'r plentyn ac nid oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant am y plentyn,  nid ydynt yn ofalwr maeth i'r plentyn, nid yw'r gofal yn digwydd yng nghartref y plentyn, ac mae'r gofal ar gael ac yn cael ei gynnig i blant nad ydynt yn perthyn. Mae'r eglurhad hwn yn mynd i'r afael â dryswch blaenorol ynghylch lleoliad. Amlygodd adborth y grwpiau ffocws bod dryswch sylweddol ynglŷn â'r cynnig ar y cychwyn, gyda llawer o gyfranogwyr yn credu y byddai'n ofynnol i berthnasau gofrestru hyd yn oed ar gyfer trefniadau anffurfiol. Pwysleisiwyd yn gryf bod angen cyfathrebu cliriach a geiriad diamwys.

Bydd plant yn cael y manteision deuol o gael gofal gan weithiwr proffesiynol a chan aelod o'r teulu neu berson y maent yn byw gyda nhw, tra gall rhieni ddewis y gwarchodwr plant sy'n diwallu anghenion eu plentyn orau. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol i deuluoedd plant anabl, y rhai sydd â gofynion diwylliannol, crefyddol neu iaith a rhieni sy'n gweithio oriau annodweddiadol.. Pwysleisiodd cyfranogwyr y grŵp ffocws hefyd y dylai perthnasau sy'n dewis cofrestru gael eu cadw i'r un safonau proffesiynol a disgwyliadau diogelu ag unrhyw warchodwr plant arall, a bod angen mesurau diogelu clir er mwyn osgoi camddefnyddio cynlluniau gofal plant a ariennir.

Mae hefyd yn cefnogi digonolrwydd gofal plant mewn ardaloedd gwledig lle mae opsiynau yn gyfyngedig, yn hyrwyddo cydraddoldeb ar draws lleoliadau gofal plant, ac yn helpu i gynnal y sector gwarchod plant. Mae diogelu yn parhau i fod yn gadarn trwy drefniadau cofrestru ac arolygu AGC.

Bydd y diwygiad arfaethedig i eithriadau ynghylch gofal rhwng 6pm-2am yn caniatáu i rieni wneud trefniadau mwy hyblyg i ddiwallu anghenion gofal eu plant y tu allan i oriau arferol, gan sicrhau gofal mewn amgylchedd priodol a chyfarwydd.

Yn olaf, os bydd darparwr cofrestredig yn cael ei atal dro yn sgil gorfodi gweithdrefnau, ni fydd yr eithriadau sy'n ymwneud â gofal am 2 awr neu lai y dydd yn berthnasol. Os bydd Arolygiaeth Gofal Cymru wedi atal cofrestriad gwarchodwr plant, ni fyddent yn gallu parhau i weithredu o dan yr eithriadau ac felly gynnig gofal a allai fod yn anniogel i blant. Nod hyn yw diogelu plant.

Mae'r gwelliannau hyn yn cael eu hystyried yn gymesur a byddant yn gweithio i gyflawni nod yr adolygiad i hyrwyddo'r opsiynau gofal plant a gweithgareddau fforddiadwy a hygyrch sydd ar gael i blant a theuluoedd ac sydd â'r hyblygrwydd i ddiwallu gwahanol anghenion, diddordebau a gofynion ledled Cymru.

**<u>Newidiadau i wasanaethau ieuenctid</u>**

Mae'r diwygiad arfaethedig i ostwng y cafeat oedran o 11 i 10 oed yn cydnabod gwahanol anghenion plant wrth iddynt agosáu at addysg uwchradd. Mae'n caniatáu i blant iau gael mynediad at wasanaethau ieuenctid sydd wedi'u cynllunio i gefnogi pontio, datblygiad personol a sgiliau cymdeithasol heb y gofyniad i gofrestru fel darparwr gofal dydd. Roedd adborth darparwyr gwasanaethau ieuenctid mewn grwpiau ffocws yn cefnogi'r newid hwn yn gryf, gan nodi bod disgyblion Blwyddyn 6 yn ymwneud fwyfwy â gwaith ieuenctid a bod gweithgareddau gwaith ieuenctid yn gweithredu fel sesiynau addysgol a datblygiadol yn hytrach na gofal plant. Pwysleisiodd darparwyr bwysigrwydd sicrhau nad yw gwaith ieuenctid yn cael ei gamddosbarthu na bod yn ddarostyngedig i reoleiddio gofal plant amhriodol.

Mae'r newid hwn yn hyrwyddo hyblygrwydd i ddarparwyr a pharhad cymorth ataliol sy'n seiliedig ar hawliau, tra bod cyfrifoldebau diogelu yn parhau trwy fframweithiau sefydledig megis cofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg, arolygon Estyn a chydymffurfio â safonau diogelu cenedlaethol. Bydd canllawiau clir yn hanfodol i wahaniaethu rhwng gwasanaethau ieuenctid a gofal plant ac atal camddefnydd, gan sicrhau bod teuluoedd yn deall pwrpas a chwmpas y darpariaethau hyn.

Roedd adborth darparwyr heb eu cofrestru wedi dangos cefnogaeth gref i'r gwelliant mewn grwpiau ffocws, gan nodi bod Blwyddyn 6 yn gam datblygu hanfodol a bod y cynnig yn adlewyrchu arferion cyfredol y sector ieuenctid. Cytunodd y cyfranogwyr y byddai'n cynnal cymorth addysgol a datblygiadol sy'n briodol i oedran heb reoleiddio diangen.

**Ychwanegu cafeatau oedran**

Mae'r diwygiadau arfaethedig sy'n ymwneud â'r cafeatau oedran yn adlewyrchu tystiolaeth glir bod gan blant 2 oed ac iau anghenion gofal sylweddol uwch na phlant hŷn.
Gallai'r gwelliant arfaethedig i'w gwneud yn ofynnol i bob ysgol sy'n cynnig addysg i blant 2 oed ac iau gofrestru'r rhan hon o'u darpariaeth fel darparwr gofal dydd,
gryfhau mesurau diogelu, sicrhau cymarebau a hyfforddiant priodol, a darparu mwy o sicrwydd i rieni ynghylch ansawdd gofal.

Roedd adborth yr ymgynghoriad ar warchod plant, gofal dydd a coetsio/dysgu i blant 2 oed ac iau yn tynnu sylw ymhellach at y cydbwysedd rhwng diogelu a chymesuredd. Roedd cefnogaeth gref ymysg grwpiau rhieni a darparwyr cofrestredig i'r angen am gofrestru pan nad yw rhiant yn bresennol, gan bwysleisio'r elfen o fod yn agored i niwed, anghenion gofal personol a phwysigrwydd goruchwyliaeth gyson. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan grwpiau heb eu cofrestru a chymunedol am effeithiau negyddol posibl ar crèches anffurfiol a rhaglenni cymorth i rieni, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, sy'n seiliedig ar ffydd a ffoaduriaid/lloches. Pwysleisiodd y cyfranogwyr nad yw presenoldeb rhieni mewn mannau eraill ar y safle yn ffordd ddibynadwy o sicrhau diogelwch plant ifanc iawn, tra bod grwpiau heb eu cofrestru yn pwysleisio pwysigrwydd hyblygrwydd i gynnal cymorth cymunedol. Bydd angen ystyried y materion hyn yn ofalus mewn canllawiau a gwaith monitro parhaus.

Ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar eu barn ynglŷn â dirymu rhai eithriadau lle mae'r darparwr yn gofalu am blant 2 oed ac iau, ac i ystyried a ddylid mabwysiadu dull gwahanol os nad yw eu rhiant yn aros ar y safle. Gall hyn roi sicrwydd ansawdd i rieni. Y newid arfaethedig yw dileu'r eithriad coetsio a dysgu ar gyfer plant 2 oed ac iau a nodi y gall plant 3 a 4 oed gael eu coetsio neu eu tiwtora am uchafswm o 2 awr y dydd o dan yr eithriad. Bydd hyn yn caniatáu darpariaeth coetsio a dysgu sy'n briodol i ddatblygiad y plentyn, nad yw'n galw am ofal y tu hwnt i unrhyw beth sy'n digwydd codi.

Fodd bynnag, dywedodd yr ymatebwyr hefyd y gallai cyflwyno cafeat ar sail oedran a dileu eithriadau i blant 2 oed ac iau arwain rhai ysgolion neu ddarparwyr i dynnu'r ddarpariaeth yn ôl yn hytrach nag ysgwyddo'r baich rheoleiddiol a gweinyddol ychwanegol. Gallai hyn leihau dewis rhieni ac effeithio ar ddigonolrwydd gofal plant lleol.

Risg ychwanegol yw y gallent aros ar agor ond diwygio eu gwasanaeth i ddarparu ar gyfer plant hŷn yn unig. Mae rhanddeiliaid o'r sector yn adrodd bod rhai darparwyr yn defnyddio'r eithriad 2 awr a / neu bum awr neu lai i dreialu eu gwasanaeth cyn symud ymlaen i sefydlu darpariaeth gofrestredig. Byddai ychwanegu cafeat oedran at yr eithriadau yn atal hyn rhag digwydd, gan olygu na fyddai'n bosibl defnyddio eithriadau cyfnod byr i brofi hyfywedd y farchnad ac o bosibl atal darparwyr newydd rhag sefydlu gwasanaethau ar gyfer y grŵp oedran hwn. Efallai y

bydd darparwyr sy'n ystyried cynnig gwasanaethau i blant 2 oed ac iau yn penderfynu peidio â chymryd y risg o agor lleoliad gan nad ydynt wedi gallu canfod a yw'n gynaliadwy yn y farchnad. Bydd angen eglurder hefyd ynghylch diffiniadau — gan gynnwys statws "disgybl" a gofal sy'n gysylltiedig ag addysg — er mwyn sicrhau cymhwysiad cyson ar draws lleoliadau.

**Newidiadau i goetsio a dysgu**

Gall plant ddatblygu sgiliau a gwybodaeth o'u dewis o ganlyniad i'r eithriad i ddarparwyr o ran amrywiaeth o fathau o weithgareddau coetsio a dysgu lle ystyrir bod gofal yn gysylltiedig â'r gweithgaredd. Croesawyd y categorïau diwygiedig — chwaraeon, celfyddydau mynegiannol a chreadigol, cymorth addysgol, ac astudiaeth grefyddol neu ddiwylliannol — yn gyffredinol am ddarparu diffiniadau cliriach, er bod ymatebwyr yn nodi'r angen am eglurder pellach ynghylch meysydd fel dysgu awyr agored, grwpiau sy'n gwisgo lifrai a sut mae categorïau eang (fel iechyd a lles) yn cael eu dehongli.  Byddai cynnal yr eithriad i ddarparwr gynnig dau fath o weithgaredd yn cynnal cyfleoedd i blant ddilyn eu diddordebau a datblygu eu sgiliau mewn meysydd penodol. Cododd grwpiau ffocws bryderon penodol ynghylch grwpiau ffydd, grwpiau sy'n gwisgo lifrai, a grwpiau cymunedol y mae eu modelau yn dibynnu ar fathau o weithgareddau cyfunol fel rhan o'u hymgysylltiad cyfannol. Rhybuddiodd y grwpiau hyn y gallai cyfyngu i un math o weithgaredd danseilio rhaglenni cymunedol neu sy'n rhai diwylliannol arwyddocaol. Gall cynnal yr eithriad ar gyfer dau fath o weithgaredd olygu ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng gofal plant a gweithgareddau coetsio a dysgu.

Fodd bynnag, nododd ymatebion i'r ymgynghoriad nad yw llawer o weithgareddau coetsio neu ddysgu yn briodol yn ddatblygiadol heb i rieni fod yn bresennol, ac y gall rhai darparwyr ddewis cyfyngu neu newid eu cynnig mewn ymateb. O ganlyniad, er y gallai rhai darparwyr gadw eu darpariaeth yr un fath ac ysgwyddo'r gofyniad newydd i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, gallai eraill leihau i un math o weithgaredd er mwyn parhau i weithredu o dan yr eithriad, gan gyfyngu ar yr ystod o gyfleoedd sydd ar gael i blant ifanc mewn un lleoliad neu sesiwn. Cafwyd adborth hefyd yn pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng coetsio/dysgu i blant iau a gwasanaethau ieuenctid wrth bontio yn 10 oed, a oedd yn cael eu hystyried yn gryf fel cymorth addysgol yn hytrach na gofal plant. Mae cynnal y gwahaniaeth hwn yn bwysig er mwyn sicrhau bod plant iau yn cael cymorth priodol, gan barhau i alluogi plant hŷn i gael mynediad at waith ieuenctid sy'n canolbwyntio ar bontio gan gefnogi eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol.

Roedd adborth grwpiau ffocws ar yr eithriad coetsio a dysgu yn dangos cefnogaeth eang i derfyn dwy awr i blant pedair oed ac iau ond pryderon diogelu ar draws pob grŵp. Adroddodd rhieni am brofiadau negyddol mewn lleoliadau heb eu cofrestru a dywedwyd y byddai llawer yn eu hosgoi yn gyfan gwbl. Cytunodd darparwyr heb eu cofrestru fod y terfyn yn briodol ond

pwysleisiwyd yr angen am safonau clir ar wiriadau DBS, hyfforddiant a chymarebau. Roedd darparwyr cofrestredig yn gwrthwynebu unrhyw ddarpariaeth heb ei chofrestru ar gyfer plant 4 oed ac iau, gan nodi anghenion gofal personol, rhwystrau cyfathrebu a chystadleuaeth annheg â gofal plant rheoledig. Yn gyffredinol, mae tystiolaeth y grwpiau ffocws yn cefnogi trothwyon oedran clir, mesurau diogelu cryfach a diffiniadau manwl gywir i sicrhau bod gweithgareddau ar gyfer plant ifanc yn parhau i fod yn ddiogel ac yn briodol yn ddatblygiadol.

## Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Arfaethedig ar gyfer Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau

Dangosodd Arolwg Gofal Plant Coram 2025 fod costau gofal plant i blant dan ddwy oed wedi cynyddu 9.7% yng Nghymru dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda chostau plant dwy oed yn cynyddu 7.2% dros yr un cyfnod (wedi'i seilio ar 25 awr yr wythnos). Nododd ymchwil y Senedd yn 2023 fod o leiaf un rhiant mewn gwaith gan dros 80% o'r plant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi ac mae canran y plant sy'n byw mewn tlodi sy'n byw ar aelwyd lle mae o leiaf un oedolyn yn gweithio wedi cynyddu'n sylweddol ers argyfwng ariannol 2008. Drwy ddatblygu, o bosibl, y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau i rai darparwyr sydd wedi'u heithrio, efallai y bydd nifer uwch o ddarparwyr yn dod yn gymwys i gofrestru gyda CThEF i dderbyn taliadau drwy'r cynllun Gofal Plant Di-dreth a thrwy DWP y DU fel y gall rhieni cymwys ddefnyddio'r cynllun Gofal Plant Credyd Cynhwysol. Bydd hyn yn hybu cydraddoldeb â theuluoedd yn Lloegr (lle gall rhai darparwyr sydd wedi'u heithrio eisoes gofrestru gyda CThEF a'r DWP) ac o bosibl hyrwyddo mynediad trwy wneud cyfleoedd yn fwy fforddiadwy i deuluoedd. Mae rhieni cymwys â phlant anabl yn parhau i gael mynediad i'r cynllun Gofal Plant Di-dreth tan y 1af o Fedi ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 16 oed. Bydd hyn yn lleihau baich eu costau gofal plant am y cyfnod estynedig hwn.

Roedd adborth yr ymgynghoriad yn croesawu'r potensial i'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol gyflwyno llinell sylfaen o wiriadau diogelwch a mesurau ar gyfer darpariaeth sydd heb ei chofrestru ar hyn o bryd, gan adlewyrchu'r hyn a ddywedodd plant a rhieni wrth Plant yng Nghymru am bwysigrwydd oedolion diogel, gwiriadau DBS, cymorth cyntaf, a hyfforddiant diogelu wrth wneud dewisiadau gofal plant. Gallai gwell gwelededd darpariaeth heb ei chofrestru hefyd helpu Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol i ddeall yn well ble mae plant yn cael mynediad at ofal a gweithgareddau, gan gryfhau eu dyletswyddau o dan Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant a Chwarae.

Fodd bynnag, pwysleisiodd llawer o ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod yn rhaid i hawliau plant—yn enwedig Erthygl 3 (budd gorau'r plentyn) ac Erthygl 19 (amddiffyn rhag niwed)—barhau i fod yn ganolog. Codwyd pryderon bod natur wirfoddol y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, dibyniaeth ar hunan-ddatgan, ac absenoldeb goruchwyliaeth barhaus yn peryglu safonau diogelu anghyson. Roedd rhai rhanddeiliaid yn teimlo y byddai model cofrestru ysgafn gorfodol

yn cynnig amddiffyniad cryfach, mwy teg i bob plentyn, lleihau dryswch i rieni, ac osgoi creu system ddwy haen a allai danseilio gwerth a sicrwydd diogelwch darpariaeth gofrestredig CIW.

Er y gallai'r diwygiadau arfaethedig hyrwyddo fforddiadwyedd a hygyrchedd, mae angen ystyried ymhellach i sicrhau eu bod hefyd yn osgoi effeithiau negyddol anfwriadol ar y sector gofal plant a reoleiddir, a chynnal hawliau plant yn gyson ar draws pob math o ddarpariaeth.

## Cysylltiadau â meysydd polisi eraill

Mae diwygiadau arfaethedig i'r eithriadau wedi cael eu hystyried yn unol ag adolygiad presennol y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig i blant hyd at 12 oed. Ystyriwyd y gwahanol safonau sy'n ymwneud ag oedrannau penodol plant a nodir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol cyfredol wrth nodi diwygiadau posibl i wella diogelu'r plant ieuengaf, mwyaf agored i niwed. Ystyriwyd safonau penodol sy'n ymwneud â gwahanol fathau o leoliadau hefyd.

Mae'r fframwaith statudol newydd arfaethedig ar gyfer gwaith ieuenctid wedi llywio cynigion sy'n ymwneud â'r eithriadau ar gyfer gwasanaethau ieuenctid ac fe gysylltodd Swyddogion â chydweithwyr polisi ym meysydd chwaraeon, addysg a chydraddoldeb i drafod effeithiau ar blant o'u safbwyntiau polisi.

## Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc hyd yma

Yng Ngwanwyn 2024, comisiynwyd Plant yng Nghymru i gynnal ymchwil i ymgysylltu â phlant i lywio'r adolygiad. Gofynnwyd iddynt ganfod barn plant ynglŷn â gofal plant a sut maen nhw'n teimlo amdano.

Rhannodd plant 2-5 oed pa mor bwysig yw eu gofalwyr iddynt a'r ffordd y maent yn ganolog i ymdeimlad plant o ddiogelwch, sefydlogrwydd a hapusrwydd. Dangosodd ymatebion plant fod mwyafrif y plant yn teimlo bod mynd i leoliad gofal plant yn brofiad hapus, hwyliog ar gyfer eu mwynhad ac yn lle i chwarae a gwneud cysylltiadau.

Roedd plant 4-10 oed yn ymwybodol o sut mae gofal plant yn cael ei ddefnyddio fel cyfle iddynt chwarae, cymdeithasu a dysgu sgiliau ond hefyd i ganiatáu i'w rhieni/gwarcheidwaid weithio.

Dywedodd Comisiynydd Plant Cymru nad oedd y deunyddiau ymgynghori—yn enwedig ffurflen ymateb i blant a phobl ifanc—yn ddigon hygyrch nac yn gyfeillgar i blant, gan gyfyngu ar gyfleoedd i gyfranogwyr iau fynegi eu barn yn ystyrlon.

Nododd sawl rhanddeiliad fod angen ymgysylltu pellach â rhieni a gofalwyr babanod a phlant bach, o ystyried na all plant dan 4 oed gymryd rhan yn uniongyrchol ond y byddant yn cael eu heffeithio'n anghymesur gan newidiadau i'r eithriadau.

Gwnaed gwaith ymgysylltu ychwanegol gyda phlant a phobl ifanc trwy grŵp ffocws wrth i'r broses ymgynghori fynd rhagddi. Aeth Llywodraeth Cymru ati i gomisiynu Plant yng Nghymru i gynnal sesiynau ymgysylltu â phobl ifanc er mwyn rhoi cyfle iddynt rannu eu barn am faterion allweddol o'r ymgynghoriad. Er nad oedd y gweithdai hyn yn rhan o'r ymgynghoriad gan eu bod yn cael eu hystyried yn waith ymgysylltu, cafwyd gwybodaeth werthfawr o'r gwaith. Cynhaliwyd tri gweithdy mewn lleoliadau gwahanol yn ystod hydref 2025, ac roedd pobl ifanc rhwng 10 a 25 oed yn bresennol ynddynt. Caiff yr adroddiad a luniwyd gan Plant yng Nghymru ei gyhoeddi ar y cyd â'r adroddiad hwn.

Roedd fersiwn pobl ifanc o'r ddogfen ymgynghori a'r ffurflen ymateb ar gael i blant a phobl ifanc ei chwblhau; cafodd y rhain eu hyrwyddo drwy rwydweithiau gan gynnwys Comisiynydd Plant Cymru a Plant yng Nghymru, i annog plant a phobl ifanc i rannu eu barn.

**Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn y dyfodol**

Bydd yr angen am waith ymgysylltu pellach gyda phlant a phobl ifanc yn cael ei asesu wrth i'r gwaith ar yr eithriadau a'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol barhau.

### 3. Dadansoddi'r dystiolaeth ac asesu'r effaith

| Erthyglau CCUHP neu Brotocol Dewisol | Yn gwella (X) | Yn herio (X) | Esboniad |
|---|---|---|---|
| Erthygl 2 – Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bawb beth bynnag fo'u hil, crefydd, galluoedd, ni waeth beth maen | X | | Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Llywodraeth Cymru(2022) Mae'r Cynllun yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu cymdeithas gynhwysol a theg i'r holl bobl a chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol yng Nghymru. Yn unol â'r |

| | | | |
|---|---|---|---|
| nhw'n ei feddwl neu'n ei ddweud nac o ba fath o deulu maen nhw'n dod. | | | ymrwymiad hwn, mae  Gorchymyn Eithriadau 2010 yn nodi nad yw'n ofynnol i ddarparwyr coetsio a dysgu mewn astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol gofrestru. Mae hyn yn caniatáu i bobl arfer ac ymgysylltu'n rhydd ac yn rhwydd â'u diwylliant a/neu eu crefydd.<br><br>Nodwyd, er bod mynediad at ddarpariaeth coetsio a dysgu diwylliannol a chrefyddol yn bwysig, efallai na fydd llawer o weithgareddau yn briodol yn ddatblygiadol i blant 4 oed ac iau heb i'w rhieni fod yn bresennol, ac efallai y bydd gan blant ifanc iawn anghenion gofal a fyddai'n cael eu diwallu'n well o fewn darpariaeth gofrestredig. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn croesawu'r diffiniadau cliriach o gategorïau coetsio a dysgu—gan gynnwys astudiaeth grefyddol neu ddiwylliannol—ond hefyd yn tynnu sylw at yr angen am arweiniad gofalus i osgoi camddehongli, o ystyried y gellid dehongli rhai categorïau (megis astudiaeth ddiwylliannol neu iechyd a lles) yn eang.<br><br>Atgyfnerthodd adborth grŵp ffocws y pryderon hyn, gyda rhieni, darparwyr heb eu cofrestru a darparwyr cofrestredig i gyd yn codi materion diogelu sy'n gysylltiedig â coetsio a dysgu heb gofrestru ar gyfer plant 4 oed ac iau.<br><br>Mae cynnal yr eithriad ar gyfer coetsio a dysgu mewn hyd at ddau fath o weithgaredd yn caniatáu i sefydliadau ffydd barhau i ddarparu cyfleoedd coetsio a dysgu i blant 2-12 oed, iddynt gael dilyn eu diddordebau, eu doniau a'u diwylliannau. O ganlyniad,bydd plant yn parhau i gael cyfleoedd i fanteisio ar |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | weithgareddau sy’n ymwneud â’u ffydd a’u diwylliant. |
| Erthygl 3 – Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant anelu at yr hyn sydd orau i bob plentyn. | X | | Y prif beth y mae’n rhaid ei ystyried wrth wneud penderfyniadau a allai effeithio ar blant yw lles pennaf y plant. Trwy ymgysylltu â phlant cyn ymgynghori, cafwyd tystiolaeth o'r hyn sy'n bwysig i blant wrth fynychu gofal plant a gweithgareddau a phwysigrwydd eu gofalwyr i'w lles. Mae hyn wedi ein helpu i ddeall sut mae ein penderfyniadau yn effeithio ar blant, beth sy'n bwysig iddyn nhw a beth oedd angen i ni ei wneud i ddiwallu eu buddiannau gorau.<br><br>Drwy gydol y gwaith o adolygu'r eithriadau mae'r nod o hyrwyddo mesurau diogelwch cadarn i blant gyda darparwyr cofrestredig a heb eu cofrestru wedi bod yn ganolog. Mae pob penderfyniad wedi'i wneud gyda hyn mewn golwg.<br><br>Er bod llawer o ymatebwyr yn croesawu cryfhau'r trefniadau diogelu ar gyfer y plant ieuengaf, cododd eraill bryder y gallai newidiadau leihau mynediad at ddarpariaeth gymunedol ddiogel, dibynadwy, cost isel yn anfwriadol - yn enwedig creches sy'n seiliedig ar ffydd, grwpiau gwirfoddol a gweithgareddau diwylliannol sy'n gweithredu o dan yr eithriadau ar hyn o bryd. Mae'r lleoliadau hyn yn aml yn gwasanaethu plant sy'n byw mewn anfantais economaidd-gymdeithasol, sy'n golygu y gallai colli darpariaeth bosibl wrthdaro ag |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ystyriaethau budd gorau, yn enwedig i'r rhai sy'n dibynnu ar gymorth cymunedol yn hytrach na gofal plant ffurfiol.<br><br>Cynigir, os bydd darparwr cofrestredig yn cael ei atal dro yn sgil gorfodi gweithdrefnau, ni fydd yr eithriadau sy'n ymwneud â gofal am 2 awr neu lai y dydd yn berthnasol. Os yw Arolygiaeth Gofal Cymru wedi atal cofrestriad gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd, ni fyddent yn gallu parhau i weithredu o dan yr eithriadau ac felly gynnig gofal a allai fod yn anniogel i blant. Nod hyn yw diogelu plant. Roedd cefnogaeth gref i hyn ymhlith yr ymatebwyr. Gallai caniatáu i unrhyw fath o ddarpariaeth barhau pan fo achos o atal danseilio camau gorfodi a gadael plant yn agored i niwed posibl. Mae dileu mynediad at yr eithriadau felly yn cryfhau mesurau diogelu ac yn sicrhau bod plant yn cael eu diogelu'n llawn yn ystod y cyfnod atal.<br><br>Yn yr Adroddiad Plant a Phobl Ifanc, dywedodd plant a phobl ifanc dro ar ôl tro bod diogelwch, oedolion dibynadwy a goruchwyliaeth briodol yn elfen graidd o'u lles. Roedden nhw'n cysylltu cofrestru â bod "wedi'u gwirio", "yn gymwys", ac "yn ddiogel". Roedd eu hadborth yn pwysleisio bod rhaid i fesurau diogelu cadarn — yn enwedig ar gyfer plant iau neu weithgareddau risg uwch — fod wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. Pwysleisiodd rhai hefyd fod yn rhaid i unrhyw gynllun newydd gynnwys gwaith dilynol ystyrlon: "dyw e ddim gwerth os nad oes dilyniant neu rywbeth yn digwydd." |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae eu barn yn cefnogi'r pwyslais ar gryfhau mesurau diogelu o fewn darpariaeth gofrestredig a darpariaeth a gymeradwywyd yn wirfoddol. |
| Erthygl 5 - Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio'u hawliau'n briodol. | X | | Nod adolygu'r eithriadau yw sicrhau bod opsiynau gofal plant yn canolbwyntio ar blant, yn meithrin hawliau plant i chwarae, ymlacio a dysgu, a diwallu eu hanghenion a'u diddordebau.<br><br>Roedd y broses adolygu yn ystyried anghenion a diddordebau amrywiol teuluoedd a phlant ledled Cymru. Ein nod yw cefnogi'r hawl i deuluoedd allu gwneud dewisiadau ynglŷn â'r gofal plant, chwarae a gweithgareddau sy'n diwallu eu hanghenion. Rydym yn cydnabod nad oes un patrwm yn addas i bawb ac rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau i sicrhau nad yw'r newidiadau arfaethedig yn cyfyngu ar y dewisiadau sydd ar gael. Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid i sicrhau bod yr adolygiad hwn yn mynd i'r afael â mater hygyrchedd.<br><br>Ar hyn o bryd gall rhieni cymwys sy'n defnyddio gofal plant cofrestredig AGC elwa ar gynlluniau Gofal Plant Di-dreth neu Gofal Plant Credyd Cynhwysol, tra bod yn rhaid i'r rhai sy'n dibynnu ar ddarparwyr heb gofrestru dalu'r gost lawn eu hunain. Gall hyn gyfyngu ar allu teuluoedd i ddewis y ddarpariaeth sy'n diwallu anghenion eu plentyn orau, yn enwedig lle gall gwasanaethau heb eu cofrestru fod yn fwy addas neu hygyrch<br><br>Bydd y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig yn caniatáu i fwy o ddarparwyr fod yn gymwys i gofrestru |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gyda CThEF i dderbyn taliadau drwy'r cynllun Gofal Plant Di-dreth a'r DWP fel y gall rhieni cymwys ddefnyddio cynllun Gofal Plant Credyd Cynhwysol. Byddai rhieni yn cael mwy o gyfle i wneud penderfyniadau sy'n gweithio iddynt yn ariannol a hefyd yn diwallu anghenion eu plentyn orau.<br><br>Roedd barn ar gymhwysedd yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda rhieni yn awgrymu y gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol gefnogi nanis, au pairs, carcwyr plant, grwpiau sy'n cael eu rhedeg gan elusennau a chynlluniau chwarae na fyddai'n realistig iddynt gofrestru gyda AGC. Nododd sefydliadau heb gofrestru y gallai gofynion gweinyddol gyfyngu ar gyfranogiad, tra bod rhai darparwyr cofrestredig yn credu y gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol fod o fudd i leoliadau o ansawdd uchel nad ydynt wedi cofrestru, sy'n cael trafferth bodloni gofynion staffio AGC.<br><br>Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos y gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol helpu i sicrhau chwarae teg i deuluoedd a hyrwyddo tegwch, ond pwysleisiwyd hefyd bod angen i unrhyw ddarpariaeth gymeradwy fodloni llinell sylfaen glir o fesurau diogelu. Mae hyn yn adlewyrchu'r hyn a ddywedodd plant a rhieni wrth Plant yng Nghymru am bwysigrwydd oedolion diogel, hyfforddiant priodol, a pholisïau diogelu wrth ddewis gofal plant neu weithgareddau.<br><br>Cafwyd adborth cymysg ar nodau'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. Roedd rhai |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | rhieni a darparwyr yn teimlo y byddai ehangu mynediad at gymorth ariannol o fudd i deuluoedd, tra bod eraill—yn enwedig darparwyr cofrestredig—yn pryderu y gallai blaenoriaethu mynediad ariannol gymylu'r gwahaniaeth rhwng gofal cofrestredig a gofal heb ei gofrestru a thanseilio safonau'r sector. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bod angen cyfathrebu clir am yr hyn y mae'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn ei sicrhau ac nad yw'n sicrhau.<br><br>Wrth ddatblygu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, mae Llywodraeth Cymru wedi mireinio nodau'r cynllun i sicrhau cysondeb ag Adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Pwrpas craidd y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yw gwella gallu teuluoedd i gael mynediad at ddarpariaeth fforddiadwy drwy ehangu cymhwysedd ar gyfer cymorth ariannol fel Gofal Plant Di-dreth a Gofal Plant Credyd Cynhwysol. Nid yw'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol wedi'i fwriadu i weithredu fel system diogelu neu sicrhau ansawdd; felly, bydd cyfathrebu ac arweiniad clir yn hanfodol fel bod rhieni yn deall ei gwmpas a'i gyfyngiadau. Bydd gwerthusiad cadarn yn cael ei gynnal i sicrhau bod y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn hyrwyddo buddiannau gorau plant ac yn cefnogi mynediad cyfartal at ddarpariaeth ddiogel ac addas.<br><br>Nodwyd bod goruchwyliaeth gryfach yn hanfodol i hygrededd y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. Roedd rhieni a darparwyr cofrestredig yn teimlo na fyddai hunan-ddatgan ar ei ben ei hun yn darparu digon o sicrwydd, tra bod |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | darparwyr heb eu cofrestru yn cefnogi gwiriadau cymesur. Cytunodd yr ymatebwyr fod yn rhaid i unrhyw fodel goruchwylio gydbwyso sicrwydd i deuluoedd ag ymarferoldeb ar gyfer sefydliadau bach a gwirfoddol.<br><br>Un o nodau'r adolygiad yw symleiddio cyfathrebu'r eithriadau i bawb a thrwy gyflawni'r nod hwn, bydd gan rieni ddealltwriaeth gliriach o ystyr bod yn ddarparwr cofrestredig cymeradwy neu heb ei gofrestru. Bydd gwell eglurder yn cefnogi hawliau plant trwy alluogi teuluoedd i wneud dewisiadau gwybodus a deall lefel y sicrwydd y mae pob math o ddarpariaeth yn ei ddarparu.<br><br>Yn yr Adroddiad Plant a Phobl Ifanc, disgrifiodd plant a phobl ifanc sut mae presenoldeb neu agosatrwydd rhieni yn dylanwadu ar eu hymdeimlad o ddiogelwch, yn enwedig i blant 4 oed ac iau. Pwysleisiwyd hefyd bod aelodau o'r teulu ac oedolion dibynadwy yn teimlo'n fwy diogel, ond bod cofrestru yn dal i fod yn bwysig pan nad yw rhieni yn bresennol. Mae eu sylwadau yn atgyfnerthu'r angen am eglurder fel y gall rhieni ddewis darpariaeth sy'n diwallu anghenion datblygiadol eu plentyn orau ac sy'n cyd-fynd â'u disgwyliadau eu hunain o ddiogelwch.<br><br>Mynegodd plant bryder hefyd y gallai cynnydd mewn costau gyfyngu ar ddewis teulu. Mae hyn yn cryfhau'r asesiad bod ehangu mynediad at gynlluniau cymorth ariannol yn hanfodol er mwyn osgoi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | annhegwch a chynnal hawliau plant i ddarpariaeth briodol. |
| Erthygl 6 – Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu’n iach. | X | | Trwy sicrhau bod digon o gyfleoedd gofal plant a chwarae, bydd plant yn cael mynediad at amgylcheddau sy'n eu helpu i ddysgu, tyfu a ffynnu. Mae caniatáu i berthnasau gofrestru fel gwarchodwyr plant o dan amodau clir yn cefnogi digonolrwydd a hyblygrwydd gofal plant, yn enwedig i deuluoedd ag anghenion ychwanegol neu mewn ardaloedd gwledig. Gan gynnal eithriadau ar gyfer coetsio a dysgu, mae grwpiau chwaraeon yn sicrhau bod plant yn parhau i elwa ar ffyrdd o fyw egnïol, iach. |
| Erthygl 12 – Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw, ac i'w barn gael ei hystyried. | X | | Fel rhan o adolygu'r eithriadau, comisiynwyd Plant yng Nghymru i gasglu safbwyntiau plant ynglŷn â'r eithriadau. Roedd plant 0-12 oed yn gweld gofal plant fel lle i chwarae ond roedd plant hŷn yn fwy ymwybodol o sut mae gofal plant yn cael ei ddefnyddio fel cyfle iddynt ddysgu sgiliau ac i ganiatáu i'w rhieni/gwarcheidwaid weithio.<br><br>Mae'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer darparwyr cofrestredig yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gael gweithdrefnau ar gyfer galluogi plant i wneud cwynion os ydynt yn anhapus â'u gofal. Gallai darparwyr sy'n cofrestru ar gyfer y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig gael eu cyfeirio at y SGC fel canllaw ar arfer da a'r cyfle a roddir i blant sy'n defnyddio gwasanaethau.<br><br>Ymgysylltwyd â phlant a phobl ifanc yn ystyrlon drwy weithdai Cymru Ifanc. Mae |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | eu cyfraniadau wedi llywio'r asesiad hwn yn uniongyrchol, yn enwedig o ran diogelwch, ymddiriedaeth, goruchwyliaeth, darpariaeth sy'n briodol i oedran, a fforddiadwyedd. Mae eu hadborth wedi helpu i siapio datblygiad polisi.<br><br>Hefyd datblygwyd dogfen ymgynghori addas i bobl ifanc, fel bod modd i blant a phobl ifanc rannu eu barn ar y cynigion. Fodd bynnag, pwysleisiodd Comisiynydd Plant Cymru a sawl sefydliad nad oedd y deunyddiau ymgynghori ar gyfer plant yn ddigon hygyrch, a bod angen fformatau cliriach a mwy cyfeillgar i blant i sicrhau cyfranogiad ystyrlon. Rhaid i weithgarwch ymgysylltu yn y dyfodol gynnwys systemau i ddangos sut mae barn plant wedi llunio penderfyniadau polisi a darparu adborth hygyrch i gyfranogwyr. |
| Erthygl 15 – Mae gan blant yr hawl i gwrdd â'i gilydd ac i ymuno â grwpiau a chymdeithasau, cyn belled nad yw hynny'n atal pobl eraill rhag arfer eu hawliau hwythau. | X | X | Mae darparwyr cyfleoedd gofal plant, gweithgareddau a chwarae boed wedi'u cofrestru neu heb gofrestru yn gweithredu ledled Cymru ac yn darparu ystod eang o gyfleoedd cymdeithasol i blant. Mae'r adolygiad felly yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid i ystyried sut y gall newidiadau sicrhau nad yw cyfleoedd plant yn cael eu cyfyngu a bod ansawdd y gwasanaeth yn cael ei gynnal.<br><br>Mae Gorchymyn Eithriadau 2010 yn darparu eithriad i ddarparwyr coetsio neu ddysgu mewn astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol, celf a chrefft, chwaraeon a'r celfyddydau perfformio. Er bod y gweithgareddau hyn yn cael eu gwerthfawrogi am gefnogi diddordebau, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | doniau a hunaniaeth ddiwylliannol plant, amlygodd yr ymgynghoriad efallai na fyddai llawer o weithgareddau coetsio a dysgu yn briodol yn ddatblygiadol i blant 4 oed ac iau heb i'w rhieni fod yn bresennol, ac yn aml bydd gan blant ifanc iawn anghenion gofal a diogelu y tu hwnt i'r hyn y gall darpariaeth heb ei gofrestru ei gynnig yn ddiogel.<br><br>Nodwyd y gallai dileu'r eithriad hwn arwain at lai o sefydliadau'n darparu cyfleoedd coetsio a dysgu i blant 0-12 oed ddilyn eu diddordebau, eu doniau a'u diwylliannau, a fyddai'n cael effaith negyddol ar eu datblygiad a'u lles. Mae'r newidiadau arfaethedig felly yn anelu at gadw mynediad at y cyfleoedd hyn tra'n gosod ffiniau diogelu cliriach o amgylch y ddarpariaeth ar gyfer y plant ieuengaf.<br><br>Bydd plant yn gallu parhau i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth o'u dewis oamrywiaeth o fathau o goetsio a dysgu sydd wedi'u heithrio rhag y gofyniad i gofrestru. Gofynnodd yr ymgynghoriad a ddylai darparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn mwy nag un math o weithgaredd yn hytrach na'r ddau a ganiateir o dan yr eithriad presennol. Er bod llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig hwn, cododd sylwadau a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad bryderon ynglŷn â'r effeithiau negyddol ar blant, teuluoedd a chymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i grwpiau cyfrwng Cymraeg, cymunedol a rhai sy'n seiliedig ar ffydd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod effeithiau negyddol y cynnig hwn yn gorbwyso |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | manteision gwneud y newid hwn. Felly ni fydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn mwy nag un math o weithgaredd. Mae hyn yn golygu cadw'r status quo presennol fel na fydd angen i ddarparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn dim mwy na dau fath o weithgaredd o'r rhestr benodedig. Byddai cynnal yr eithriad i ddarparwr gynnig dau fath o weithgaredd yn cynnal cyfleoedd i blant ddilyn eu diddordebau a datblygu eu sgiliau mewn meysydd penodol. Cododd grwpiau ffocws bryderon penodol ynghylch grwpiau ffydd, grwpiau sy’n gwisgo lifrai, a grwpiau cymunedol y mae eu modelau yn dibynnu ar fathau o weithgareddau cyfunol fel rhan o’u hymgysylltiad cyfannol. Rhybuddiodd y grwpiau hyn y gallai cyfyngu i un math o weithgaredd danseilio rhaglenni cymunedol neu sy'n rhai diwylliannol arwyddocaol. Fodd bynnag, gall cynnal yr eithriad ar gyfer dau fath o weithgaredd olygu ei bod yn anodd gwahaniaethu rhwng gofal plant a gweithgareddau coetsio a dysgu.Mynegodd plant frwdfrydedd dros fynychu clybiau, gweithgareddau a coetsio, gan eu disgrifio fel llefydd i gael hwyl, dysgu, gwneud ffrindiau a meithrin sgiliau. Fodd bynnag, fe wnaethant hefyd nodi, lle mae gweithgareddau yn cael eu hystyried yn anniogel - ee, chwaraeon risg uchel heb oruchwyliaeth - na fyddent yn teimlo'n gyfforddus yn mynychu. Gwelwyd disgwyliadau diogelu cliriach fel ffordd o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gynyddu mynediad, nid ei gyfyngu, yn enwedig i blant iau. |
| Erthygl 16 - Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu hamddiffyn rhag ymosodiadau yn erbyn eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi. | X | | Mae'r ail-eiriad arfaethedig yn egluro y gall perthnasau neu aelodau o'r aelwyd gofrestru fel gwarchodwyr plant ar yr amod bod yr amodau canlynol yn cael eu bodloni: nid nhw yw rhieni'r plentyn ac nid oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, nid ydynt yn ofalwr maeth i'r plentyn, nid yw'r gofal yn digwydd yng nghartref y plentyn, ac mae'r gofal ar gael ac yn cael ei gynnig i blant nad ydynt yn perthyn iddynt. Mae hyn yn rhoi'r opsiwn i rieni ddewis gwarchodwr plant sy'n gallu darparu gofal diwylliannol sensitif neu sy'n canolbwyntio ar breifatrwydd, gan ddiogelu ffordd o fyw y plentyn ac amgylchiadau teuluol, a galluogi teuluoedd i wneud dewisiadau gwybodus wrth gynnal safonau diogelu. |
| Erthygl 18 – Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni drwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio. | X | | Gall rhieni cymwys sy'n defnyddio gofal plant cofrestredig ddefnyddio Gofal Plant Di-dreth neu Gofal Plant Credyd Cynhwysol, ond rhaid i'r rhai sy'n defnyddio gofal plant heb ei gofrestru ariannu'r gost yn llawn eu hunain. Gall hyn arwain at rieni yn dewis darparwr cofrestredig ar sail y gallu i ddefnyddio cynlluniau Gofal Plant Di-dreth neu Gofal Plant Credyd Cynhwysol, yn hytrach na dewis darparwr heb ei gofrestru a allai fod yn fwy addas i'w plentyn. Os cynyddir nifer y darparwyr sy'n gymwys i gofrestru'n llawn neu gofrestru â Chynllun Cymeradwyo Gwirfoddol newydd, byddai mwy o ddarparwyr Gofal Plant Di-dreth neu Gofal Plant Credyd Cynhwysol ar gael i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | rieni ac felly mwy o gyfle iddynt wneud penderfyniadau sy'n gweithio iddynt yn ariannol ac sy'n diwallu anghenion eu plentyn orau.<br><br>Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn amlygu y gallai ehangu cymhwysedd yn y modd hwn hyrwyddo tegwch a chefnogi hawliau plant, yn enwedig i deuluoedd nad yw'r ddarpariaeth a ffefrir ganddynt ar hyn o bryd yn gymwys i gael cymorth ariannol. Fodd bynnag, pwysleisiodd ymatebwyr hefyd fod yn rhaid i unrhyw ehangu gyd-fynd â disgwyliadau sylfaenol clir fel y gall teuluoedd wneud dewisiadau gwybodus, hyderus.<br><br>Nod yr adolygiad yw symleiddio'r cyfathrebu ynghylch yr eithriadau gan helpu rhieni i ddeall yn glir y gwahaniaethau rhwng darpariaeth gofrestredig, darpariaeth a gymeradwywyd yn wirfoddol a darpariaeth heb ei chofrestru. Bydd gwell eglurder yn helpu i sicrhau penderfyniadau gwybodus, yn cryfhau tryloywder ar draws y sector, ac yn sicrhau bod teuluoedd yn deall lefel y sicrwydd a'r goruchwyliaeth ddiogelu y mae pob math o ddarpariaeth yn ei chynnig.<br><br>Pwysleisiodd plant dro ar ôl tro fod cost yn rhwystr rhag cyfranogi, gan adleisio canfyddiadau ymgynghori ehangach ac ymchwil tlodi yng Nghymru. Roeddent hefyd yn cydnabod bod angen gofal plant ar rieni i weithio a bod fforddiadwyedd yn effeithio ar allu plant i fynychu gweithgareddau maen nhw'n eu mwynhau. Mae hyn yn atgyfnerthu effaith gadarnhaol ehangu mynediad at Ofal Plant |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Di-dreth a Gofal Plant Credyd Cynhwysol trwy Gynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. |
| Erthygl 19 – Dylai llywodraethau sicrhau bod plant yn cael y gofal priodol, a’u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy’n edrych ar eu hôl | X | | Gall Llywodraeth Cymru fonitro sut mae darparwyr yn gofalu am blant a'u diogelu drwy gofrestriadau ac arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru. Fel rhan o'r prosesau hyn, maent yn ystyried y gofal a roddir gan ddarparwyr a lles a datblygiad plant. Disgwylir iddynt fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a bennir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys rhwymedigaethau ynghylch hyfforddiant diogelu ac adrodd. Mae'r rhain yn sylfaenol i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu'n briodol. Drwy ddod â mwy o ddarparwyr o fewn cwmpas cofrestriad llawn neu y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig, byddai gan Lywodraeth Cymru fwy o wybodaeth am y sector. Byddai'n ofynnol i ddarparwyr sy'n gwneud cais i ymuno â'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ddarparu tystiolaeth o ymwybyddiaeth o ddiogelu.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob darparwr gadw at 'Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cod Ymarfer Diogelu' i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu gan holl ddarparwr Cymru.<br><br>Cynigir, os bydd darparwr cofrestredig yn cael ei atal drwy orfodaeth, ni fydd yr eithriadau sy'n ymwneud â gofal am 2 awr neu lai y dydd yn berthnasol. Roedd ymatebwyr yn cefnogi hyn yn gryf, gan nodi mai dim ond lle mae pryderon diogelu neu risgiau sylweddol wedi'u nodi y caiff darparwyr eu hatal, a gallai caniatáu unrhyw ddarpariaeth yn ystod y cyfnod |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | hwn danseilio prosesau gorfodi a rhoi plant mewn perygl parhaus. Os yw Arolygiaeth Gofal Cymru wedi atal dros dro gofrestriad gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd, ni fyddent yn gallu parhau i weithredu o dan yr eithriadau ac felly gynnig gofal a allai fod yn anniogel i blant. Nod hyn yw diogelu plant. Er mwyn i ddarparwyr sy'n gweithredu o dan yr eithriadau ymuno â'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig, bydd yn ofynnol iddynt fodloni gwiriadau diogelwch sylfaenol. Byddai hefyd yn cynnig mwy o oruchwyliaeth i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol ar ddarpariaeth heb ei gofrestru, sydd ar hyn o bryd yn gyfyngedig.<br><br>Yn gyffredinol, roedd ymatebwyr yn cefnogi Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ond yn tynnu sylw at yr angen am feini prawf clir, cymesur. Roedd darparwyr heb eu cofrestru yn rhoi pwyslais ar hyblygrwydd a chydnabyddiaeth o gymwysterau penodol i'r sector, tra bod darparwyr cofrestredig yn teimlo bod y gofynion arfaethedig yn rhy ysgafn ac yn dibynnu gormod ar hunan-ddatgan. Roedd cytundeb bod rhaid i'r meini prawf fod yn ddigon cadarn i godi ymddiriedaeth heb greu rhwystrau i grwpiau dan arweiniad gwirfoddolwyr.<br><br>Dangosodd ymatebion grŵp ffocws gefnogaeth gref iawn i'w gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n gofalu am blant 2 oed ac iau heb riant yn bresennol gofrestru. Pwysleisiodd rhieni a darparwyr cofrestredig fod plant ifanc iawn yn fwy agored i niwed, bod ganddynt anghenion gofal personol a gallu cyfyngedig i |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gyfathrebu ynghylch eu pryderon. Mae hyn yn cyd-fynd ag adborth plant eu hunain am deimlo'n ddiogel gydag oedolion dibynadwy, hyfforddedig ac wedi'u gwirio. Tynnodd rhai darparwyr sylw at effeithiau andwyol posibl ar crèches anffurfiol neu gymunedol, gan gynnwys grwpiau eglwysig neu raglenni cymorth, yn enwedig lle mae rhieni yn yr adeilad ond nid yn yr un ystafell. Er bod y grwpiau hyn yn gwerthfawrogi hyblygrwydd, disgrifiodd plant yn gyson nad yw'r ffaith bod eu rhieni yn agos yn darparu sicrwydd digonol ynddo'i hun. Mae'r sylwadau hyn yn atgyfnerthu'r angen am fesurau diogelu ac eglurder mewn canllawiau pan fydd newidiadau yn effeithio ar y plant ieuengaf.<br><br>Yn yr Adroddiad Plant a Phobl Ifanc, mae plant yn nodi'n glir beth sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel:<br><br>• gwiriadau’r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)<br>• adnabod yr oedolyn<br>• rhieni gerllaw<br>• mwy nag un oedolyn yn bresennol<br>• teledu cylch cyfyng mewn rhai achosion<br>• osgoi "arfau neu bethau peryglus"<br>• goruchwyliaeth yn ystod chwaraeon<br>• oedolion cymwys ar gyfer coetsio<br><br>Yn aml mynegwyd mwy o ymddiriedaeth mewn darparwyr cofrestredig a rhannwyd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | pryderon am ofal heb ei gofrestru lle nad oes gwiriadau. Mae eu barn yn cryfhau'r angen am ofynion diogelu sylfaenol clir mewn unrhyw Gynllun Cymeradwyo Gwirfoddol a phwysigrwydd systemau goruchwylio.<br><br>Nodwyd bod goruchwyliaeth gryfach yn hanfodol i hygrededd y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. Roedd rhieni a darparwyr cofrestredig yn teimlo na fyddai hunan-ddatgan ar ei ben ei hun yn darparu digon o sicrwydd, tra bod darparwyr heb eu cofrestru yn cefnogi gwiriadau cymesur. Cytunodd ymatebwyr bod yn rhaid i unrhyw fodel goruchwylio gydbwyso sicrwydd i deuluoedd gydag ymarferoldeb ar gyfer sefydliadau bach neu dan arweiniad gwirfoddolwyr. |
| Erthygl 23 – Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd dderbyn gofal arbennig a chefnogaeth er mwyn gallu byw bywyd llawn ac annibynnol. | X | X | Bydd y cynigion presennol o bosibl yn dod â mwy o ddarpariaeth i gwmpas cofrestru gorfodol neu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig, gan gynyddu nifer y darparwyr sy'n gymwys ar gyfer cynlluniau Gofal Plant Di-dreth neu Gofal Plant Credyd Cynhwysol. Gallai hyn wneud gofal plant a gweithgareddau yn fwy fforddiadwy i deuluoedd, ac ehangu mynediad at ddarpariaeth addas, yn enwedig i blant anabl dros 12 oed, lle mae argaeledd eisoes yn gyfyngedig. O ganlyniad i fwy o ddarparwyr yn gallu cofrestru gyda CThEF i gael taliadau drwy'r cynllun Gofal Plant Di-dreth a'r DWP fel bod rhieni cymwys yn gallu defnyddio'r cynllun Gofal Plant Credyd Cynhwysol, mae'n bosibl y gall argaeledd darparwyr o'r fath gynyddu, yn enwedig ar gyfer |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | plant anabl dros 12 oed lle mae prinder penodol ar hyn o bryd.<br><br>Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn tynnu sylw at y ffaith y byddai gwella gweledEdd darpariaeth sydd heb ei chofrestru ar hyn o bryd yn rhoi dealltwriaeth gliriach i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol o'r hyn sy'n gweithredu yn eu hardaloedd. Gallai hyn helpu i nodi bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer plant ag anghenion amrywiol—yn enwedig y rhai ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol—a chefnogi Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant a Chwarae mwy cywir. Gallai mwy o welededd hefyd alluogi awdurdodau lleol i gynnig cyngor, arweiniad a chymorth diogelu wedi'i dargedu lle bo hynny'n briodol.<br><br>Fodd bynnag, roedd yr adborth hefyd yn pwysleisio fod yn rhaid i unrhyw ehangu sicrhau bod diogelwch plant yn parhau i fod yn ganolog. Cododd rhanddeiliaid bryderon am natur wirfoddol y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, y ddibyniaeth ar hunan-ddatgan, a'r angen am ddisgwyliadau diogelu cadarn i osgoi creu system ddwy-haen.<br><br>Bydd yr aileiriad arfaethedig o'r eithriad sy'n ymwneud â rhieni, gofalwyr maeth, perthnasau ac aelodau o'r aelwyd, yn egluro y gall perthnasau neu bersonau sy'n byw yn yr un cartref â'r plentyn weithredu fel gwarchodwyr plant cofrestredig ar gyfer plant sy'n perthyn iddynt neu blant sy'n byw gyda nhw, ar yr amod bod pob un o'r canlynol yn cael eu bodloni: nid nhw yw rhieni'r plentyn ac nid oes ganddynt |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, nid ydynt yn ofalwr maeth i'r plentyn, nid yw'r gofal yn digwydd yng nghartref y plentyn, ac mae'r gofal ar gael ac yn cael ei gynnig i blant nad ydynt yn perthyn iddynt. Bydd y newid hwn yn caniatáu i rieni ddewis gwarchodwr plant sy'n diwallu'r anghenion orau, gan gynnwys preifatrwydd a gofal diwylliannol sensitif, ac mae'n arbennig o arwyddocaol i deuluoedd â phlant anabl neu'r rhai sydd angen cymorth wedi'i deilwra. Mae'n hyrwyddo hyblygrwydd, yn diogelu safonau trwy gofrestru gydag AGC ac yn helpu i sicrhau cydraddoldeb ar draws lleoliadau gofal plant.<br><br>Yn yr Adroddiad Plant a Phobl Ifanc, gwnaeth plant sylwadau ar yr angen am fwy o glybiau ar gyfer plant anabl, gan gefnogi pwysigrwydd ehangu nifer y darparwyr cymwys sy'n gallu derbyn Gofal Plant Di-dreth a Gofal Plant Credyd Cynhwysol. Mae hyn yn cyd-fynd yn gryf â bwriad y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol i gynyddu argaeledd i blant anabl hŷn, sydd ar hyn o bryd yn cael opsiynau cyfyngedig. |
| Erthygl 24 – Mae gan blant yr hawl i ofal iechyd o ansawdd da a hawl i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân fel y byddant yn cadw'n iach. | X | | Gall Llywodraeth Cymru fonitro sut mae sefydliadau'n hyrwyddo anghenion iechyd a maeth plant drwy gofrestriadau ac arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru. Fel rhan o'r prosesau hyn, maent yn ystyried y gofal a roddir gan ddarparwyr i'r plant, y bwyd a'r dŵr a ddarperir iddynt a'r amgylchedd y maent yn cael gofal ynddo. Bydd dod â mwy o ddarparwyr i gwmpas cofrestru llawn yn caniatáu mwy o oruchwyliaeth o'r ddarpariaeth. Fodd |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | bynnag, ni cheir yr un lefel o oruchwyliaeth trwy'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig.<br><br>Gall darparwyr cofrestredig cymwys wneud cais am gyllid ar gyfer datblygu eu hamgylchedd drwy'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar. Gallai unrhyw ddarparwyr o fewn cwmpas cofrestriad llawn gael gafael o bosibl ar y cyllid hwn i ddatblygu eu hamgylchedd er budd y plant sy'n ei ddefnyddio. |
| Erthygl 26 – Dylai’r Llywodraeth roi mwy o arian i blant teuluoedd mewn angen. | X | | Dywedodd Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024: Adroddiad Ymgysylltu fod plant a phobl ifanc yn ymwybodol iawn o'r pwysau ariannol ar eu rhieni. Roedd llawer hefyd yn ymwybodol bod ar eu rhieni angen gofal plant fforddiadwy i'w galluogi i hyfforddi neu weithio. Fe wnaethon nhw hefyd siarad am beidio â chael mynediad at weithgareddau gan gynnwys celf a cherddoriaeth, chwarae a chwaraeon oherwydd costau.<br><br>Drwy ddatblygu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer rhai darparwyr sydd wedi'u heithrio, efallai y bydd nifer uwch o ddarparwyr yn dod yn gymwys i gofrestru gyda CThEF i dderbyn taliadau drwy'r cynllun Gofal Plant Di-dreth DWP y DU fel y gall rhieni cymwys ddefnyddio cynllun Gofal Plant Credyd Cynhwysol. Byddai hyn yn cynyddu fforddiadwyedd gofal plant, chwarae a gweithgareddau i rieni ac efallai y gall mwy o blant fanteisio ar weithgareddau o'u dewis. Ar gyfer rhai teuluoedd — yn enwedig y rhai sy'n defnyddio darpariaeth seiliedig ar ffydd, darpariaeth gymunedol, gwaith chwarae, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | chwaraeon neu weithgareddau —gallai hyn agor opsiynau nad oeddent yn hygyrch o'r blaen oherwydd cost. Trwy ehangu'r gronfa o ddarparwyr sy'n gallu cynnig lleoedd â chymorth ariannol, efallai y bydd plant yn cael mwy o gyfleoedd i fynychu lleoliadau a gweithgareddau sy'n adlewyrchu eu dewisiadau, yn cefnogi eu datblygiad, ac yn cyd-fynd â'r hyn a ddywedodd rhieni a phlant wrthym eu bod yn ei werthfawrogi mewn darpariaeth ddiogel, dibynadwy. |
| Erthygl 29 – Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalent pob plentyn yn llawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, eu diwylliant nhw ac eraill, a'r amgylchedd. | X | X | Mae Gorchymyn Eithriadau 2010 yn eithrio darparwyr coetsio a dysgu ym meysydd chwaraeon, celfyddydau perfformio, celf a chrefft, cymorth â gwaith cartref ac astudiaethau ysgol rhag cofrestru. Mae'r eithriad hwn yn rhoi cyfle i blant ddilyn eu diddordebau a datblygu eu doniau.<br><br>Mae hefyd yn darparu eithriad i ddarparwyr astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol. Mae hyn yn caniatáu i bobl arfer ac ymgysylltu'n rhydd ac yn rhwydd â'u diwylliant a/neu eu crefydd. Er bod y gweithgareddau hyn yn cael eu gwerthfawrogi am gefnogi diddordebau, doniau a hunaniaeth ddiwylliannol plant, amlygodd yr ymgynghoriad efallai na fyddai llawer o weithgareddau coetsio a dysgu yn briodol yn ddatblygiadol i blant 4 oed ac iau heb i'w rhieni fod yn bresennol, ac yn aml bydd gan blant ifanc iawn anghenion gofal mwy.<br><br>Nodwyd y gallai dileu'r eithriad hwn arwain at lai o sefydliadau'n darparu gweithgareddau coetsio a dysgu sy'n rhoi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | cyfleoedd i blant 0-12 oed ddilyn eu diddordebau, eu doniau a'u diwylliannau. O ganlyniad, nodwyd bod hyn yn newid na ddymunir a fyddai'n cael canlyniadau negyddol sylweddol i blant.<br><br>Cynigir y dylid ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ran o ysgol sy'n cynnig addysg i blant 2 oed ac iau gofrestru fel darparwr gofal dydd. Mae hyn er mwyn rhoi sicrwydd bod anghenion gofal y plant iau hyn yn cael eu diwallu ochr yn ochr â'u hanghenion addysgol.<br><br>Yn yr Adroddiad Plant a Phobl Ifanc, roedd plant yn gadarnhaol am gyfleoedd i fynychu gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol, crefyddol a chwaraeon, gan nodi bod y rhain yn eu helpu i fynegi hunaniaeth, meithrin sgiliau a mwynhau eu hunain. Fe wnaethant hefyd nodi bod rhai gweithgareddau yn amhriodol i blant iau heb i'w rhieni fod yn bresennol. Mae eu hadborth yn cefnogi'r angen am fesurau diogelu datblygiadol cymesur wrth gynnal cyfleoedd diwylliannol ac addysgol. |
| Erthygl 30 – Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un a yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafrif y bobl neu beidio. | X | X | Mae Gorchymyn Eithriadau 2010 hefyd yn eithrio darparwyr astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol. Mae hyn yn caniatáu i bobl arfer ac ymgysylltu'n rhydd ac yn rhwydd â'u diwylliant a/neu eu crefydd. Er bod y gweithgareddau hyn yn cael eu gwerthfawrogi am gefnogi diddordebau, doniau a hunaniaeth ddiwylliannol plant, amlygodd yr ymgynghoriad efallai na fyddai llawer o weithgareddau coetsio a dysgu yn briodol yn ddatblygiadol i blant 4 oed ac iau heb i'w rhieni fod yn bresennol, |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ac yn aml bydd gan blant ifanc iawn anghenion gofal mwy.<br><br>Nodwyd y gallai dileu'r eithriad hwn arwain at lai o sefydliadau'n darparu gweithgareddau coetsio a dysgu sy'n darparu cyfleoedd i blant 0-12 oed ddilyn eu diddordebau, eu doniau a'u diwylliannau. O ganlyniad, nodwyd bod hyn yn newid na ddymunir a fyddai'n cael canlyniadau negyddol sylweddol i blant.<br><br>Efallai y bydd y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig yn hygyrch i rai darparwyr gweithgareddau coetsio a dysgu sy'n ymwneud ag iaith, diwylliant a ffydd. Byddai hyn hefyd yn cynnig cyfle i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol gael rhywfaint o wybodaeth am ddarparwyr heb eu cofrestru nad ydynt efallai'n ymwybodol ohoni ar hyn o bryd. Gallai hyn eu helpu i asesu digonolrwydd gweithgareddau o'r fath sydd ar gael i ddiwallu anghenion amrywiol plant yn eu hardaloedd. Gallai darparwyr wedyn gael cefnogaeth, gwybodaeth, ac arweiniad gan yr Awdurdod Lleol pe dymunant.<br><br>Yn yr Adroddiad Plant a Phobl Ifanc, roedd plant yn gadarnhaol am gyfleoedd i fynychu gweithgareddau celfyddydol, diwylliannol, crefyddol a chwaraeon, gan nodi bod y rhain yn eu helpu i fynegi hunaniaeth, meithrin sgiliau a mwynhau eu hunain. Fe wnaethant hefyd nodi bod rhai gweithgareddau yn amhriodol i blant iau heb i'w rhieni fod yn bresennol. Mae eu hadborth yn cefnogi'r angen am fesurau diogelu datblygiadol cymesur wrth gynnal cyfleoedd diwylliannol ac addysgol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Erthygl 31 – Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae, ac i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau. | X | | Mae'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae(2023) yn cydnabod bod "chwarae yn ganolog i iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant. I'r plant eu hunain, mae chwarae yn un o'r agweddau pwysicaf ar eu bywydau. Maent yn gwerthfawrogi amser, rhyddid a mannau o safon i chwarae."<br><br>Mae'r eithriadau yn darparu eithriad i ddarparwyr heb eu cofrestru sy'n cynnig ystod o gyfleoedd chwarae i weithredu. Mae hyn yn cael ei ystyried yng ngoleuni nod yr adolygiad o sicrhau bod yr eithriadau sydd ar waith yn gymesur ac yn nodi'r darparwyr y mae gwir angen eu cofrestru, ac yn eithrio'r rhai nad oes angen iddynt wneud hynny.<br><br>Yn yr Adroddiad Plant a Phobl Ifanc, pwysleisiodd plant bwysigrwydd chwarae, clybiau ieuenctid, chwaraeon a gweithgareddau creadigol yn eu bywydau. Fe wnaethant fynegi brwdfrydedd dros glybiau ond pwysleisiwyd hefyd fod sesiynau hir, seibiannau annigonol, neu weithgareddau anaddas i blant iau yn lleihau mwynhad neu ddiogelwch. Mae eu sylwadau yn cefnogi'r nod o sicrhau bod gweithgareddau sydd wedi'u heithrio yn parhau i fod yn briodol, yn ddiogel ac yn hygyrch.<br><br>Gofynnodd yr ymgynghoriad a ddylai darparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn mwy nag un math o weithgaredd yn hytrach na'r ddau a ganiateir o dan yr eithriad presennol. Er |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | bod llawer o’r ymatebion i’r ymgynghoriad yn cefnogi’r cynnig hwn, cododd sylwadau a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad bryderon ynglŷn â'r effeithiau negyddol ar blant, teuluoedd a chymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i grwpiau cyfrwng Cymraeg, cymunedol a rhai sy'n seiliedig ar ffydd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod effeithiau negyddol y cynnig hwn yn gorbwyso manteision gwneud y newid hwn. Felly ni fydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn mwy nag un math o weithgaredd. Mae hyn yn golygu cadw'r status quo presennol fel na fydd angen i ddarparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn dim mwy na dau fath o weithgaredd o'r rhestr benodedig. Byddai cynnal yr eithriad i ddarparwr gynnig dau fath o weithgaredd yn cynnal cyfleoedd i blant ddilyn eu diddordebau a datblygu eu sgiliau mewn meysydd penodol. Cododd grwpiau ffocws bryderon penodol ynghylch grwpiau ffydd, grwpiau sy’n gwisgo lifrai, a grwpiau cymunedol y mae eu modelau yn dibynnu ar fathau o weithgareddau cyfunol fel rhan o’u hymgysylltiad cyfannol. Rhybuddiodd y grwpiau hyn y gallai cyfyngu i un math o weithgaredd danseilio rhaglenni cymunedol neu sy'n rhai diwylliannol arwyddocaol. Fodd bynnag, gall cynnal yr eithriad ar gyfer dau fath o weithgaredd olygu ei bod yn anodd gwahaniaethu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | rhwng gofal plant a gweithgareddau coetsio a dysgu.<br><br>Roedd adborth yr ymgynghoriad yn dangos y gallai darparwyr bach, gan gynnwys clybiau cymunedol a grwpiau dan arweiniad gwirfoddolwyr fod heb yr hyfforddiant, capasiti staffio neu allu ariannol i ddiwallu anghenion cymorth ychwanegol plant anabl pe bai'r gofynion cofrestru yn tynhau. Heb gymorth wedi'i dargedu, gall hyn leihau mynediad i blant anabl yn anfwriadol neu arwain at ddarparwyr yn gwrthod eu derbyn, yn groes i ofyniad Erthygl 23 am fynediad cynhwysol a chymorth priodol. |
| Erthygl 34 Dylai’r Llywodraeth amddiffyn plant rhag camdriniaeth rywiol. | X | | Gall Llywodraeth Cymru fonitro sut mae darparwyr yn gofalu am blant a'u diogelu drwy gofrestriadau ac arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru. Fel rhan o'r prosesau hyn, maent yn ystyried y gofal a roddir gan ddarparwyr a lles a datblygiad plant. Disgwylir iddynt fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a bennir gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys rhwymedigaethau ynghylch hyfforddiant diogelu ac adrodd. Mae hyn yn cynnwys cam-drin rhywiol. Mae'r rhain yn sylfaenol i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu'n briodol. Drwy ddod â mwy o ddarparwyr o fewn cwmpas cofrestriad llawn neu y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig, byddai gan Lywodraeth Cymru fwy o wybodaeth am y sector. Byddai'n ofynnol i ddarparwyr sy'n gwneud cais i ymuno â'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol gyflwyno tystiolaeth o hyfforddiant diogelu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob darparwr gadw at y gofynion yn 'Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cod Ymarfer Diogelu' i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu gan holl ddarparwr Cymru.<br><br>Cynigir, os bydd darparwr cofrestredig yn cael ei atal drwy orfodaeth, ni fydd yr eithriadau sy'n ymwneud â gofal am 2 awr neu lai y dydd yn berthnasol. Roedd ymatebwyr yn cefnogi hyn yn gryf, gan nodi y gallai caniatáu unrhyw ddarpariaeth i barhau o dan yr eithriadau danseilio prosesau gorfodi a rhoi plant mewn perygl parhaus.<br><br>Os yw Arolygiaeth Gofal Cymru wedi atal dros dro gofrestriad gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd, ni fyddent yn gallu parhau i weithredu o dan yr eithriadau ac felly gynnig gofal a allai fod yn anniogel i blant. Nod hyn yw diogelu plant. Er mwyn i ddarparwyr sy'n gweithredu o dan yr eithriadau ymuno â'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig, bydd yn ofynnol iddynt fodloni gwiriadau diogelwch sylfaenol. Byddai hefyd yn rhoi mwy o oruchwyliaeth i Lywodraeth Cymru o ddarparwyr heb eu cofrestru, gan wella dealltwriaeth o bwy sy'n gweithredu a'r mesurau diogelu sydd ar waith. |
| Erthygl 36 - Dylai plant gael eu gwarchod rhag unrhyw weithgarwch a allai amharu ar eu datblygiad. | X | | Mae Llywodraeth Cymru yn gallu monitro sut mae sefydliadau cofrestredig yn gofalu am ac yn diogelu plant wrth chwarae a chymryd rhan mewn gweithgareddau drwy gofrestriadau ac arolygiadau Arolygiaeth Gofal Cymru. Fel rhan o'r prosesau hyn, maent yn nodi'r rhagofalon |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | a'r ystyriaethau a wneir gan ddarparwyr i sicrhau bod plant yn ddiogel wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau. Disgwylir iddynt fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a osodir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r gweithgareddau a ddarperir, a'r amgylchedd lle mae'r plant yn derbyn gofal.<br><br>Ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar eu barn ynglŷn â dirymu rhai eithriadau lle mae'r darparwr yn gofalu am blant 2 oed ac iau, ac i ystyried a ddylid mabwysiadu dull gwahanol os yw'r rhiant yn aros ar y safle ond ddim yn bresennol yn ystod y sesiwn.<br><br>Amlygodd yr ymgynghoriad fod gan blant ifanc iawn—yn enwedig y rhai 4 oed ac iau, a'r rhai 2 oed ac iau—anghenion datblygiadol a gofal uwch, a bod angen eglurder ynghylch natur presenoldeb a chyfrifoldeb rhieni mewn perthynas â gofal i blant 2 oed ac iau.<br><br>Byddai dod â mwy o ddarparwyr o fewn cwmpas cofrestru llawn yn cynyddu goruchwyliaeth Llywodraeth Cymru ac yn helpu i sicrhau bod y plant ifanc hyn yn gallu cael mynediad at weithgareddau creadigol, diwylliannol a datblygiadol yn ddiogel, yn unol â CCUHP.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ddarparwyr cofrestredig a rhai heb eu cofrestru gadw at 'Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cod Ymarfer Diogelu' i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu yn holl leoliadau Cymru. Er bod rhai ymatebwyr yn nodi y gall lleoliadau heb eu cofrestru gynnig mannau diogel a |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gwerthfawr i blant feithrin sgiliau, hyder a pherthnasoedd, pwysleisiodd eraill y dylid cydbwyso hyn â'r angen am fesurau diogelu priodol i'r plant ieuengaf, yn enwedig lle nad yw rhieni yn bresennol eu hunain.<br><br>Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod lleoliadau heb eu cofrestru yn fwy peryglus i blant. I lawer o blant maent yn cynnig lle diogel, cyfle i adeiladu sgiliau/perthnasoedd a gwytnwch. Yn ogystal, maent yn cynnig cyfleoedd i blant wneud cysylltiadau ag oedolion diogel y gallent adrodd am niwed wrthynt.<br><br>Cynigir, os bydd darparwr cofrestredig yn cael ei atal drwy orfodaeth, ni fydd yr eithriadau sy'n ymwneud â gofal am 2 awr neu lai y dydd yn berthnasol. Roedd ymatebwyr yn cefnogi'r newid hwn yn gryf, gan nodi y gallai caniatáu unrhyw ddarpariaeth yn ystod y cyfnod hwn danseilio prosesau gorfodi a rhoi plant mewn perygl parhaus.<br><br>Os yw Arolygiaeth Gofal Cymru wedi atal dros dro gofrestriad gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd, ni fyddent yn gallu parhau i weithredu o dan yr eithriadau ac felly gynnig gofal a allai fod yn anniogel i blant. Nod hyn yw diogelu plant. Bydd gan y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig ar gyfer darparwyr sydd wedi'u heithrio, ofyniad i ddarparwyr brofi bod ganddynt wybodaeth sylfaenol am ddiogelwch a diogelu. Byddai hefyd yn cynnig gwell goruchwyliaeth i Lywodraeth Cymru o ddarparwyr heb eu cofrestru, gan |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | ddarparu gwybodaeth sy'n gyfyngedig ar hyn o bryd.<br><br>Gofynnodd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys awdurdodau lleol a chyrff cynrychioladol, am eglurder ynghylch sut y byddai diogelwch ac ansawdd yn cael eu monitro mewn lleoliadau hyfforddi/dysgu lle mae plant ag ADY neu anableddau yn mynychu. Pwysleisiwyd, heb fesurau diogelu cymesur a hyfforddiant digonol, gallai rhai mathau o weithgareddau - yn enwedig chwaraeon risg uchel - beri risgiau datblygiadol neu gorfforol os nad oes gan staff sgiliau neu oruchwyliaeth angenrheidiol. |

*Dylech ystyried a yw unrhyw rai o Hawliau Dinasyddion yr UE (y cyfeirir atynt yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb) yn ymwneud â phobl ifanc hyd at 18 oed.*

Bydd y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig yn caniatáu i fwy o ddarparwyr fod yn gymwys i gofrestru gyda CThEF i dderbyn taliadau drwy'r cynllun Gofal Plant Di-dreth a'r DWP fel y gall rhieni cymwys ddefnyddio'r cynllun Gofal Plant Credyd Cynhwysol. Bydd gan ddinasyddion yr UE sydd â statws sefydlog neu gyn-sefydlog fynediad at y cynlluniau hyn yn unol â'r gofynion cymhwysedd eraill.

**4. Cyngor i weinidogion a'u penderfyniad**

Mae dadansoddiad o'r effeithiau wedi cael ei gynnwys mewn cyngor i'r Gweinidog. Mae'n nodi'r manteision/effeithiau a nodwyd cyn yr ymgynghoriad a'r rhai a gasglwyd drwy'r broses ymgynghori. Mae ein huchelgais ar gyfer Gorchymyn Eithriadau effeithiol a'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig wedi'i seilio ar y ddealltwriaeth y dylent gael effaith gadarnhaol hirdymor ar ofal plant, chwarae a darpariaeth gweithgareddau i blant a phobl ifanc.

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn wedi cael ei ddiweddaru ar ôl gweld canlyniadau'r ymgynghoriad.

**5. Cyhoeddi'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant.**

Yn dilyn penderfyniad y gweinidog, bydd yr Asesiad Effaith ar Hawliau Plant hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

**6. Cyfathrebu â Phlant a Phobl Ifanc**

Casglwyd barn plant a phobl ifanc trwy fersiwn o'r ymgynghoriad sy'n addas i ieuenctid a thrwy grŵp ffocws. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad a'r grwpiau ffocws yn cael eu rhannu gyda phlant a phobl ifanc drwy wefan Llywodraeth Cymru a sefydliadau rhanddeiliaid fel Plant yng Nghymru a Chomisiynydd Plant Cymru.

Yn ogystal â'r ddogfen ymgynghori a'r grŵp ffocws i bobl ifanc, bydd canfyddiadau ymgysylltiad Cymru Ifanc yn cael eu rhannu gyda phlant a phobl ifanc mewn fformatau hygyrch. Mae hyn yn cyd-fynd â safonau cyfranogiad ac yn cefnogi Erthygl 12 trwy sicrhau tryloywder, atebolrwydd ac adborth ar sut y dylanwadodd eu barn ar ddatblygiad polisi.

**7. Monitro ac Adolygu**

Ar bob cam o ddatblygu'r polisi, bydd effaith y polisi yn cael ei asesu a'i adolygu. Os bydd newidiadau sylweddol i'r cynigion o ganlyniad i'r ymgynghoriad, bydd y CRIA yn cael ei adolygu'n gyfan gwbl.

Dylai gweithgarwch monitro hefyd asesu effeithiau ar blant sy'n defnyddio lleoliadau sy'n seiliedig ar ffydd, lleoliadau cyfrwng Cymraeg, lleoliadau gwledig a lleoliadau dan arweiniad gwirfoddolwyr, yn ogystal â phlant anabl a'r rhai sy'n byw mewn anfantais economaidd-gymdeithasol, gan adlewyrchu pryderon a godwyd drwy adborth ymgynghori.

## B. ASESIAD O’R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

Mae Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 Llywodraeth Cymru yn nodi amgylchiadau lle nad oes angen cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd. O fod wedi'u heithrio, nid oes angen i'r darparwyr hyn gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru na chydymffurfio â'r Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'n gwahaniaethu rhwng darparwyr y mae angen iddynt gofrestru a'r rhai nad oes angen iddynt wneud hynny.

Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r eithriadau yn dilyn argymhellion yn yr adroddiadau canlynol:

- Cais am Dystiolaeth ynghylch Gorchymyn Eithriadau 2010 (2019), a nododd fod angen adolygu sawl eithriad yn unol â datblygiadau polisi, er mwyn rhoi eglurder i ddiffiniadau, cryfhau'r trefniadau diogelu a sicrhau bod yr eithriadau yn deg i wahanol fathau o ddarparwyr.

- Yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae (2023), a argymhellodd, fel rhan o Argymhelliad Allweddol 11, y dylai Llywodraeth Cymru adolygu ac ymgynghori ar yr eithriadau sy'n ymwneud â pha mor aml y darperir gwasanaethau ynghyd â gweithgareddau coetsio a dysgu. Argymhellwyd hefyd yr angen i ystyried y posibilrwydd o gofrestru gwirfoddol.

- Gwarchod y dyfodol: Y rhwystr gofal plant sy'n wynebu rhieni sy'n gweithio (2022), a argymhellodd (argymhelliad 18) y dylai Llywodraeth Cymru amlinellu ei chynlluniau i gynnal ymgynghoriad llawn ar y Gorchymyn Eithriadau yr ymrwymwyd iddo yn 2019, er mwyn mynd i'r afael â phryderon ynghylch yr effaith negyddol y mae'n ei chael ar ddarparwyr cofrestredig ac ar ddiogelu plant. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw arbennig at y gostyngiad yn y ddarpariaeth gofal i blant anabl, gan ddyfynnu ffigurau Coram Family and Childcare a oedd yn nodi gostyngiad o 31% yn 2020 i 19% yn 2021 a bod 38% o awdurdodau lleol yn adrodd nad oes ganddynt ddigon o ddarpariaeth gofal i blant anabl yn unrhyw ran o'u hawdurdod lleol. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi pryderon ynghylch diffyg staff o gefndiroedd ethnig leiafrifol, a'r effaith y mae'n ei chael ar deuluoedd o'r cymunedau hyn. Roedd yn awgrymu bod llai o ddefnydd o ddarpariaeth gofal plant ymhlith cymunedau ethnig leiafrifol a bod angen mwy o waith ymgysylltu.

Yng ngoleuni'r adroddiadau hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad o'r eithriadau. Y nodau oedd:

- Sicrhau bod opsiynau gofal plant yn canolbwyntio ar y plant eu hunain ac yn meithrin hawliau plant i chwarae, ymlacio, dysgu ac ymuno â grwpiau a sefydliadau sy'n darparu ar gyfer eu hanghenion a'u diddordebau.
- Sicrhau bod yr eithriadau sydd ar waith yn gymesur ac yn eithrio'r rhai nad oes angen iddynt gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru.
- Hyrwyddo mesurau diogelwch cadarn i blant ym mhob lleoliad gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau, a fydd yn cyfrannu at gadw plant yn saff ac at sicrhau eu bod yn cael gofal priodol.
- Cefnogi gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau fforddiadwy, hygyrch a hyblyg i deuluoedd er mwyn darparu ar gyfer anghenion, diddordebau a gofynion amrywiol ledled Cymru. Ni ddylai unrhyw newidiadau i'r eithriadau leihau'r gofal plant, y cyfleoedd chwarae na'r gweithgareddau sydd ar gael neu sy'n fforddiadwy.
- Symleiddio Gorchymyn Eithriadau 2010 er mwyn gallu ei ddehongli'n eglur ac yn gyson.

**<u>Newidiadau arfaethedig i'r Gorchymyn Eithriadau</u>**

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus llawn ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig sy'n ymwneud â pha ddarparwyr nad yw'n ofynnol iddynt gofrestru fel gwarchodwyr plant neu ddarparwyr gofal dydd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a bydd yn gwneud y newidiadau canlynol i'r eithriadau:

- Caniatáu i berthnasau weithredu fel gwarchodwyr plant o dan rai amgylchiadau.
- Cysoni rheolau ar gyfer nanis, au pairs a charcwyr.
- Caniatáu i wasanaethau ieuenctid ddarparu gwaith ieuenctid pontio i blant 10 oed heb iddynt orfod cofrestru.
- Addasu gweithgareddau coetsio i blant 4 oed neu'n iau i hyd at 2 awr.
- Peidio â chynnwys yr eithriad coetsio/dysgu ar gyfer plant 2 oed neu'n iau.
- Dileu eithriadau 2 awr a 5 diwrnod ar gyfer plant 2 oed neu'n iau ac eithrio lle mae rhiant yn bresennol neu ar y safle ac y gellir ei alw.
- Diweddaru'r categorïau coetsio a dysgu.
- Ei gwneud yn ofynnol i ysgolion sydd â phlant 2 oed neu'n iau gofrestru fel darparwr gofal dydd.
- Peidio â chaniatáu i ddarparwyr sydd wedi'u hatal dros dro weithredu o dan yr eithriadau sy'n ymwneud â darpariaeth â chyfyngiad amser (2 awr neu lai y dydd).

Gofynnodd yr ymgynghoriad a ddylai darparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn mwy nag un math o weithgaredd yn hytrach na'r ddau a ganiateir o dan yr eithriad presennol. Er bod llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cynnig hwn, cododd sylwadau a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad bryderon ynglŷn â'r effeithiau negyddol ar blant, teuluoedd a chymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, i grwpiau cyfrwng Cymraeg, cymunedol a rhai sy'n seiliedig ar ffydd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod effeithiau negyddol y cynnig hwn yn gorbwyso manteision gwneud y newid hwn. Felly ni fydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn mwy nag un math o weithgaredd.  Mae hyn yn golygu cadw'r status quo presennol fel na fydd angen i ddarparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn dim mwy na dau fath o weithgaredd o'r rhestr benodedig.

Rhagwelir y caiff Gorchymyn Eithriadau 2026 ei wneud ym mis Ebrill 2026, y bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2027 ac y caiff ei orfodi'n llawn erbyn mis Ebrill 2028 yn dilyn cyfnod trosiannol o flwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau ar Orchymyn Eithriadau 2026 er mwyn helpu pobl i'w ddeall a'i gymhwyso.

## Bwriad i gyflwyno Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau

Ochr yn ochr â'r adolygiad hwn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnig i gyflwyno Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau. Bydd rhai darparwyr sydd wedi'u heithrio rhag gorfod cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru yn gallu gwneud cais am fynediad i'r cynllun os ydynt yn bodloni'r meini prawf a nodir. Roedd barn ar gymhwysedd yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda rhieni yn awgrymu y gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol gefnogi nanis, au pairs, carcwyr plant, grwpiau sy'n cael eu rhedeg gan elusennau a chynlluniau chwarae na fyddai'n realistig iddynt gofrestru gyda AGC. Nododd sefydliadau heb gofrestru y gallai gofynion gweinyddol gyfyngu ar gyfranogiad, tra bod rhai darparwyr cofrestredig yn credu y gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol fod o fudd i leoliadau o ansawdd uchel nad ydynt wedi cofrestru, sy'n cael trafferth bodloni gofynion staffio AGC. Efallai y bydd darparwyr o dan y cynllun yn gallu cofrestru gyda CThEF a'r Adran Gwaith a Phensiynau fel y gall rhieni cymwys fanteisio ar gynlluniau Gofal Plant Di-dreth neu Ofal Plant Credyd Cynhwysol.

**<u>Ystyried Cydraddoldeb drwy gydol y broses</u>**

Blaenoriaeth allweddol y gwaith hwn yw sicrhau bod plant yng Nghymru yn gallu cael mynediad at ofal plant, cyfleoedd chwarae a gweithgareddau sy'n diwallu eu hanghenion a hefyd anghenion eu teuluoedd. Mae'r adolygiad wedi'i gynnal mewn ffordd sydd wedi sicrhau bod nodweddion gwarchodedig plant a'u teuluoedd yn flaenoriaeth ac wedi bod yn ganolog wrth ystyried a gwneud penderfyniadau. Mae cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau dynol wedi'u hystyried yn erbyn yr egwyddorion allweddol a nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru 2025-29. Fodd bynnag, yn adborth yr ymgynghoriad gwelwyd anghydraddoldebau posibl ychwanegol nad oeddent wedi'u hadlewyrchu'n llawn yn yr asesiad gwreiddiol. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau anghymesur ar ddarparwyr sy'n seiliedig ar ffydd, grwpiau dan arweiniad gwirfoddolwyr, a sefydliadau sy'n gwasanaethu cymunedau diwylliannol penodol na fyddent yn gallu parhau i gynnig gweithgareddau am ddim neu cost isel o dan ofynion rheoleiddio diwygiedig.
Tynnodd rhanddeiliaid sylw hefyd at risgiau i deuluoedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, cymunedau gwledig a gweithwyr gofal plant dosbarth gweithiol (menywod yn bennaf), a allai gael eu heffeithio'n andwyol gan fwy o faich gweinyddol neu ariannol sy'n gysylltiedig â chymeradwyo neu gofrestru.

Nodwyd yr effeithiau posibl ar wahanol grwpiau trwy adborth yr ymgynghoriad:

Roedd adborth ar y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn cynnwys safbwyntiau cymysg ar draws gwahanol grwpiau. Roedd rhai rhieni a darparwyr heb eu cofrestru yn teimlo y gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ehangu mynediad a gwella fforddiadwyedd, ond roedd darparwyr cofrestredig yn pryderu y gallai pwyslais ar fynediad ariannol gymylu'r gwahaniaethau rhwng

gofal cymeradwy a gofal cofrestredig. Nododd ymatebwyr bod angen meini prawf cymeradwyo clir, cymesur, gyda darparwyr heb eu cofrestru yn ceisio hyblygrwydd a darparwyr cofrestredig yn cwestiynu a fyddai Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol a dibynnu ar hunan-ddatganiad yn sicrhau diogelwch a thegwch. Gwelwyd bod mwy o oruchwyliaeth yn hanfodol i sicrhau hygrededd. Roedd safbwyntiau ar gymhwysedd yn gadarnhaol ar y cyfan, er bod pryderon wedi'u codi am faich gweinyddol ar gyfer grwpiau bach, dan arweiniad gwirfoddolwyr neu grwpiau cymunedol. Ar y cyfan, roedd y farn yn gymysg ynghylch a ddylai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol fynd yn ei flaen, gyda rhieni a grwpiau heb eu cofrestru yn gyffredinol gefnogol a darparwyr cofrestredig yn mynegi pryder am system ddwy haen bosibl a risgiau i uniondeb y sector.

Ystyriwyd hefyd i ba raddau y mae'r newidiadau arfaethedig yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau mewn cynlluniau cydraddoldeb cenedlaethol – gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Cynllun Gweithredu LHDTC+, gwaith y Tasglu Hawliau Pobl Anabl a Strategaeth Tlodi Plant 2024. Mynegwyd pryder gan sawl ymatebydd y gallai lleoliadau bach neu sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr fethu â bodloni'r disgwyliadau hyfforddi, staffio neu ddiogelu sy'n ofynnol i gefnogi plant anabl neu'r rhai sydd ag ADY os bydd cyfyngiad ar yr eithriadau. Heb gymorth ariannol a meithrin gallu penodol, gallai hyn arwain yn anfwriadol at leihau mynediad i blant anabl a'u hallgáu yn anfwriadol.

Pwysleisiodd rhanddeiliaid fod plant anabl yn elwa'n sylweddol o amgylcheddau cymunedol dibynadwy, cyfarwydd a rhybuddiwyd y byddai colli darpariaeth o'r fath yn gwaethygu anghydraddoldebau presennol.

Er mwyn sicrhau bod safbwyntiau pobl â nodweddion gwarchodedig yn cael eu casglu a'u hystyried, rhannwyd yr ymgynghoriad ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys sefydliadau hawliau pobl anabl, sefydliadau hawliau plant a grwpiau crefyddol.

Er mwyn sicrhau bod y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn bodloni'r prawf amcanion statudol o dan Adran 60 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae ei nodau wedi'u hail-osod i bwysleisio hyrwyddo lles economaidd a chymdeithasol. Prif bwrpas y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yw ehangu mynediad at gymorth ariannol ar gyfer gofal plant a gwella fforddiadwyedd i deuluoedd, gan gynnwys y rhai o gymunedau incwm isel, gwledig, ethnig leiafrifol a Chymraeg eu hiaith. Bydd yn hanfodol sicrhau tryloywder ynghylch cyfyngiadau'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, yn enwedig y ffaith nad yw'n cynnig fframwaith diogelu neu sicrhau ansawdd llawn, er mwyn osgoi anfantais i deuluoedd neu ddarparwyr. Bydd canllawiau clir a gwerthusiad cadarn yn sail i weithredu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol i fonitro a lliniaru unrhyw effeithiau gwahaniaethol ar grwpiau gwarchodedig.

***Mewn perthynas â Nod Hirdymor 1 – Dileu anghydraddoldeb sy'n deillio o dlodi***

Mae canran y plant sy'n byw mewn tlodi, sy'n byw mewn cartref lle mae o leiaf un oedolyn yn gweithio, wedi cynyddu'n sylweddol ers argyfwng ariannol 2008. Roedd adroddiad Tlodi Incwm Cymharol Llywodraeth Cymru  yn nodi bod 29% o blant yn byw mewn tlodi cymharol ym mis Mawrth 2023. Roedd adroddiad Tlodi Plant a Theuluoedd Plant yng Nghymru (2023) yn nodi bod dros 30% o'r rhieni a ymatebodd wedi enwi costau gofal plant ac i ba raddau y mae'r gofal hwnnw ar gael ymhlith y 5 prif broblem sy'n gysylltiedig â thlodi. Nododd ymchwil y Senedd yn 2023 fod gan dros 80% o'r plant yng Nghymru sy'n byw mewn tlodi o leiaf un rhiant mewn gwaith.

Drwy'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig ar gyfer darparwyr sy'n gweithredu o dan yr eithriadau, bydd nifer uwch o ddarparwyr yn gallu cofrestru gyda CThEF a'r Adran Gwaith a Phensiynau, gan ganiatáu i rieni cymwys sy'n defnyddio eu gwasanaethau fanteisio ar gynlluniau Gofal Plant Di-dreth neu Ofal Plant Credyd Cynhwysol. Bydd hyn yn cysoni'r sefyllfa rhwng teuluoedd yng Nghymru a'r rhai yn Lloegr, lle gall rhai darparwyr a eithriwyd ddefnyddio'r cynlluniau hyn eisoes. Bydd yn sicrhau bod cyfleoedd ar gael yn fwy hwylus i deuluoedd. Bydd hyn yn cynnwys teuluoedd â phlant anabl hyd at 16 oed a allai fod yn wynebu costau gofal plant am gyfnod hirach na rhieni eraill. Bydd y cynlluniau, o bosibl, yn sicrhau bod ystod ehangach o ddarparwyr gofal plant ar gael am gost is, gan gefnogi Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024 *Amcan 1: lleihau costau a gwneud y gorau o incwm teuluoedd* a *Blaenoriaeth 1: hawl (rhoi arian ym mhocedi pobl), Blaenoriaeth 2: creu cenedl Gwaith Teg (heb adael neb ar ôl).*

Drwy esemptio darparwyr sy'n gweithredu o dan 2 awr, am bum diwrnod neu lai neu sy'n darparu gweithgareddau coetsio a dysgu (gan ystyried cafeatau oed a ph'un a yw rhieni ar y safle), bydd y diwygiadau arfaethedig yn cefnogi Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024 *Amcan 3: cefnogi llesiant plant a'u teuluoedd a sicrhau bod gwaith ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru yn darparu ar gyfer plant sy'n byw mewn tlodi, gan gynnwys y rheini â nodweddion gwarchodedig, fel y gallant arfer eu hawliau a sicrhau canlyniadau gwell* a *Blaenoriaeth 3: creu cymunedau*. Drwy gadw'r eithriad ar gyfer y darparwyr hyn, gallant barhau i redeg eu gwasanaethau a chynnig mynediad i blant a theuluoedd.

Fodd bynnag, mae rhai o'r newidiadau arfaethedig i'r eithriadau yn debygol o osod rhai darparwyr yn y categori sy'n gorfod cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, a allai arwain at fwy o gostau iddynt. Gallai hyn, yn ei dro, godi prisiau i deuluoedd, a fyddai'n effeithio'n negyddol ar fforddiadwyedd ac argaeledd, ac yn gweithredu yn erbyn Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2024 *Amcan 1: lleihau costau a gwneud y gorau o incwm teuluoedd a Blaenoriaeth 1: hawl (rhoi arian ym mhocedi pobl*).  Yn ogystal, drwy gadw'r eithriad ar gyfer darpariaethau sy'n gweithredu o dan 2 awr neu am bum diwrnod neu lai, gallai atal darparwyr rhag ehangu eu

darpariaeth, a allai effeithio ar blant sy'n byw mewn tlodi os darperir gweithgareddau o'r fath am ddim neu am gost isel. Drwy weithio gyda sefydliadau ymbarél drwy Cwlwm, caiff manteision ehangu'r ddarpariaeth a chofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru eu hyrwyddo i annog twf y ddarpariaeth gofrestredig ledled Cymru.

***Mewn perthynas â Nod Hirdymor 3 – Bydd anghenion a hawliau pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig yn flaenllaw yn y broses o gynllunio a darparu pob gwasanaeth cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.***

Eglurodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i roi terfyn ar hiliaeth yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun ym mis Tachwedd 2024. Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol 2024 yn parhau i roi sylw i ofal plant a chwarae, gan gydnabod y gwahaniaethau yn nata cyrhaeddiad y blynyddoedd cynnar ymhlith grwpiau ethnig leiafrifol yng Nghymru - plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr sydd â'r lefelau isaf, a phlant Indiaidd, Tsieineaidd a Phacistanaidd yr uchaf (y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2023). Mae'r data hefyd wedi dangos bod lefelau cyrhaeddiad plant Du a Du Prydeinig yn is yn ystod y blynyddoedd cynnar o gymharu â'u cyfoedion (Stats Cymru, 2017 i 19). Datgelodd astudiaeth yn 2021 fod rhieni Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn wynebu ystyriaethau diwylliannol ac addysgol unigryw ym maes gofal plant (Llywodraeth Cymru, 2021). Yn y dyfodol, i gefnogi Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, byddwn yn casglu data manwl ar amrywiaeth ethnig y gweithlu a defnyddwyr gofal plant drwy gwestiynau dewisol mewn ceisiadau ar gyfer Cynnig Gofal Plant Cymru.

Bydd yr ail-eiriad arfaethedig o'r eithriad sy'n ymwneud â rhieni, gofalwyr maeth, perthnasau ac aelodau'r aelwyd yn egluro y dylai perthnasau neu unigolion sy'n byw yn yr un cartref â'r plentyn allu gweithredu fel gwarchodwyr plant cofrestredig ar gyfer plant sy'n perthyn iddynt neu blant y maent yn byw gyda nhw, ar yr amod bod pob un o'r amodau canlynol yn cael eu bodloni: nid ydynt yn rhiant i'r plentyn ac nid oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant am y plentyn, nid nhw yw gofalwr maeth y plentyn, nid yw'r gofal yn digwydd yng nghartref y plentyn, ac mae'r gofal ar gael i blant nad ydynt yn perthyn iddynt. Byddai hyn yn caniatáu i rieni ddefnyddio gwasanaethau'r gwarchodwr plant a fyddai, yn eu barn nhw, yn diwallu anghenion iaith, diwylliant a/neu grefyddol y plentyn a'u teulu orau.

Drwy gadw'r eithriad ar gyfer gweithgareddau coetsio a dysgu diwylliannol, bydd darpariaeth o'r fath yn parhau i weithredu, a gall pobl barhau i ymgysylltu â gweithgareddau sy'n ymwneud â'u diwylliant a'u treftadaeth.

***Mewn perthynas â Nod Hirdymor 4 – Bydd Cymru'n arwain y byd o ran cydraddoldeb rhwng y rhywiau. Mae Cymru sy'n gyfartal o ran rhywedd yn golygu rhannu pŵer, adnoddau a dylanwad yn gyfartal rhwng pob menyw, dyn a phobl anneuaidd.***

Roedd adroddiad Cydraddoldeb Menywod yng Nghymru, Cyflwr y Genedl 2024, yn nodi bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghymru wedi cynyddu 0.4%, a bod menywod 3.5 gwaith yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar oherwydd cyfrifoldebau gofalu neu ddomestig; roedd 25.2% o fenywod yn nodi'r rheswm hwn dros beidio â bod mewn gwaith. Mae hyn yn cael ei waethygu ymhellach i fenywod o gefndiroedd ethnig leiafrifol. Mae adroddiad Monitor Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A yw Cymru'n decach? (2023) yn nodi mai 61.4% o fenywod o gefndiroedd ethnig leiafrifol oedd wedi'u cyflogi yn 2022, o'i gymharu â menywod gwyn (70.8%), dynion o gymunedau ethnig leiafrifol (71%) a dynion gwyn (77.4%).

Roedd dadansoddiad Oxera (2023) o Gyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi bod 43% o fenywod yn gweithio 30 awr neu lai yr wythnos, o'i gymharu â 18% o ddynion. Yn unol â hyn, ar ôl cael plentyn, mae nifer yr oriau a weithir gan fenywod yn gostwng o 40 awr ar gyfartaledd i rhwng 25 a 30 awr. O gymharu, nododd yr IFS Deaton Review yn adroddiad 'The Careers and time use of mothers and fathers', mai prin y mae oriau gwaith dynion yn newid ar ôl dod yn dadau. Nododd adroddiad y Centre for Progressive Policy, 'Growing Pains: The economic costs of a failing childcare system' (2023) fod diffyg mynediad at ofal plant addas yn rhwystr i 27% o famau a fyddai'n hoffi gweithio mwy, a nododd 18% eu bod wedi cael eu hatal rhag cymryd swydd â chyflog uwch. Mae adroddiad Cyflwr y Genedl 2024 yn darparu tystiolaeth bellach o'r rhwystrau hyn i symud ymlaen o ran gyrfa drwy nodi mai 39% o reolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion Cymru sy'n fenywod. 7.8% o fenywod sy'n gweithio yn y galwedigaethau hyn, o'i gymharu ag 11.2% o ddynion. Mae'r gwahaniaeth hwn hefyd yn cael ei adlewyrchu o ran cyflog; gwelir y bwlch cyflog mwyaf rhwng y rhywiau mewn galwedigaethau masnach a thechnegol sgil uchel (ONS, 2024).

Drwy'r cynnig ar gyfer creu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer darparwyr sydd wedi'u heithrio rhag gorfod cofrestru'n llawn gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, efallai y bydd mwy o ddarparwyr yn gallu cofrestru gyda CThEF a'r Adran Gwaith a Phensiynau fel y gall rhieni cymwys dalu am ofal gan ddefnyddio'r cynlluniau Gofal Plant Di-dreth neu Ofal Plant Credyd Cynhwysol. Bydd hyn yn cysoni'r sefyllfa rhwng teuluoedd yng Nghymru a'r rhai yn Lloegr, lle gall rhai darparwyr a eithriwyd ddefnyddio'r cynlluniau hyn eisoes. Bydd yn sicrhau bod cyfleoedd ar gael yn fwy hwylus ac yn fwy fforddiadwy i deuluoedd ac yn caniatáu i rieni weithio mwy a / neu ddatblygu eu gyrfaoedd os dymunant.

***Mewn perthynas â Nod Hirdymor 6 – Cymru o gymunedau cydlynus sy'n gydnerth, yn deg ac yn gyfartal.***

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru(2022) a fersiwn ddiwygiedig 2024 yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adeiladu cymdeithas gynhwysol a theg ar gyfer pob person a chymuned Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru.

Yn unol â'r ymrwymiad i adeiladu cymdeithas gynhwysol a theg, mae Gorchymyn Eithriadau 2010 yn eithrio darparwyr gweithgareddau coetsio neu ddysgu mewn astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol rhag gorfod cofrestru. Mae hyn yn caniatáu i bobl arfer ac ymgysylltu'n rhydd ac yn rhwydd â'u diwylliant a/neu eu crefydd. Drwy gadw'r eithriad hwn sy'n caniatáu i sefydliadau gynnig gweithgareddau coetsio a dysgu heb orfod cofrestru, bydd cyfleoedd yn parhau i blant 0-12 oed ddilyn eu diddordebau, eu talentau a'u diwylliannau. Mae cadw'r ddarpariaeth yn sicrhau bod gan deuluoedd ddewis. Mae egwyddor yr eithriad hwn yn parhau er mwyn sicrhau cyfleoedd parhaus.

Roedd Astudiaeth ansoddol Llywodraeth Cymru o gredoau, ymddygiadau a rhwystrau sy'n effeithio ar benderfyniadau rhieni o ran gofal plant a addysg gynnar(2021) yn nodi sut mae rhai rhieni yn gwneud penderfyniadau am ofal plant yn seiliedig ar eu ffydd, eu hiaith a/neu eu cefndir diwylliannol. Yn ogystal, roedd yn nodi bod yn well gan rai rhieni gael aelodau o'r teulu i ofalu am eu plant, gan eu bod yn teimlo eu bod yn diwallu anghenion y plant yn fwy effeithiol. Bydd yr ail-eiriad arfaethedig o'r eithriad sy'n ymwneud ag aelodau o'r teulu yn egluro y dylai perthnasau neu unigolion sy'n byw yn yr un cartref â'r plentyn allu gweithredu fel gwarchodwyr plant cofrestredig ar gyfer plant sy'n perthyn iddynt neu blant y maent yn byw gyda nhw, ar yr amod bod pob un o'r amodau canlynol yn cael eu bodloni: nid ydynt yn rhiant i'r plentyn ac nid oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant am y plentyn, nid nhw yw gofalwr maeth y plentyn, nid yw'r gofal yn digwydd yng nghartref y plentyn, ac mae'r gofal ar gael i blant nad ydynt yn perthyn iddynt. Byddai hyn yn caniatáu i rieni ddefnyddio gwasanaethau'r gwarchodwr plant a fyddai, yn eu barn nhw, yn diwallu orau anghenion gofal eu plentyn anabl, neu anghenion cyfathrebu plentyn nad Cymraeg neu Saesneg yw ei iaith gyntaf, neu sy'n rhannu ffydd grefyddol neu ddiwylliant, er enghraifft. Mynegodd grwpiau ffocws bod yr hyblygrwydd hwn yn gadarnhaol, ond bod geiriad cliriach yn hanfodol er mwyn osgoi dryswch ymhlith teuluoedd a chymunedau sy'n dibynnu'n helaeth ar berthnasau ar gyfer gofal plant diwylliannol neu sy'n sensitif i iaith.

Ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar eu barn ynglŷn â dirymu rhai eithriadau lle mae'r darparwr yn gofalu am blant 2 oed neu'n iau, ac a ddylid mabwysiadu dull gwahanol os yw eu rhiant yn aros ar y safle. Er y gallai'r newidiadau hyn arwain at osod mwy o ddarparwyr yn y categori sy'n gorfod cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru, mae esemptio darparwyr lle mae rhiant yn aros ar y safle yn ymgais i liniaru effeithiau negyddol. Gallai hyn leihau nifer y darparwyr sy'n cynnig y gofal hwn gan na fyddent efallai am ymgymryd â baich cofrestru.

**Mesurau llwyddiant**

Ar ôl ymgynghori ac unrhyw newidiadau sy'n deillio o hynny, bydd nifer y darparwyr sydd wedi'u cofrestru i ddarparu gwasanaethau i blant a theuluoedd yn cael ei fonitro gan Arolygiaeth Gofal Cymru. Bydd nifer y plant sy'n defnyddio'r darparwyr yn cael ei gofnodi drwy'r

data Hunanasesu Gwasanaeth blynyddol a gyflwynir gan ddarparwyr cofrestredig. Os caiff y cynnig i greu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ei fabwysiadu, bydd y nifer sy'n manteisio arno yn cael ei fonitro. Gellir cael gwybodaeth ychwanegol drwy'r data a gesglir gan awdurdodau lleol fel rhan o waith monitro targedau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, a'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a gyflwynir ganddynt.

**Cofnod o Effeithiau yn ôl nodwedd warchodedig**

| **Grŵp neu nodwedd warchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Y rhesymau sydd wrth wraidd eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth)** | **Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Crefydd, cred a dim cred | Cadarnhaol<br><br>Mae cynnal yr eithriad ar gyfer coetsio a dysgu mewn hyd at ddau fath o weithgaredd yn caniatáu i sefydliadau ffydd barhau i ddarparu cyfleoedd coetsio a dysgu i blant 2-12 oed. O ganlyniad,bydd plant yn parhau i gael cyfleoedd i fanteisio ar weithgareddau sy’n ymwneud â’u ffydd a’u diwylliant.<br><br>Bydd yr ail-eiriad arfaethedig o'r eithriad sy'n ymwneud â rhieni, gofalwyr maeth, perthnasau ac aelodau'r aelwyd yn egluro y dylai | Aethpwyd ati i ymgysylltu â grwpiau crefyddol sy'n gweithredu o dan yr eithriadau hyn, a gwelwyd ystod eang y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig i gymunedau a theuluoedd.<br><br>Mae Cyfrifiad 2021yn dangos bod 53.5% o boblogaeth Cymru yn nodi bod ganddynt grefydd.<br><br>Gofynnodd yr ymgynghoriad a ddylai darparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn mwy nag un math o weithgaredd yn hytrach na'r ddau a | Drwy ganllawiau clir ac enghreifftiau o astudiaethau achos, sicrheir bod darparwyr gweithgareddau coetsio a dysgu crefyddol yn deall yr hyn sy'n syrthio o fewn ffiniau crefydd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | perthnasau neu unigolion sy'n byw yn yr un cartref â'r plentyn allu gweithredu fel gwarchodwyr plant cofrestredig ar gyfer plant sy'n perthyn iddynt neu blant y maent yn byw gyda nhw, ar yr amod bod pob un o'r amodau canlynol yn cael eu bodloni: nid ydynt yn rhiant i'r plentyn ac nid oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant am y plentyn, nid nhw yw gofalwr maeth y plentyn, nid yw'r gofal yn digwydd yng nghartref y plentyn, ac mae'r gofal ar gael i blant nad ydynt yn perthyn iddynt. Bydd hyn yn caniatáu i rieni ddefnyddio gwasanaethau'r gwarchodwr plant i ofalu am eu plentyn os ydynt yn teimlo mai nhw fyddai'n diwallu anghenion plentyn orau am eu bod yn rhannu ffydd grefyddol.<br><br>Drwy gadw'r eithriad lle nad yw'r gofal yn fwy na dwy awr y diwrnod, gyda rhieni yn aros ar y safle yn achos plant 2 oed ac iau, gall rhieni barhau i gael mynediad at creches a sefydlwyd gan | ganiateir o dan yr eithriad presennol. Cododd grwpiau ffocws ymgynghori bryderon penodol ynghylch grwpiau ffydd, grwpiau sy’n gwisgo lifrai, a grwpiau cymunedol y mae eu modelau yn dibynnu ar fathau o weithgareddau cyfunol fel rhan o’u hymgysylltiad cyfannol. Rhybuddiodd y grwpiau hyn y gallai cyfyngu i un math o weithgaredd danseilio rhaglenni cymunedol neu sy'n rhai diwylliannol arwyddocaol. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | grwpiau crefyddol er mwyn rhoi cyfle iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau crefyddol tra bydd eu plant mewn gofal.<br><br><u>Negyddol</u><br><br>Efallai y bydd effaith negyddol o ddirymu rhai eithriadau mewn amgylchiadau lle mae darparwyr yn gofalu am blant 2 oed neu'n iau, a/neu i sesiynau gweithgareddau coetsio a dysgu gael eu cyfyngu i 2 awr i blant 4 oed ac iau. Gallai hyn effeithio ar allu rhieni i ymgymryd â gweithgareddau crefyddol gan na fyddai grwpiau crefyddol bellach yn gallu rhedeg creches i ofalu am blant tra bod eu rhieni yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â'u ffydd.<br><br>Gallai hyn greu rhwystrau i deuluoedd sydd â phlant ifanc wrth geisio cymryd rhan mewn gweithgareddau crefyddol, yn enwedig y rhai y mae eu hincwm ariannol yn gyfyngedig. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Roedd adborth ar ofynion cofrestru ar gyfer plant 2 oed ac iau yn tynnu sylw at y potensial ar gyfer effeithiau anghymesur ar gymunedau sy'n seiliedig ar ffydd, mudwyr, ffoaduriaid a'r rhai ar incwm isel. Mae crèches eglwysig, rhaglenni rhianta awdurdodau lleol, dosbarthiadau Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill a grwpiau cymorth cymunedol yn aml yn dibynnu ar ofal plant tymor byr heb ei gofrestru tra bod rhieni yn aros gerllaw. Gallai cofrestru gorfodol greu rhwystrau sy'n atal teuluoedd sy'n dibynnu ar y gwasanaethau hyn rhag cyfranogi, yn enwedig lle nad oes gan ddarparwyr yr adnoddau i fodloni gofynion rheoleiddio. Ar y llaw arall, pwysleisiodd llawer o rieni fod cofrestru yn darparu tryloywder, diogelwch ac ymddiriedaeth. Bydd angen rheoli'r tensiwn hwn yn ofalus trwy arweiniad, cyfathrebu a | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | chefnogaeth wedi'i dargedu. | | |
| Rhyw / Rhywedd | Cadarnhaol<br><br>Drwy'r cynnig ar gyfer creu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer darparwyr sy'n gweithredu o dan yr eithriadau, gallai nifer uwch o ddarparwyr fod yn gymwys i gofrestru gyda CThEF a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Efallai y bydd rhieni cymwys wedyn yn gallu talu am y gofal a ddarperir gan ddefnyddio'r cynlluniauGofal Plant Di-dreth neu Ofal Plant Credyd Cynhwysol. Bydd hyn yn sicrhau bod mwy o gyfleoedd ar gael i deuluoedd, ac yn caniatáu i famau weithio mwy a/neu ddatblygu eu gyrfaoedd os dymunant.<br><br>Negyddol<br><br>Tynnodd rhanddeiliaid sylw at y ffaith mai menywod yw'r gweithlu gofal plant a blynyddoedd cynnar yn bennaf, a bod nifer anghymesur ohonynt yn weithwyr ar gyflog isel. Byddai unrhyw gynnydd | Roedd adroddiad Cydraddoldeb Menywod yng Nghymru, Cyflwr y Genedl 2024, yn nodi bod menywod 3.5 gwaith yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar oherwydd cyfrifoldebau gofalu neu ddomestig; roedd 25.2% o fenywod yn nodi'r rheswm hwn dros beidio â bod mewn gwaith.<br><br>Roedd dadansoddiad Oxera (2023) o Gyfrifiad 2021 y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn nodi bod 43% o fenywod yn gweithio 30 awr neu lai yr wythnos, o'i gymharu â 18% o ddynion, a bod yr oriau cyfartalog a weithir ar ôl cael plentyn yn gostwng o 40 i 25-30.<br><br>Nododd adroddiad y Centre for Progressive Policy, 'Growing Pains: The Economic cost of a failing childcare system' (2023) fod diffyg mynediad at ofal plant addas yn rhwystr i 27% o famau a fyddai'n hoffi gweithio mwy, a nododd | Amherthnasol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mewn ffioedd cymeradwyo neu hyfforddiant, neu ofynion gweinyddol ar gyfer nanis, carcwyr neu warchodwyr plant rhan amser, yn peryglu rhoi beichiau ychwanegol ar fenywod, yn enwedig y rhai o gefndiroedd dosbarth gweithiol. Mae'r pryderon a fynegwyd yn y grwpiau ffocws ynghylch disgwyliadau cynyddol ar gyfer carcwyr, nanis ac au pairs—gan gynnwys egluro cyfrifoldebau goruchwylio—yn dangos bod risg o roi beichiau gweinyddol neu hyfforddi ychwanegol ar weithlu sydd eisoes yn wynebu anghydraddoldeb strwythurol. | 18% eu bod wedi cael eu hatal rhag cymryd swydd â chyflog uwch. | |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Nid oes unrhyw effaith benodol wedi'i nodi ar gyfer pobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon. | Amherthnasol | Amherthnasol |
| Priodas a phartneriaeth sifil | Nid oes unrhyw effaith benodol wedi'i nodi ar gyfer pobl sydd â'r nodwedd warchodedig hon. | Amherthnasol | Amherthnasol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant | Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant | Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant |
| Aelwydydd incwm isel | Cadarnhaol<br><br>Bydd y cynigion presennol yn gosod mwy o ddarpariaeth naill ai yn y categori sy'n gorfod cofrestru neu a fydd yn gallu gwneud cais o dan y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig. Bydd hyn yn cynnig mwy o gyfleoedd i rieni cymwys ddefnyddio cynlluniau Gofal Plant Di-dreth neu Ofal Plant Credyd Cynhwysol, a thrwy hynny leihau'r baich ariannol.<br><br>Mae cynnal yr hawl i ddarparu dau fath o weithgaredd coetsio a dysgu cyn bod angen cofrestru yn help i sicrhau cyfle cyfartal i deuluoedd sy'n byw o dan anfantais economaidd-gymdeithasol.<br><br>Negyddol<br><br>Gallai darparwyr sy'n cael eu gosod yn y categori sy'n gorfod cofrestru gydag | Drwy ddatblygu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig ar gyfer Gofal Plant, efallai y bydd nifer uwch o ddarparwyr ar gael i rieni drwy gynlluniau Gofal Plant Di-dreth neu Ofal Plant Credyd Cynhwysol. Bydd hyn yn cysoni'r sefyllfa rhwng teuluoedd yng Nghymru a'r rhai yn Lloegr, lle gall rhai daparwyr a eithriwyd ddefnyddio cynlluniau Gofal Plant Di-dreth a Gofal Plant Credyd Cynhwysol eisoes. Bydd hyn yn sicrhau bod cyfleoedd ar gael yn fwy hwylus i deuluoedd.<br><br>Bydd cost ynghlwm wrth y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig i ddarparwyr ar ffurf ffi gofrestru. Efallai y bydd costau ychwanegol hefyd wrth ennill cymwysterau a chael hyfforddiant. | Gallai darparwyr a fydd, efallai, yn cael eu gosod yn y categori sy'n gorfod cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru fod yn gymwys ar gyfer cynlluniau fel Cynllun Grantiau Bach Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar a reolir gan awdurdodau lleol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Arolygiaeth Gofal Cymru wynebu costau mwy, y gallent wedyn eu trosglwyddo i deuluoedd. Gallent hefyd wynebu'r posibilrwydd o gau, ac felly byddai llai o gymorth ar gael i rieni nad ydynt yn gallu talu am ddewis arall drutach.<br><br>Roedd adborth o'r ymgynghoriad yn pwysleisio'n gryf mai'r grwpiau fwyaf mewn perygl yn sgil y newidiadau fyddai'r rhai sy'n gwasanaethu teuluoedd incwm isel, gan gynnwys darparwyr sy'n seiliedig ar ffydd, darparwyr cymunedol a gwirfoddolwyr sy'n cynnig gofal plant, crèches a gweithgareddau am ddim neu gost isel. Rhybuddiodd rhanddeiliaid y gall dyletswyddau rheoleiddio ychwanegol arwain at rai yn cau neu'n codi eu ffioedd, gan effeithio'n anghymesur ar deuluoedd difreintiedig sy'n dibynnu ar ddarpariaeth gymunedol hygyrch. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Nododd ymatebwyr hefyd fod darpariaeth gofal plant eisoes yn gyfyngedig i deuluoedd gwledig, a phe bai darparwyr bach heb eu cofrestru yn tynnu eu darpariaeth yn ôl byddai hynny'n dwysáu'r anghydraddoldebau. | | |

## Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

| Hawliau Dynol | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Y rhesymau sydd wrth wraidd eich penderfyniad (yn cynnwys tystiolaeth) | Sut y byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol? |
|---|---|---|---|
| **Erthygl 9:**<br><br>**Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd**<br><br>**Erthygl 14:**<br><br>**Gwahardd gwahaniaethu** | O dan Orchymyn Eithriadau 2010, nid yw'n ofynnol i ddarparwyr coetsio neu ddysgu mewn astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol gofrestru. Mae hyn yn caniatáu cynnig gweithgareddau coetsio neu ddysgu am eu diwylliant a/neu eu crefydd yn rhydd ac yn rhwydd.<br><br>Bydd y newidiadau a gynigir i Orchymyn Eithriadau 2026 yn | Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru (2022) yn adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i adeiladu cymdeithas gynhwysol a theg ar gyfer pob person a chymuned Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru. Ymgymerwyd â'r adolygiad o'r eithriadau â hyn mewn golwg drwy ystyried effaith y cynigion ar bobl o wahanol hiliau yng Nghymru. Fel rhan o'r | Drwy ganllawiau clir ac enghreifftiau o astudiaethau achos, sicrheir bod darparwyr gweithgareddau coetsio a dysgu diwylliannol a chrefyddol yn deall yr hyn sy'n syrthio o fewn ffiniau astudiaethau diwylliannol a chrefyddol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | parhau i gefnogi plant i allu cymryd rhan mewn grwpiau diwylliannol a chrefyddol, o gadw'r eithriad hwn. | gwaith ymgysylltu â rhieni, cafwyd barn grŵp rhieni Bangladeshaidd.<br><br>Aethpwyd ati i ymgysylltu ymhellach â grwpiau crefyddol sy'n gweithredu o dan yr eithriadau, a gwelwyd ystod eang y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig i gymunedau a theuluoedd.<br><br>Tynnodd sefydliadau sy'n seiliedig ar ffydd sylw at y ffaith y bydd cynnal yr hawl i ddarparu dau fath o weithgaredd coetsio a dysgu yn sicrhau bod modelau integredig fel chwaraeon a'r ysgrythur, addysg ddiwylliannol ynghyd â'r celfyddydau creadigol, neu glybiau gwyliau cymunedol sy'n cyflwyno rhaglenni gweithgareddau cymysg yn gallu parhau. Mae'r modelau integredig hyn yn cael eu defnyddio a'u gwerthfawrogi'n helaeth gan blant, yn enwedig mewn cymunedau incwm isel lle mae gweithgareddau rhad ac am ddim neu cost isel o'r fath yn darparu cysylltiad cymdeithasol, hunaniaeth | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ddiwylliannol a chyfleoedd i chwarae.<br><br>Maent yn sicrhau mynediad plant at fannau cymunedol sy'n cyfrannu at eu datblygiad diwylliannol, cymdeithasol ac emosiynol. | |

**Hawliau Dinasyddion yr UE/AEE a'r Swistir**

**Preswylio** – yr hawl i breswylio a hawliau eraill sy'n ymwneud â phreswylio: hawliau ymadael a mynediad, ceisiadau am hawl i breswylio, cyfyngiadau ar hawliau mynediad a phreswylio;

Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith.

**Cydnabod cymwysterau proffesiynol yn gilyddol** – parhau i gydnabod cymwysterau proffesiynol a enillwyd gan ddinasyddion yr UE/yr AEE/y Swistir yn eu gwledydd (ac a gydnabyddir eisoes yn y DU);

Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith.

**Mynediad at systemau nawdd cymdeithasol** – mae'r rhain yn cynnwys budd-daliadau, addysg, tai a gofal iechyd;

Bydd y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig yn caniatáu i fwy o ddarparwyr fod yn gymwys i gofrestru gyda CThEF a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Rhoddir mynediad i ddinasyddion cymwys yr UE sydd â statws preswylydd sefydlog neu gyn-sefydlog at Ofal Plant Di-dreth neu Ofal Plant Credyd Cynhwysol yn unol â'r gofynion cymhwysedd eraill. Byddant wedyn yn gallu defnyddio'r cynlluniau hyn i dalu am ofal eu plentyn yn lleoliadau'r darparwyr sydd ar y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig.

**Triniaeth gyfartal** – mae hyn yn cynnwys peidio â gwahaniaethu, triniaeth gyfartal a hawliau gweithwyr;

Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith.

**Hawliau gweithwyr** – Ar y cyfan, gwarentir yr un hawliau i weithwyr a phobl hunangyflogedig sy'n dod o fewn cwmpas y Cytundebau Hawliau Dinasyddion ag a oedd ganddynt pan oedd y

DU yn Aelod-wladwriaeth. Mae ganddynt hawl i gael eu gwarchod rhag gwahaniaethu yn eu herbyn oherwydd eu cenedligrwydd, a'r hawl i gael eu trin yn gyfartal â dinasyddion y DU;

Ni fydd y cynnig yn cael unrhyw effaith.


## E. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

*Cymraeg 2050* yw ein strategaeth genedlaethol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwbl ymrwymedig i'r strategaeth newydd, ac mae'r targed o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd yn cael ei chynnwys fel un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth strategol i ystyried effaith lawn ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut y mae ein polisïau yn effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema sy'n berthnasol i'w gilydd yn strategaeth Cymraeg 2050:




1. Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (a gwblhawyd gan Dîm Safonau'r Gymraeg, e-bost: Safonau.Standards@llyw.cymru): 05/05/2025

2. A yw’r cynnig yn cysylltu’n glir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – Cymraeg 2050 Miliwn o Siaradwyr a’r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2021-2026? Rhaglen waith Cymraeg 2050 ar gyfer 2021-2026

**Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 a Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2026**

Mae Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 Llywodraeth Cymru yn nodi amgylchiadau lle nad oes angen cofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd. Ystyr eithrio yw nad oes angen i'r gwasanaethau a'r lleoliadau hyn gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) na chydymffurfio â'r Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd na'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'n gwahaniaethu rhwng gwasanaethau a lleoliadau y mae angen eu cofrestru a'r rhai nad oes angen eu cofrestru. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus llawn ynglŷn â'r newidiadau arfaethedig ynghylch pwy ddylai gofrestru fel y nodir yn y Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2026 Drafft, 'Gorchymyn Eithriadau 2026 Drafft', a fydd yn disodli Gorchymyn Eithriadau 2010.

Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn nodi'n glir bod y Blynyddoedd Cynnar a phlentyndod yn feysydd ffocws allweddol ar gyfer cyrraedd y targed hwn. Mae'r eithriadau arfaethedig a amlinellir yn y Gorchymyn Eithriadau 2026 Drafft i gyd wedi'u gwneud i roi cyfle i ddarparwyr gofal plant a darparwyr gweithgareddau gynnal neu gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, diogelu neu gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a chreu amodau ffafriol i'r defnydd o'r Gymraeg gynyddu. Yn gynnar yn 2024, mynychodd 16,410 o blant wasanaethau gofal plant a chyfleoedd chwarae cofrestredig a oedd wedi nodi mai'r Gymraeg oedd eu prif iaith weithredu ac addysgwyd dros 469,872 o blant mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn 2023. Bydd yr eithriadau arfaethedig yn cefnogi hyn drwy ddarparu cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn eu cartrefi ac yn eu bywydau cymdeithasol.

Mae'r cynigion hefyd yn gysylltiedig â Mwy na geiriau, strategaeth Llywodraeth Cymru i gryfhau a hyrwyddo'r Gymraeg ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Ein gweledigaeth ar gyfer 'Mwy na Geiriau' yw i’r Gymraeg berthyn a chael ei hymgorffori mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ledled Cymru, fel bod unigolion yn derbyn gofal sy’n diwallu eu hanghenion iaith heb orfod gofyn amdano, gan arwain at ganlyniadau gwell. Mae Fframwaith Mwy na Geiriau yn ceisio sbarduno cynnydd drwy ganolbwyntio ar dair thema cynllunio a pholisïau Cymraeg gan gynnwys data; cefnogi a datblygu sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu nawr ac yn y dyfodol; a rhannu arferion gorau a dull sy’n galluogi. Wrth wraidd y Fframwaith mae

egwyddor y Cynnig Rhagweithiol, sy’n rhoi cyfrifoldeb ar ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol i gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg, yn hytrach na bod y cyfrifoldeb ar y rhieni, y claf neu’r defnyddiwr gwasanaethau i ofyn amdanynt.

Bydd cael cynnig gwasanaethau iechyd a gofal yn Gymraeg yn helpu rhieni y mae'n well ganddynt dderbyn gwasanaethau a chymorth yn Gymraeg i deimlo'n fwy cyfforddus wrth gael mynediad at y gwasanaethau hyn a'u defnyddio. Bydd hefyd yn cynorthwyo plant i ddefnyddio eu sgiliau Cymraeg wrth iddynt dyfu i fyny a chael mynediad at wasanaethau a chymorth gofal iechyd.

**3. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg, ac eglurwch sut y byddwch yn mynd i’r afael â’r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau ar gyfer y Gymraeg.**

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad o eithriadau gwarchod plant a gofal dydd. Dau o'r nodau mwyaf perthnasol i'r Gymraeg yw:

- Sicrhau bod opsiynau gofal plant yn canolbwyntio ar y plentyn ac yn meithrin hawliau plant i chwarae, ymlacio, dysgu ac ymuno â grwpiau a sefydliadau sy'n diwallu eu hanghenion a'u diddordebau.
- Cefnogi gofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau fforddiadwy, hygyrch a hyblyg i deuluoedd er mwyn diwallu anghenion, diddordebau a gofynion amrywiol ledled Cymru. Ni ddylai unrhyw newidiadau i'r eithriadau arwain at ostyngiad yn y gofal plant, gwaith chwarae neu weithgareddau sydd ar gael ac yn fforddiadwy.

Mae'r nodau hyn wedi'u gosod gyda'r bwriad o gadw opsiynau ar agor, a allai gynnwys opsiynau Cymraeg ledled Cymru.

Amlygodd yr adborth i’r ymgynghoriad risgiau ychwanegol nad ydynt wedi'u cofnodi yn llawn yn yr asesiad drafft. Rhybuddiodd sawl un o'r rhanddeiliaid, gan gynnwys sefydliadau cyfrwng Cymraeg ac awdurdodau lleol, y gallai newidiadau sy'n effeithio ar eithriadau cyfnod byr effeithio'n anghymesur ar leoliadau gwirfoddol cyfrwng Cymraeg neu leoliadau cymunedol sy'n dibynnu ar yr eithriad dwy awr bresennol i sefydlu darpariaeth cyn cofrestru'n ffurfiol. Heb gymorth ariannol a gweinyddol wrth bontio, efallai y bydd rhai darparwyr yn penderfynu peidio ag ehangu neu efallai y byddant yn cau'n gyfan gwbl, gan gyfyngu ar gyfleoedd trochi Cymraeg cynnar i deuluoedd—yn enwedig mewn cymunedau gwledig.

Mae Cymraeg 2050 yn amlinellu systemau i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, gydag ehangu'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a throsglwyddo iaith yn y teulu yn cael eu targedu. Mae hyn yn nodi pwysigrwydd sylweddol datblygiad y Gymraeg ym mlynyddoedd cynnar plentyn ac yn y cartref. Mae Gorchymyn Eithriadau 2010 yn eithrio pobl rhag cofrestru

fel gwarchodwr plant pan fyddant yn gofalu am aelod o'r teulu. Bydd y Gorchymyn Eithriadau 2026 Drafft yn egluro y dylai perthnasau neu bersonau sy'n byw yn yr un cartref â'r plentyn allu gweithredu fel gwarchodwyr plant cofrestredig ar gyfer plant sy'n perthyn iddynt neu blant sy'n byw gyda nhw, ar yr amod bod pob un o'r canlynol yn cael eu bodloni: nid nhw yw rhieni'r plentyn ac nid oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant dros y plentyn, nid ydynt yn ofalwr maeth i'r plentyn, nid yw'r gofal yn digwydd yng nghartref y plentyn, ac mae'r gofal ar gael ac yn cael ei gynnig i blant nad ydynt yn perthyn. Gallai hyn ganiatáu i rieni ddefnyddio gwasanaethau'r gwarchodwr plant a fyddai, yn eu barn nhw, yn diwallu anghenion diwylliannol ac ieithyddol eu plentyn a'u teulu orau. Fodd bynnag, awgrymodd adborth y grwpiau ffocws bod dryswch sylweddol ynglŷn â'r cynnig, gyda llawer o gyfranogwyr yn credu i ddechrau y byddai'n ofynnol i berthnasau gofrestru ar gyfer pob math o ofal gan y teulu. Pwysleisiodd y cyfranogwyr bod angen cyfathrebu yn gliriach i wahaniaethu rhwng gofal anffurfiol a gwarchod plant yn broffesiynol, a phwysleisiwyd bod yn rhaid i berthnasau sy'n dewis cofrestru fodloni'r un safonau diogelu a phroffesiynol ag unrhyw warchodwr plant arall.

Mae'r strategaeth Cymraeg 2050 yn nodi ei bod yn hanfodol i blant gael cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol wrth dyfu i fyny. Mae Gorchymyn Eithriadau 2010 yn eithrio darparwyr rhag cofrestru fel darparwyr gofal dydd os ydynt yn darparu gweithgareddau coetsio neu ddysgu. Drwy gynnal yr elfen hon o'r eithriadau, bydd y ddarpariaeth yn parhau i weithredu, a bydd plant a phobl ifanc yn gallu parhau i ymgysylltu'n rhydd â gweithgareddau sy'n eu galluogi i gymdeithasu gan ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r eithriad yn caniatáu darparu gweithgareddau coetsio a dysgu mewn astudiaeth ddiwylliannol, felly gellir ei defnyddio i gyflwyno gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymreig. Nododd sawl ymatebydd y byddai cyfyngu ar goetsio a dysgu i un math o weithgaredd wedi effeithio'n negyddol ar grwpiau cyfrwng Cymraeg diwylliannol, y celfyddydau mynegiannol, neu seiliedig ar ffydd sy'n cynnig sesiynau dwyieithog integredig (e.e. astudiaeth ddiwylliannol ynghyd â'r celfyddydau creadigol neu ddysgu yn yr awyr agored). Mae'r gweithgareddau hyn yn darparu sefyllfaoedd anffurfiol pwysig i blant a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol, a rhybuddiodd rhanddeiliaid y gallai'r polisi, fel y'i drafftiwyd yn yr ymgynghoriad, fod wedi lleihau'n anfwriadol gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith yn naturiol.

Fel rhan o'r adolygiad o'r eithriad coetsio a dysgu, cynigir hefyd ei ddiwygio i ganiatáu i leoliadau ddarparu un math o weithgaredd o restr benodol, yn hytrach na'r ddau a ganiateir ar hyn o bryd o dan yr eithriad. Gallai hyn arwain at rai lleoliadau angen cofrestru neu ddiwygio eu darpariaeth. Fodd bynnag, cododd rhai ymatebion i'r ymgynghoriad bryderon y gallai mwy o ddisgwyliadau rheoleiddiol roi pwysau ar leoliadau cyfrwng Cymraeg llai neu leoliadau dan arweiniad gwirfoddolwyr, yn enwedig mewn cymunedau gwledig, a chodi risg o gau os na ddarperir cymorth digonol. Byddai cynnal yr eithriad i ddarparwr gael cynnig dau fath o weithgaredd yn cynnal y cyfleoedd i’r darpariaethau hyn barhau. Byddai hyn yn cefnogi’r galw am ddarparwyr cyfrwng Cymraeg sy'n cynnig sesiynau iaith gymysg neu ieithyddol gyfoethog a’r hyfywedd ariannol cysylltiedig.

Mynegwyd pryder gan sawl un o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad y gallai disgwyliadau rheoleiddiol cynyddol heb gymorth wedi'i dargedu roi pwysau anghymesur ar leoliadau bach cyfrwng Cymraeg a lleoliadau dan arweiniad gwirfoddolwyr. Mae'r darparwyr hyn yn aml yn gweithredu ar gyllidebau cyfyngedig ac yn dibynnu'n helaeth ar wirfoddolwyr, gan wneud cydymffurfio â gofynion gweinyddol neu gymwysterau ychwanegol yn fwy heriol. Roedd pryderon a fynegwyd yn y grwpiau ffocws ynghylch yr eithriad 2 awr i blant 4 oed ac iau yn dweud y gallai rhai darparwyr gweithgareddau cyfrwng Cymraeg dynnu sesiynau blynyddoedd cynnar yn ôl yn hytrach na chofrestru, gan leihau cyfleoedd trochi yn y Gymraeg o bosibl.

Amlygodd adborth ychwanegol mewn grwpiau ffocws y gallai cofrestru gorfodol ar gyfer gofal plant 2 oed ac iau, lle nad oes rhieni yn bresennol, effeithio'n arbennig ar leoliadau cyfrwng Cymraeg neu wledig a arweinir gan wirfoddolwyr, sy'n dibynnu ar drefniadau crèche anffurfiol i gefnogi cyfranogiad rhieni. Gallai grwpiau rhianta cyfrwng Cymraeg, sesiynau addysg gymunedol a lleoliadau Ti a Fi wynebu heriau cynaliadwyedd os bydd angen iddynt gofrestru heb gymorth ychwanegol. Fodd bynnag, pwysleisiodd llawer o rieni a darparwyr cofrestredig fod cofrestru yn darparu diogelwch hanfodol i blant ifanc iawn, a bydd angen eglurder mewn canllawiau i gydbwyso anghenion ieithyddol, diwylliannol a diogelu.

Pwysleisiodd rhanddeiliaid hefyd fod lleoliadau cyfrwng Cymraeg eisoes yn wynebu prinder sylweddol yn y gweithlu, yn enwedig o ran staff gofal plant cymwys sy'n siarad Cymraeg. Byddai unrhyw gynnydd mewn lefelau staffio angenrheidiol neu ddisgwyliadau o ran cymwysterau yn arwain at berygl o leihau capasiti yn y sector cyfrwng Cymraeg ymhellach oni bai bod buddsoddiad cyfatebol yn y gweithlu yn cael ei gyflwyno.

Tynnodd yr ymatebwyr sylw at heriau parhaus wrth recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg, sy'n golygu y gallai gofynion ychwanegol effeithio'n anghymesur ar ddarparwyr cyfrwng Cymraeg.

Mae Gorchymyn Eithriadau 2010 yn eithrio gwasanaethau ieuenctid rhag cofrestru fel darparwyr gofal dydd lle mae gwasanaethau yn cael eu darparu i bobl ifanc 11 oed a hŷn. Ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar y cynnig i ganiatáu i ddarparwyr sy'n cynnig darpariaeth i blant 10 oed gael eu heithrio ar gyfer gwasanaethau ieuenctid wrth bontio. Nododd adborth yr ymgynghoriad fod hyn yn gam cadarnhaol ar gyfer cefnogi defnydd anffurfiol y Gymraeg ymhlith plant oedran cynradd hŷn, yn enwedig yn ystod y cyfnod pontio i'r ysgol uwchradd. Roedd cefnogaeth gref yn ymatebion y grwpiau ffocws i gydnabod Blwyddyn 6 fel pwynt hanfodol o ran pontio ieithyddol a chymdeithasol, gan bwysleisio bod gwaith ieuenctid yn ddull addysgol sy'n wahanol i ofal plant ac na ddylid ei ddwyn yn anfwriadol o fewn rheoleiddio gofal plant. Disgrifiwyd gwasanaethau ieuenctid fel mannau pwysig lle mae plant yn magu hyder gan ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Bydd gwasanaethau ieuenctid cyfrwng Cymraeg yn gallu darparu gwasanaethau pontio i blant 10 oed, gan eu helpu i fynd i'r afael ag anghenion personol, cymdeithasol ac addysgol drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd sawl ymateb i

ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Gwaith ieuenctid yng Nghymru: cyflawni dros bobl ifanc' yn dangos bod gwaith ieuenctid yn cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn gwahanol gyd-destunau ac yn codi hyder pobl ifanc wrth ddefnyddio'r Gymraeg.  Gallai hyn awgrymu bod modd i waith ieuenctid helpu i leihau'r gostyngiad mewn niferoedd wrth i blant ddewis symud o addysg gynradd cyfrwng Cymraeg i addysg uwchradd cyfrwng Saesneg oherwydd diffyg hyder yn eu gallu Cymraeg.

Ymgynghorwyd â'r cyhoedd ar eu barn ynglŷn â dirymu'r eithriadau lle mae'r darparwr yn gofalu am blant 2 oed neu'n iau, ac a ddylid mabwysiadu dull gwahanol os yw eu rhiant yn aros ar y safle. Rhagwelir y byddai unrhyw newidiadau yn debygol o gael yr un effaith ar leoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Os bydd y newid yn cael ei gyflwyno, gallai hyn arwain at gynnydd yn nifer y darparwyr sy'n cofrestru eu gwasanaethau ac efallai y byddant yn ceisio datblygu eu darpariaeth Gymraeg fel rhan o'r broses hon. Er enghraifft, efallai y bydd rhai yn ystyried gweithredu fel Cylch Meithrin, a thrwy hynny gefnogi nod rhaglen waith 2021 i 2026 Cymraeg 2050 sef anelu at agor 60 o Gylchoedd Meithrin newydd erbyn 2026. Efallai y bydd gan leoliadau o'r fath fynediad at fuddsoddiad drwy'r Rhaglen Gyfalaf Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar a rhaglenni fel 'Sefydlu a Symud' sy'n darparu cyllid i ehangu darpariaeth Blynyddoedd Cynnar cyfrwng Cymraeg.

Gall lleoliadau sy'n cynnal sesiynau gyda'r rhieni yn bresennol ddefnyddio'r cyfle i weithredu fel Cylch Ti a Fi, a fydd yn cefnogi datblygiad y Gymraeg a'r defnydd ohoni ymhlith plant a'r oedolyn sydd yn eu cwmni. Bydd unrhyw gynnydd mewn lleoliadau cyfrwng Cymraeg yn creu mwy o gyfleoedd i staff gofal plant ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith a bydd mwy o blant yn cael eu cyflwyno i'r Gymraeg yn gynnar.

Pwysleisiodd yr ymatebwyr yn gryf, fodd bynnag, heb ofynion cymesur, cymorth cyfieithu â chymhorthdal, a chymorth wedi'i dargedu, y gallai rhai grwpiau cymunedol cyfrwng Cymraeg heb eu cofrestru fod mewn perygl o gau pe na byddent yn gallu amsugno rhwymedigaethau rheoleiddiol neu weinyddol newydd. Roedd rhai rhanddeiliaid o'r sector cyfrwng Cymraeg yn adrodd bod rhai darparwyr yn defnyddio'r eithriad 2 awr i agor eu gwasanaeth i brofi'r farchnad cyn dechrau cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Dywedodd yr ymatebwyr y gallai cael gwared ar y llwybr hwn danseilio cynaliadwyedd darpariaeth cyfrwng Cymraeg newydd, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae sefydlu Cylchoedd Meithrin neu grwpiau Ti a Fi newydd eisoes yn heriol. Heb y gallu i brofi'r galw cyn cofrestru, efallai y bydd darparwyr yn llai tebygol o agor lleoliadau cyfrwng Cymraeg newydd, gan arwain at berygl o gynnydd arafach tuag at dargedau Cymraeg 2050. Roedd tystiolaeth grwpiau ffocws ar y rheol hyfforddi a dysgu dwy awr ar gyfer plant 4 oed ac iau yn ategu'r pryderon hyn, gan nodi y gallai rhai darparwyr deimlo nad oes modd iddynt gynnig darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn ddiogel neu'n hyfyw o fewn y cyfyngiadau newydd.

Ar ben hynny, mae'r gallu i weithredu heb gofrestru yn helpu'r lleoliad i ddechrau cynhyrchu incwm er mwyn recriwtio a thalu staff tra bod y broses gofrestru ar y gweill. Yn ogystal, mae hyn yn rhoi cyfle i wreiddio darpariaeth Gymraeg yn y gymuned a chaniatáu i'r lleoliad gynyddu ei niferoedd erbyn iddynt gael eu cofrestru. Bydd ychwanegu cafeat oedran i'r eithriadau yn atal hyn rhag digwydd ac efallai y bydd darparwyr sy'n ceisio cynnig gwasanaethau i blant dwy oed ac iau yn penderfynu peidio â chymryd y risg o agor lleoliad gan nad ydynt wedi gallu canfod a yw'n gynaliadwy yn y farchnad. Unwaith eto, byddai hyn yn effeithio'n negyddol ar deuluoedd sy'n dibynnu ar ofal plant i blant ifanc i'w galluogi i weithio.

Ochr yn ochr â'r adolygiad hwn, cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnig i gyflwyno Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau. Bydd rhai darparwyr sydd wedi'u heithrio rhag gorfod cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru drwy'r Gorchymyn Eithriadau yn gallu gwneud cais am fynediad i'r cynllun os ydynt yn bodloni'r meini prawf a nodir. Efallai y bydd rhieni cymwys sy'n defnyddio darparwyr ar y cynllun yn gallu cael mynediad at gynlluniau Gofal Plant Di-dreth neu Gofal Plant Credyd Cynhwysol. Gallai hyn ddarparu sefydlogrwydd ariannol i leoliadau cyfrwng Cymraeg sydd wedi'u heithrio gan y gallai mwy o rieni ddewis defnyddio eu gwasanaethau oherwydd eu bod yn dod yn fwy hygyrch yn ariannol.

Roedd barn ar gymhwysedd yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda rhieni yn awgrymu y gallai'r Cynllun gefnogi nanis, au pairs, carcwyr plant, grwpiau sy'n cael eu rhedeg gan elusennau a chynlluniau chwarae na fyddai'n realistig iddynt gofrestru gyda AGC. Nododd rhai sefydliadau heb gofrestru y gallai gofynion gweinyddol gyfyngu ar gyfranogiad, tra bod nifer fach o ddarparwyr cofrestredig yn teimlo y gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol fod o fudd i leoliadau o ansawdd uchel nad ydynt wedi cofrestru, sy'n methu bodloni cyfraddau staffio AGC.

Nododd sawl ymatebydd y gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol helpu darparwyr cyfrwng Cymraeg i ddod yn fwy hygyrch yn ariannol i deuluoedd, a thrwy hynny helpu i drosglwyddo'r Gymraeg. Fodd bynnag, pwysleisiwyd hefyd fod yn rhaid i'r cynllun gydnabod disgwyliadau'r Gymraeg yn benodol—gan gynnwys y Cynnig Rhagweithiol a mynediad at hyfforddiant cyfrwng Cymraeg —fel bod y llwybr gwirfoddol yn cryfhau, yn hytrach na gwanhau, ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Cafwyd adborth cymysg ar nodau'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. Roedd rhai rhieni a darparwyr yn teimlo y byddai ehangu mynediad at gymorth ariannol o fudd i deuluoedd, tra bod eraill—yn enwedig darparwyr cofrestredig—yn pryderu y gallai blaenoriaethu mynediad ariannol gymylu'r gwahaniaeth rhwng gofal cofrestredig a gofal heb ei gofrestru a thanseilio safonau'r sector. Pwysleisiodd yr ymatebwyr bod angen cyfathrebu clir am yr hyn y mae'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn ei sicrhau ac nad yw'n sicrhau.

Wrth fireinio'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, mae cyngor cyfreithiol wedi egluro bod yn rhaid i gynllun Adran 60 hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol Cymru. Mae nodau'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol felly yn canolbwyntio ar ehangu mynediad at gymorth ariannol i deuluoedd a gwella fforddiadwyedd gofal plant cyfrwng Cymraeg a

dwyieithog. Er y gall y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol helpu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i ddod yn fwy cynaliadwy, nid yw wedi'i fwriadu i weithredu fel system diogelu neu sicrhau ansawdd. Bydd cyfathrebu clir a gwerthuso cadarn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod darparwyr cyfrwng Cymraeg a chymunedol yn deall cwmpas y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ac nad yw ei ddatblygiad yn arwain yn anfwriadol at anfanteision i leoliadau cyfrwng Cymraeg llai neu dan arweiniad gwirfoddolwyr.

Pwysleisiodd rhanddeiliaid, er mwyn osgoi beichiau anghymesur, y dylai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol gynnwys templedi dwyieithog, prosesau symlach ar gyfer grwpiau dan arweiniad gwirfoddolwyr a gostyngiadau posibl mewn ffioedd ar gyfer darparwyr bach cyfrwng Cymraeg.

Nododd llawer o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad gyfleoedd clir i'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol gefnogi'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg — yn enwedig os yw disgwyliadau Cymraeg (e.e., ymwybyddiaeth o'r Cynnig Rhagweithiol, templedi dwyieithog, mynediad at hyfforddiant cyfrwng Cymraeg) wedi'u hymgorffori'n benodol yn y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. Byddai lleoliadau cyfrwng Cymraeg sy'n ymuno â'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn fwy gweladwy i Awdurdodau Lleol a theuluoedd, gan gefnogi dewis gwybodus a helpu i hyrwyddo'r Gymraeg mewn lleoliadau cymunedol. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr ymatebwyr y bydd y budd hwn ond yn cael ei wireddu os yw'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol wedi'i gynllunio i osgoi rhoi beichiau anghymesur ar ddarparwyr cyfrwng Cymraeg neu dan arweiniad gwirfoddolwyr. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai cynnwys gofyniad ynghylch y Gymraeg yn y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn eu gwneud yn llai parod i wneud cais i ymuno.

Pe bai mwy o leoliadau'n cael eu cofrestru, byddai rhagor o wybodaeth am weithgareddau darpariaeth cyfrwng Cymraeg cofrestredig ar gael drwy Ddatganiadau Hunanasesiad o Wasanaeth blynyddol y lleoliadau ac Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant ac Asesiadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Awdurdodau Lleol. O ganlyniad, bydd darlun mwy cywir o'r defnydd dyddiol o'r Gymraeg yn cael ei gyflawni.

Mae'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â'r diwygiadau hyn wedi'u cyhoeddi yn Gymraeg, a bydd hynny'n parhau, gan gynnwys dogfennau ymgynghori (a'r fersiynau Hawdd eu Deall ac i bobl ifanc), dogfennau cofrestru, gwybodaeth am y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig a chanllawiau atodol cysylltiedig.

Bydd effaith unrhyw un o'r diwygiadau arfaethedig y cytunir arnynt yn cael ei mesur drwy ddata Arolygiaeth Gofal Cymru ynghylch lleoliadau sy'n cofrestru gyda'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig, dadgofrestriadau a chofrestriadau newydd. Gellir cael gwybodaeth ychwanegol drwy'r data a gesglir gan awdurdodau lleol fel rhan o waith monitro targedau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, a'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a gyflwynir ganddynt.

Bydd gwaith monitro yn asesu'n benodol effaith y newidiadau ar ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, grwpiau cymunedol cyfrwng Cymraeg sy'n cael eu cynnal gan wirfoddolwyr, lleoliadau gwledig ac unrhyw effeithiau ar argaeledd gweithgareddau pontio neu ddiwylliannol cyfrwng Cymraeg, fel y codwyd yn yr adborth i'r ymgynghoriad.